

# CABINET

## CYNGOR GWYNEDD

<b>DYDDIAD</b>	Dydd Mawrth, 16eg Gorffennaf, 2019
<b>AMSER</b>	1.00 y.h.
<b>LLEOLIAD</b>	Siambwr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH
<b>PWYNT CYSWLLT</b>	Annes Siôn 01286 679490 cabinet@gwynedd.llyw.cymru

### AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

Aelodau	
Dyfrig L. Siencyn	Arweinydd
Dafydd Meurig	Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
Craig ab Iago	Aelod Cabinet Tai
Gareth Wyn Griffith	Aelod Cabinet Amgylchedd
Nia Wyn Jeffreys	Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol
Dilwyn Morgan	Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Gareth Thomas	Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned
Ioan Thomas	Aelod Cabinet Cyllid
Catrin Wager	Aelod Cabinet Prifffyrdd a Bwrdeistrefol
Cemlyn Rees Williams	Aelod Cabinet Addysg

## RHAGLEN

	<b>Eitem</b>	<b>Cyflwynir gan</b>	<b>Swyddog</b>	<b>Tud.</b>
1	YMDDIHEURIADAU			
2	DATGAN BUDDIANT PERSONOL			
3	MATERION BRYD			
4	MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU			
5	COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 25 MEHEFIN 2019			4 - 9
6	GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS BANGOR	Cyng. Nia Jeffreys	Catherine Roberts	10 - 35
7	PRIS CINIO YSGOLION CYNRADD 2019/20	Cyng. Cemlyn Rees Williams	Bethan Griffith	36 - 38
8	CRONFA ARLOESI ARFOR	Cyng. Gareth Thomas	Sioned Williams	39 - 46
9	STRATEGAETH TAI 2020-21	Cyng. Craig ab Iago	Arwel Wyn Owen	47 - 91
10	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED	Cyng. Gareth Thomas	Sioned Williams	92 - 105
11	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS GYLLID	Cyng. Ioan Thomas	Dafydd L Edwards	106 - 139
12	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS AMGYLCHEDD	Cyng. Gareth Griffith	Dafydd Wyn Williams	140 - 173
13	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS BRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH GWYNEDD	Cyng. Catrin Wager	Steffan Jones	174 - 182

14	ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS OEDOLION, IECHYD A LLESIANT	Cyng. Dafydd Meurig	Aled Davies	183 - 191
15	BLAEN RAGLEN Y CABINET	Cyng. Dyfrig Siencyn		192 - 193

---

## Y CABINET DYDD MAWRTH, 25 MEHEFIN 2019

---

### Yn bresennol-

Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas a Cemlyn Rees Williams

### Hefyd yn bresennol-

Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol), ac Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol)

Eitem 6: Gwenllian Williams (Swyddog Datblygu Iaith Gwynedd)

Eitem 7: Dafydd Gibbard (Uwch Reolwr Eiddo)

Eitem 8: Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor)

Eitem 9 a 10: Arwel Wyn Owen (Pennaeth Cynorthwyol Tai a Llesiant) a Gareth Wyn Parri (Arweinydd Tîm Opsiynau Tai)

Eitem 11: Delyth Gadlys Williams (Swyddog Polisi Corfforaethol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.  
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYD

Nid oedd unrhyw faterion bryd

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 21 Mai 2019 ac 4 Mehefin 2019 fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR WEITHREDIAD SAFONAU'R GYMRAEG 2018/19

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

## **PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol ac awdurdodi ei chyhoeddi yn unol â gofynion Safonau Iaith Cyngor Gwynedd.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn adrodd ar weithrediad y Cyngor i gydymffurfio a safonau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â'r Gymraeg. Nodwyd fod y Cyngor ymhell uwchben y safonau disgwylidig gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan ychwanegu fod y Cyngor yn gosod y safon ar gyfer Cymru. Mynegwyd ei fod yn ofyniad i greu ac i gyhoeddi'r adroddiad.

Ychwanegwyd ei bod yn ofynion penodol i adrodd ar unrhyw waith sydd yn sicrhau cydymffurfiaeth, aelodau staff sydd yn gallu'r Gymraeg, hyfforddiant sydd yn cael eu cynnal, cwynion a sut mae gofynion iaith yn cael eu cofnodi.

Ychwanegodd y Swyddog Datblygu'r Iaith Gymraeg nad oedd y data ar gyfer nifer aelodau o staff yn llawn pan gyhoeddwyd yr adroddiad ond cadarnhawyd fod 94% o staff gallu'r Gymraeg yn rhugl. Pwysleisiodd fod hyn yn dangos fod polisi recriwtio'r cyngor yn un da iawn. Tynnwyd sylw at ddata Hyfforddiant sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg a nodwyd fod cynnydd wedi bod yn y cyrsiau sydd ar gael yn ddwyieithog ac yn Saesneg. Ychwanegwyd y bydd y Gwasanaeth yn edrych ymhellach i mewn i hyn.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at y ffaith o'r 200 o staff sydd ddim yn rhugl yn yr iaith fod 172 ohonynt wedi cael hyfforddiant bellach.
- Nodwyd, o ran cwynion, fod un o'r cwynion wedi dod i'r Cyngor drwy law'r Comisiynydd Iaith. Amlinellwyd proses y Comisiynydd gan bwysleisio ei bod yn gallu bod yn broses hir. Er hyn mynegwyd fod y Comisiynydd newydd wedi awgrymu y bydd addasiadau i'r drefn yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod.
- Tynnwyd sylw at Wobr Dafydd Orwig gan dynnu sylw yn benodol at y Gwasanaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant yn eu gwaith yn sicrhau adnoddau Cymraeg ar gyfer hyfforddiant IOSH.
- Nodwyd o ran hyfforddiant nad yw pob hyfforddiant ar gael drwy'r Gymraeg, mynegwyd fod angen adolygiad ar y maes yma er mwyn adnabod a chreu cyrsiau arbenigol mewn rhai meysydd.

## **7. RHEOLAETH STAD MANDDALIADAU'R CYNGOR**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Griffith

## **PENDERFYNIAD**

Penderfynwyd ymateb i gasgliadau'r Pwyllgor Craffu Cymunedau drwy:

- Gefnogi'r Aelod Cabinet i sefydlu un Panel Ymgynghorol Manddaliadau Sirol gyda chyfansoddiad clir a chylch gorchwyl ehangach i gynorthwyo'r Aelod Cabinet ynglŷn â'i swyddogaethau rheolaeth y stad manddaliadau
- Cyfeirio unrhyw warged a ddaw o'r stad yn y dyfodol, sydd uwch law y swm sydd eisoes yn rhan o gyllideb refeniw'r Gwasanaeth ar hyn o bryd, gaei ei ail-fuddsoddi o fewn y Stad Manddaliadau, gan ddefnyddio cyfrif masnachol a chronfa wedi ei neilltuo i'r perwyl.

## **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen addasu'r penderfyniad yn dilyn trafodaeth bellach a'r adran Gyllid. Mynegwyd fod angen tynnu'r cais i gomisiynu gwaith i ystyried os oes buddiannau ariannol i sefydlu cwmni i leoli'r manddaliadau yn ei ôl.

Nodwyd nad oedd Adolygiad o'r Stad Manddaliadau wedi ei wneud ers 2008. Ychwanegwyd fod y mater wedi cael i gyflwyno fel adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau. Tynnwyd sylw ar gasgliadau'r Pwyllgor Craffu gan nodi'r angen i greu un Panel Ymgynghorol Manddaliadau ar draws y Sir gyda chyfansoddiad a chylch gorchwyl. Ynghyd a'r hawl i'r Gwasanaeth gyfeirio unrhyw elw a ddaw o'r stad i gael ei ail-fuddsoddi o fewn y Stad Manddaliadau.

Ychwanegodd yr Uwch Reolwr Eiddo fod yr adroddiad yn cynnig ffordd ymlaen i'r Gwasanaeth Man ddaliadau. Ymhelaethwyd ar gasgliadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor Craffu gan nodi fod y Gwasanaeth eisoes wedi gweithredu i ymateb y Pwyllgor o ran cynyddu'r adnodd staff sydd ar gael i reoli'r manddaliadau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd fod y Manddaliadau yn darparu gwaith a llety i bobl a fydd yn cyfrannu at gynnal cymunedau gweledig yng Ngwynedd.
- Nodwyd fod yr aelodau yn falch o weld yr adroddiad sydd yn mynegi barn yr aelodau craffu. Ychwanegwyd eu bod yn cyd-fynd a'r syniad o dynnu'r cais yn ôl ar gyfer creu cwmni ar gyfer Gwasanaeth gyda chyn lleied o staff.
- Tynnwyd sylw fod angen ail-edrych ar eiriad y penderfyniad gan nodi fod angen i unrhyw warged a ddaw o'r stad yn cael ei roi mewn cronfa wedi ei neilltuo i ail-fuddsoddi o fewn y Stad Manddaliadau.

## **8. ADRODDIAD PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2018/19**

Cyflwynwyd gan Cyng. Dyfrig Siencyn

### **PENDERFYNIAD**

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2018/19 ac argymhell i'r Cyngor llawn ei fabwysiadu.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn cael ei gyhoeddi sydd yn olrhain cynnydd y Cyngor. Ychwanegwyd fod yr Adroddiad yn pwysleisio blaenoriaethau'r Cyngor sydd i'w gweld yng Nghynllun y Cyngor. Tynnwyd sylw at y bwlch sydd i'w weld yn yr adroddiad o ran Rhagair Arweinydd Cyngor Gwynedd gan nodi y bydd yn cael ei greu yn dilyn y drafodaeth hon.

Nodwyd yn wahanol i'r llynedd fod perfformiad o ran arddull yn cael ei bwysleisio ar ffurf stori gyda llai o bwysau ar rifau a data. Mynegwyd fod yr adroddiad yn grynhoed o waith Herio Perfformiad y Cyngor sydd yn cael ei wneud ar hyd y flwyddyn.

#### Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at berfformiad yr Adran Addysg gan nodi fod 43.8% o'r disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi ennill 5 gradd TGAU A\* - C gan fynegi fod y ffigwr hwn yn un i ymfalchïo ynddo.
- Nodwyd y dylai'r rhagair fod yn dathlu llwyddiannau'r Cyngor am eleni.
- Mynegwyd o ran Adran Oedolion, lechyd a Llesiant fod yr Aelod Cabinet yn hapus iawn gyda'r cynnydd sydd yn cael ei wneud i Flaenoriaeth Gwella 6 - Sicrhau fod gennym wasanaethau gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel y dymunant. Mynegwyd fod 5 Tîm Lleol wedi ei greu i weithio ar y cyd a'r gwasanaeth lechyd i ddarparu gwasanaethau sydd ar gyfer anghenion a lles y dinesydd.
- Pwysleisiwyd cynllun Hafod y Gest fel un o lwyddiannau'r Cyngor am eleni.
- Nodwyd fod ffigwr o 2filiwn o bobl wedi ymweld â'r wefan yn ystod y flwyddyn gyda chynnydd yn y nifer o ddefnyddwyr sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth Hunan Wasanaeth.
- Tynnwyd sylw at y gwaith da sydd yn cael ei wneud ar y cyd rhwng y Cyngor, Gwasanaeth lechyd ac y Trydydd Sector.
- Mynegwyd o ran ystadegau ailgylchu fod Cyngor Gwynedd bellach yn ailgylchu 63% o wastraff y sir, ac ychwanegwyd eu bod yn ailgylchu yn gyfrifol ac yn cael ei wneud o fewn Prydain.
- Pwysleisiwyd fod rhaglen newid goleuadau stryd bellach yn ei ail ran sydd nid yn unig yn lleihau costau ond yn lleihau allbwn carbon y sir.

## 9. POLISI GOSOD TAI CYFFREDIN GWYNEDD

Cyflwynwyd gan Cyng. Craig ab Iago

### PENDERFYNIAD

Yn ddarostyngedig i addasu geiriad paragraffau 2.23 i 2.25 i sicrhau fod gallu sefydliad i weithredu fel ymddiriedolwr ymgeiswyr 6-17 oed yn eglur, cymeradwywyd Polisi Gosod Tai Cyffredin newydd o osod tai cymdeithasol yn seiliedig ar adlewyrchu anghenion ymgeiswyr drwy eu rhoi mewn band yn hytrach na dyrannu pwyntiau.

### TRAFODAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei fod yn adroddiad ar drefn gosod tai cymdeithasol ar draws Gwynedd. Ychwanegwyd fod Partneriaeth wedi ei sefydlu

yn 2012 a leihawyd 4 cofrestr tai i fod yn un system ar gyfer y bartneriaeth. Mynegwyd fod y gofrestr tai wedi bod yn dyrannu o ran pwyntiau ond penderfynwyd fod angen arolwg annibynnol o drefniadau gosod tai er mwyn gweithredu system a oedd yn hawdd i'w ddeall ac yn symleiddio'r drefn i'r unigolyn.

Nodwyd fod y system newydd yn un a bandiau gyda 5 band gwahanol. Yn ychwanegol pwysleisiwyd y bydd unigolion a chyswllt a Gwynedd yn cael eu blaenoriaethu yn ôl y system bandiau newydd. Ategwyd fod y system newydd yn arloesol ac yn profi eu bod yn ceisio cynorthwyo pobl leol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawyd y polisi gan nodi ei fod yn gam mawr ymlaen i sicrhau tai i bobl leol. Anogwyd pobl i roi eu henwau ymlaen i allu cynllunio ar eu cyfer.
- Nodwyd fod newid polisi yn gallu codi problemau, felly holwyd a fydd adolygiad yn cael ei gynnal o'r polisi. Mynegwyd fod ymrwymiad i'w adolygu ymhen 12 mis. Ychwanegwyd yn ogystal eu bod wedi dysgu o'r ymgynghoriad a gafodd ei gynnal, fod panel yn cael ei greu a fydd yn gallu uchafu rhai achosion. O ran effaith mynegwyd y bydd mwyafrif o'r rhestr yn mynd i fand 2 gan nodi fod y band wedi ei hidlo i is-gategoriâu.
- Tynnwyd sylw at bwynt 2.23 yn y Polisi sef y drefn ar gyfer Ymgeiswyr 16 ac 17 oed. Mynegwyd fod angen i ymgeiswyr o dan 18 oed ddarparu manylion oedolyn sy'n barod i fod yn Ymddiriedolwr, holwyd beth a fyddai'r camau os mai'r Cyngor yw'r rhiant corfforaethol gan fydd angen cefnogaeth a llety i'r bobl ifanc yma lwyddo. Nodwyd fod angen addasu'r cymal i nodi fel pwynt 2.24 fod ymddiriedolwyr yn sefyll am sefydliad neu berson.
- Mynegwyd pwysigrwydd o adael i'r cyhoedd wybod am y newid mewn polisi. Ychwanegwyd y bydd y bartneriaeth yn ymgysylltu a pawb ar y rhestr ac yn y gymuned mewn gwahanol ffyrdd fel eu bod yn ymwybodol o'r newid.

## **10. POLISI GOSOD TAI CYFFREDIN GWYNEDD**

Cyflwynwyd gan Cyng. Craig ab Iago

### **PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo rhyddhau £1.25miliwn o'r Gronfa Premiwm Treth Cyngor ar gyfer y tri cynllun a nodir yn Atodiad 1 ar gyfer 2019/20.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi y bydd y Strategaeth Tai yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a'r Cyngor llawn yn y misoedd nesaf. Mynegwyd er mwyn sicrhau fod cynlluniau yn gallu cael eu cyflawni yn 2019/20 bydd angen sicrhau dyraniad arian.

Amlinellwyd y cynlluniau a fydd yn cael ei ariannu sydd yn cynnwys Llety Pwrpasol sydd yn gynllun arloesol i ddarparu unedau llety ar gyfer pobl sengl sydd heb fan aros i fyw, sef 'pods' sydd wedi cael sylw yn y wasg yn ddiweddar. Ynghyd a hyn



tynnwyd sylw at Gynllun Tai Gwag a Cronfa Trwsio Tai. Ychwanegwyd fod mwy o gynlluniau i'w gweld yn y Strategaeth Tai

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd y bydd ariannu'r cynlluniau yma yn llenwi'r bwlch tan y bydd y Strategaeth Tai yn ei le.

## **11. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB**

Cyflwynwyd gan Cyng. Nia Jeffreys

### **PENDERFYNIAD**

Nodi a derbyn y wybodaeth yn yr adroddiad.

### **TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen sicrhau cydraddoldeb ar draws y Cyngor. Mynegwyd fod yr adroddiad yn dangos fod y gwaith sydd yn cael ei wneud o ran cydraddoldeb yn cyd-fynd ag amcanion y Cyngor.

Mynegwyd fod gwaith wedi ei wneud gyda Grŵp Craidd Cydraddoldeb a bod Swyddogion yn parhau i ddysgu am y maes drwy hyfforddiant. Mynegwyd fod cwrs rhagfarn ddiuedd yn cael ei gynnal gan y Cyngor. Pwysleisiwyd fod cydraddoldeb yn rhan greiddiol o waith y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croeswyd yr adroddiad sydd yn pwysleisio'r gwaith da mae'r Cyngor yn ei wneud. Tynnwyd sylw at amcan 3 gan nodi fod angen sicrhau fod pobl o wahanol gefndiroedd yn aelodau etholedig o'r Cyngor.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.15y.h

## **CADEIRYDD**

# Eitem 6

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i'r Cabinet

**Dyddiad y Cyfarfod:** 16 Gorffennaf 2019  
**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Nia Jeffreys  
**Swyddog Cyswllt:** Catherine E Roberts  
**Rhif Cyswllt:** 679047  
**Teitl yr Eitem:** Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC)  
Dinas Bangor

#### 1 Gofynnir i'r Cabinet:

- 1) Gymeradwyo ymgymryd â'r broses o ystyried cyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) newydd ar gyfer ardal benodol yn Ninas Bangor, yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig drafft a atodir; (atodiad 1) a ddi-ddymu GORCHYMYN YFED ALCOHOL MEWN MANNAU CYHOEDDUS DYNODEDIG AR GYFER ARDALOEDD BANGOR A CHAERNARFON 2004 CYNGOR GWYNEDD (Gorchymyn Cyfredol) i'r graddau y mae'n berthnasol i Fangor;
- 2) Awdurdodi Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol i ymgymryd â phroses ymgynghori am gyfnod o 28 diwrnod, gan ddychwelyd y mater i'r Cabinet am benderfyniad ynghylch a ddylid cyflwyno GGMC ym Mangor, yn ogystal ag unrhyw ddirprwyaeth gysylltiol, a diddymu'r Gorchymyn Cyfredol.

#### 2 Y RHESWM PAM FOD ANGEN PENDERFYNIAD

Swyddogaeth Awdurdodau Lleol a neb arall yw creu GDMC. Yn unol â Chyfansoddiad yr Awdurdod Lleol, mae creu gorchymyn o'r fath yn swyddogaeth gweithredol a'r Cabinet sy'n gyfrifol amdano.

#### 3 CYFLWYNIAD

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 (Deddf 2014) yn rhoi'r grym i Awdurdodau Lleol gyflwyno Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) i ymdrin â niwsans(au) neu broblem(au) penodol mewn mannau penodol. Ymddygiadau y pennir eu bod yn cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd cymunedau lleol yw'r ymddygiadau problemus hyn. Gall gorchymynion o'r fath barhau hyd at dair blynedd.

Cyn gwneud gorchymyn o'r fath, rhaid i'r Awdurdod Lleol fod yn fodlon -

1. Bod sail resymol dros gredu fod y gweithgareddau hyn mewn man cyhoeddus wedi cael, neu yn debygol o gael, effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn y cyffiniau.
2. Bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn fynych ac yn barhaus eu natur.
3. Bod y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod yn afresymol.
4. A'u bod yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodir.

Yn ogystal, cyn gwneud gorchymyn, rhaid i'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'r Heddlu a'r gymuned ehangach.

Mae'r gorchmynion yn gweithio drwy alluogi i ymddygiadau gael eu herio, a rhoi cyfle i'r unigolyn ddod â'r gweithgaredd i ben (yn y rhan fwyaf o amgylchiadau). Os nad oes modd gwneud hyn, mae canllawiau'r Swyddfa Gartref yn awgrymu camau gweithredu o gyflwyno hysbysiad cosb benodedig i'r person. Fodd bynnag, mae'r Heddlu wedi awgrymu dull gwahanol yn yr achos hwn. Bwriad yr Heddlu yn yr achos penodol hwn yw defnyddio model gorfodaeth nad yw'n defnyddio hysbysiadau cosb benodedig, ond sydd, yn hytrach, yn defnyddio model sy'n ddibynol ar ddirchafu ymatebion yn seiliedig ar ymddygiad yr unigolyn. Hynny yw, dengar a heriol yn y lle cyntaf, adrodd am wŷs os oes angen, ac arestio mewn sefyllfaoedd penodol (gweler y siart llif sydd ynghlwm yn atodiad 2).

Diben y Ddeddf yw lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn mannau cyhoeddus. Wrth i orchymyn gael ei ystyried, mae'n bosib y gall problemau symud i fannau eraill. Rhaid i ni hefyd roi ystyriaeth i amddiffyn unigolion bregus, megis pobl ddigartref.

Mae'r materion hyn eisoes wedi'u trafod gyda'r Heddlu, ac wedi arwain at ddiwygiadau ac addewidion fel y'u heglurir yn yr adroddiad.

#### **4 RHESWM A CHYFIAWNHAD DROS Y PENDERFYNIAD.**

Mae GDMC eisoes yn bodoli yng Nghaernarfon a Bangor ("y Gorchymyn Cyfredol"). Mae'r Gorchymyn Cyfredol hwn ar waith mewn rhan helaeth o Ganol Dinas Bangor a Bangor Uchaf ac mae wedi'i sefydlu ers sawl blwyddyn. Sefydlwyd y Gorchymyn Cyfredol fel Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig o dan ddarpariaethau Deddf yr Heddlu a Chyfiawnder Troseddol 2001, ond ar 20 Hydref 2017, fe'i trowyd drwy rinwedd Deddf 2014 yn GDMC yn awtomatig. Cyfyngir y gorchymyn gwreiddiol i atafaelu alcohol, ac mae'n rhoi'r grym i arestio o dan rai amgylchiadau penodol.

Mae'r Heddlu wedi awgrymu nad yw'r Gorchymyn Cyfredol bellach yn rhoi gallu a grymoedd digonol iddynt ymdrin â mathau newydd a mathau cynyddol o ymddygiad gwrthgymdeithasol ym Mangor. Mae'r prif broblemau yn deillio o gamdefnyddio alcohol neu sylweddau eraill, sy'n aml yn arwain at ymddygiad afreolus a gwrthgymdeithasol. Cafwyd cynnydd hefyd mewn cardota ymosodol.

Yn dilyn trafodaethau hir a manwl, cyflwynodd yr Heddlu dystiolaeth o'r mathau o ymddygiad i swyddogion yr Awdurdod Lleol, ynghyd â rhestr o

ddigwyddiadau gwirioneddol sydd i'w gweld yn digwydd yn gyson ar strydoedd Bangor.

Wedyn, cafwyd trafodaethau gydag Adran Gyfreithiol yr Awdurdod Lleol, arweinydd Portffolio Diogelwch Cymunedol, a phum Aelod Lleol Bangor.

### **Tystiolaeth - i gefnogi'r sail angenrheidiol i'r Awdurdod Lleol wneud gorchymyn o'r fath**

Mae'r Heddlu wedi nodi bod:-

*- "Y gorchymyn cyfredol yn annigonol i ymdrin â'r materion presennol sy'n effeithio ar fusnesau a thrigolion lleol, myfyrwyr a thwristiaid. Mae'r materion hyn yn cynnwys ymddygiad gwrthgymdeithasol cyffredinol gydag ymddygiad brawychus, iaith anwedus, ymosodiadau, yfed alcohol a bod dan ddylanwad cyffuriau. Mae pryderon wedi'u hadnabod ynghylch cardota a loetran wrth beiriannau codi arian gydag ymddygiad brawychus."*

*"Yn bennaf, byddai gweithredu'r GDMC yn ogystal â darparu opsiwn gorfodaeth yn caniatáu mesurau ymyrraeth gynnar ac atal gyda throsteddwy'r posib drwy ymgysylltu ac addysgu. Nid yw'r un o'r amodau arfaethedig yn afresymol ac maent wedi'u dylunio i wella ansawdd bywyd y Ddinas a'r effaith ar ymddygiadau penodol"*

I gefnogi eu safbwynt ar y mater hwn, maent wedi darparu nifer o gyfresi data, yn cynnwys map o'r ardal ddaearyddol yr hoffent iddi gael ei hystyried o fewn y gorchymyn. Yn ogystal, maent wedi cynnwys o fewn y map gyfeiriad at y digwyddiadau, hynny yw ymddygiad gwrthgymdeithasol a throsteddau, sydd wedi codi o fewn yr ardal dros y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 4 Mehefin 2019. Y niferoedd yw 486 o ddigwyddiadau a 649 o droseddau. Mae'r cyfnod amser yn arwydd nad yw'r ymddygiadau hyn yn 'gyfnod problemus tymor byr', ond mewn gwirionedd eu bod yn fynych, ac yn parhau i fod yn broblem yng Nghanol y Ddinas. (atodiad 3)

Maent wedi cynhyrchu datganiadau effaith gan aelodau'r gymuned fusnes ym Mangor sy'n arwydd o sut mae'r digwyddiadau hyn wedi cael effaith andwyol ar eu gwaith o ddydd i ddydd. Maent yn cynnwys Ysgol, caffi, pedair siop a chynrychiolydd o AGB (Ardal Gwella Busnes) Bangor ac yn bennaf maent yn cyfeirio at ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ymwneud â defnydd o gyffuriau, gollwng sbwriel yn eithafol, aflonyddu, ymddygiad brawychus a cardota ymosodgar.

Yn ogystal, maent wedi cynhyrchu rhestr ddienw o ddigwyddiadau gwirioneddol, y maent wedi'u rhannu rhwng pob un o'r pedwar cyfyngiad y maent am iddynt gael eu hystyried. Hynny yw, er mwyn dangos pam fod angen gorchymyn newydd, mwy penodol, er mwyn ymdrin yn fwy effeithiol â'r mathau o ymddygiad sydd, fe ymddengys, ar gynnydd. Y nifer o ddigwyddiadau a oedd yn cyd-fynd â'r ymddygiadau penodol hyn oedd 125.

Byddai hyn hefyd yn dangos bod y cyfyngiadau dan ystyriaeth wedi'u datblygu'n benodol i ymdrin â'r mathau o ymddygiadau sy'n achosi'r problemau mwyaf, ac sydd ar gynnydd, sydd felly'n cyfiawnhau eu cynnwys yn y gorchymyn.

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod sail ddigonol i gasglu bod cyfiawnhad dros yr achos i ystyried gorchymyn o'r fath.

Ar y cychwyn, ddaru'r Heddlu gynnig chwe chyfyngiad ar gyfer eu cynnwys yn y Gorchymyn Arfaethedig. Mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried fod pedwar o'r rhain yn addas i'w cynnwys yn y Gorchymyn Arfaethedig, sef:

1. Ymddwyn mewn ffordd sy'n debygol o beri aflonyddwch, dychryn, niwsans neu boendod
2. Loetran mewn cyflwr meddwol o ganlyniad i weithgaredd a ysgogwyd gan alcohol neu gyffuriau
3. Bod cymryd alcohol neu fod â chynwysyddion agored o alcohol yn eich meddiant sy'n debygol o beri neu yn peri ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd wedi'i wahardd yn yr Ardal gyfyngedig. Gall cwnstabl neu Swyddog Cefnogi Cymunedol yr Heddlu ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n torri'r amod hwn beidio ag yfed alcohol neu unrhyw beth sydd, yn eu barn hwy, yn alcohol, ac ildio unrhyw alcohol yn ei m/feddiant.
4. Loetran neu berfformio am wobr o fewn 10 metr i unrhyw beiriant codi arian

Mae'r Heddlu wedi cytuno i leihau nifer y cyfyngiadau i bedwar, ac maent hefyd wedi cytuno i barhau i weithio gyda phartneriaid yn y Gymuned, megis Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, a fforymau digartrefedd, i ymdrin â materion cysgu ar y stryd.

Agwedd arall i'w hystyried yw gweithredu'r Gorchymyn Arfaethedig. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru brofiad o ddefnyddio gwahanol fodolau gorfodaeth ar draws y rhanbarth, ac mae'n ffafrio'r model a nodir uchod yn hytrach na model cosb benodedig.

Mae swyddogion yr Awdurdod Lleol wedi cael sicrwydd y bydd yr Heddlu'n mynd i'r afael ag ymyraethau penodedig, ac y byddant yn bod yn rhagweithiol wrth eu gorfodi, yn seiliedig ar bryderon y cyhoedd a'r cwynion y maent yn eu derbyn. Bydd gofyn i'r Heddlu weithredu ar fyrder os bydd y problemau'n symud i fannau cyfagos, yn arbennig ardaloedd preswyl, gan ddefnyddio gweithredoedd gorfodi eraill priodol i'w lliniaru. Maent hefyd wedi cytuno i fonitro patrymau ymddygiad gwrthgymdeithasol ac adrodd yn rheolaidd.

Mae'r Heddlu hefyd wedi cytuno i dalu am yr arwyddion newydd fydd eu hangen os fydd y Gorchymyn Arfaethedig yn dod i rym.

Yn unol â gofynion cyfreithiol Deddf Cydraddoldeb 2010, mae asesiad effaith wedi'i gynnal mewn perthynas â'r broses hyd yma. Gwneir asesiad wedi'i ddiweddarau yn dilyn yr ymgynghoriad statudol, a chyn dychwelyd i'r Cabinet am benderfyniad terfynol. (atodiad 4)

Hyd yma nid yw'r asesiad wedi dangos unrhyw reswm dros beidio â pharhau gyda'r broses.

Yn unol ag argymhellion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae'r datblygiad hwn wedi ystyried egwyddorion y ddeddfwriaeth, ac yn benodol y cysyniad o bum ffordd o weithio - fel y dangosir isod -

## Hirdymor

Fe fydd y gorchymyn ei hun yn parhau mewn lle am 3 mlynedd, gyda'r bwriad o newid agweddau pobl tuag at eu hymddygiad mewn mannau cyhoeddus. Yn y tymor hirach, gobeithir y bydd hyn yn cyfrannu tuag at agweddau a pharch mwy cyfrifol tuag at warchodaeth o'n cymunedau, a dealltwriaeth o'r angen i gysidro'r effaith ar eraill.

## Atal

Fe fydd gorchymyn o'r math yn helpu i leihau'r niferoedd o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned, ac yn help i atal y sefyllfa rhag dirywio yn y dyfodol agos.

## Integreiddio

Mae'r gorchymyn yn cyfarch nodweddion nifer o sefydliadau, Bydd hefyd yn cyfrannu tuag at amcanion yr Heddlu, sef i leihau troseddau a gwneud y strydoedd yn fwy saff i drigolion a tuag at uchelgais y Cyngor o weld cymunedau sy'n llwyddo a ffynnu.

## Cydweithio

Mae'r datblygiad yma yn rhan o gydweithio rhwng y Cyngor a'r Heddlu yn benodol. Mae aelodau Lleol ym Mangor wedi bod yn rhan o'r trafodaethau, ac fe fydd yna ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd cyn gall y gorchymyn gael ei gymeradwyo yn llawn.

## Cynnwys

Mae'r heddlu, ac aelodau lleol wedi bod ynghlwm a'r trafodaethau, ac fe fydd ymgynghoriad cyhoeddus yn digwydd cyn penderfyniad terfynol ar y cais.

## **6 Y CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

- Y Cabinet i gymeradwyo mewn egwyddor barhau â'r broses o ystyried cyflwyno GDMC newydd i Fangor yn unol â'r Gorchymyn Arfaethedig, a diddymu'r Gorchymyn Cyfredol
- Os cymeradwyir yr uchod, rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad
- Rhaid i'r Awdurdod Lleol gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ynglŷn â'r gorchymyn, a bydd angen i hwn fod yn ei le am 28 diwrnod.
- Wedi'r ymgynghoriad, bydd swyddogion yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad i'r Cabinet, ac yn cynghori a ydynt yn dal i argymhell y Gorchymyn Arfaethedig.
- Os ydynt yn dal i argymhell y Gorchymyn Arfaethedig, bydd yr Awdurdod Lleol yn mynd ati i gyflwyno'r Gorchymyn Arfaethedig, diddymu'r Gorchymyn Cyfredol, a chodi arwyddion.

## **7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A WNAED CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

- Mae'r ymgynghoriadau hyd yma yn unol â'r hyn a nodir yn yr adroddiad.

- Bydd angen ymgynghoriad Cyhoeddus statudol pellach cyn dychwelyd i'r Cabinet am gymeradwyaeth derfynol.

### **Barn y Swyddog Monitro -**

Mae'r adroddiad wedi bod yn destun mewnbwn gan y Gwasanaeth Cyfreithiol ac yn darparu argymhellion priodol ar gyfer symud ymlaen i ymgynghori.

### **Barn y Swyddog Cyllid Statudol**

Rwyf wedi derbyn cadarnhad gan awdur yr adroddiad na fyddai'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad ariannol newydd ac, felly, rwy'n cefnogi'r argymhelliad er mwyn gallu gweithredu'r bragmataidd.

## CYNGOR GWYNEDD

### DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014

#### GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD (ALCOHOL AC YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL) (BANGOR) 2019

Mae Cyngor Gwynedd (“y Cyngor”), drwy arfer y grym a roddwyd iddo gan adran 59 o’r Ddeddf Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol, Trosedd a Phlismona 2014 (“y Ddeddf”), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

1. Enw’r Gorchymyn hwn yw y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Cyngor Gwynedd (Alcohol ac Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol) (Bangor) 2019.
2. Daw y Gorchymyn hwn i rym ar [XXXXXXXXXX] a bydd yn parhau mewn grym am gyfnod o 3 blynedd tan [XXXXXXXXXX], oni bai y caiff yn y cyfamser ei ddiddymu, ei ddiwygio, neu ei ymestyn gan Orchymyn pellach yn unol â grymoedd statudol y Cyngor.
3. Mae’r Gorchymyn hwn yn berthnasol i’r ardal a amlinellir yn goch ar y cynllun a atodwyd yn Atodlen 1 (“yr Ardal Gyfyngedig”).
4. Mae’r Cyngor yn fodlon bod yr amod cyntaf o dan adran 59(2) o’r Ddeddf wedi cael ei bodloni, sef:
  - a. bod y gweithgareddau canlynol wedi cael eu cynnal o fewn man cyhoeddus yn yr Ardal Gyfyngedig:
    - i. yfed alcohol;
    - ii. ymddygiad sydd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod;
    - iii. loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau, a
    - iv. loetran neu berfformio am wobr o fewn 10 metr o beiriant codi arian, a
  - b. bod y gweithgareddau hyn wedi cael effaith andwyol ar ansawdd bywyd pobl yn yr ardal, ac mae’n debygol y bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu cynnal mewn man cyhoeddus yn yr ardal honno ac y byddant yn cael effaith o’r fath.



5. Mae'r Cyngor yn fodlon bod yr ail amod o dan adran 59(2) o'r Ddeddf wedi cael ei bodloni, sef bod effaith, neu effaith debygol y gweithgareddau yn, neu'n debygol o fod, o natur barhaus neu barhaol a'i fod, neu'n debygol o fod, yn gwneud y gweithgaredd yn afresymol, ac yn cyfiawnhau'r cyfyngiadau a osodwyd gan y Gorchymyn.
6. Effaith y Gorchymyn hwn yw gosod y gwaharddiadau a/neu ofynion canlynol ym mhob man cyhoeddus yn yr Ardal Gyfyngedig ar bob adeg.

### **Yfed alcohol**

7. Yn ddarostyngedig i erthygl 9, mae'r gwaharddiadau canlynol yn gymwys:
  - a. Ni chaiff person ("P") yfed alcohol, nac unrhywbeth y mae Person Awdurdodedig yn rhesymol gredu i fod yn alcohol, os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P stopio ag yfed.
  - b. Ni chaiff P feddu ar alcohol neu gynhwysydd i ddal alcohol, nac unrhywbeth y mae Person Awdurdodedig yn rhesymol gredu i fod yn alcohol neu gynhwysydd i ddal alcohol, os yw'r Person Awdurdodedig yn gofyn i'r P ildio'r alcohol neu'r cynhwysydd.
8. Yn ddarostyngedig i erthygl 9, mae'r gofynion canlynol yn gymwys:
  - a. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P stopio ag yfed yn yr amgylchiadau a nodir yn erthygl 7(a), rhaid i'r P stopio yfed ar unwaith.
  - b. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ildio alcohol neu gynhwysydd yn yr amgylchiadau a nodir yn erthygl 7(b), rhaid i'r P ildio'r cyfryw alcohol neu gynhwysydd i'r Person Awdurdodedig ar unwaith.
9. Nid yw darpariaethau erthyglau 7 ac 8 yn gymwys lle bo'r P yn yfed alcohol mewn mangre neu fan sydd o ganlyniad i adran 62 o'r Ddeddf yn eithriedig rhag waharddiad mewn gorchymyn diogelu mannau cyhoeddus ar yfed alcohol.

### **Ymddygiad sydd yn debygol o achosi aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod**

10. Ni chaiff P ddilyn cwrs o ymddygiad sydd yn achosi, neu sydd yn rhesymol canfod ei fod yn achosi, aflonyddwch, braw, niwsans neu drallod i berson arall.
11. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ymadael â'r ardal mewn amgylchiadau lle bo'r P wedi tramgwyddo erthygl 10, rhaid i'r P ymadael ar unwaith.

### **Loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau**

12. Ni chaiff P loetran mewn cyflwr o feddwdod o ganlyniad i gymryd alcohol neu gyffuriau neu'r ddau.
13. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ymadael â'r ardal mewn amgylchiadau lle bo'r P wedi tramgwyddo erthygl 12, rhaid i'r P ymadael ar unwaith.

### **Loetran neu berfformio am wobwr o fewn 10 metr o beiriant codi arian**

14. Ni chaiff P loetran neu berfformio am wobwr o fewn 10 metr o beiriant codi arian.
15. Os yw Person Awdurdodedig yn gofyn i P ymadael â'r ardal mewn amgylchiadau lle bo'r P wedi tramgwyddo erthygl 14, rhaid i'r P ymadael ar unwaith.

### **Person Awdurdodedig**

16. At ddibenion y Gorchymyn hwn, mae Heddwes, Swyddog Cefnogaeth Gymunedol yr Heddlu a swyddog o'r Cyngor yn Bersonau Awdurdodedig.

### **Cosb**

17. Mae person sydd heb esgus rhesymol yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan erthygl 8 o'r Gorchymyn hwn yn euog o drosedd yn unol ag adran 63 o'r Ddeddf ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 2 ar y raddfa safonol.
18. Mae person sydd heb esgus rhesymol yn gwneud unrhyw beth a waherddir iddo rhag ei wneud gan erthyglau 10, 12 neu 14 o'r Gorchymyn hwn neu yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan erthyglau 11, 13 neu 15 o'r Gorchymyn hwn yn euog o drosedd yn unol ag adran 67 o'r Ddeddf ac yn agored o'i gollfarnu'n ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na lefel 3 ar y raddfa safonol.
19. Gall Person Awdurdodedig roi rhybudd cosb benodol am swm o hyd at £100.00 yn unol ag adran 68 o'r Ddeddf i unrhyw berson y mae ef yn credu sydd wedi cyflawni trosedd o dan adrannau 63 neu 67 o'r Ddeddf o ganlyniad i'r person hwnnw yn gwneud unrhyw beth a waherddir gan y Gorchymyn neu yn methu â chydymffurfio â gofyniad o osodir gan y Gorchymyn hwn.

### **Herio'r Gorchymyn**

20. Yn unol ag adran 66 o'r Ddeddf, gall unrhyw berson â diddordeb sydd yn dymuno herio dilysrwydd y Gorchymyn hwn ar y sail nad oedd gan y Cyngor y grym i wneud y Gorchymyn neu bod diffyg cydymffurfiaid â gofyniad o'r Ddeddf wneud cais i'r Uchel Lys o fewn 6 wythnos o'r dyddiad y gwnaethpwyd y Gorchymyn.

**GWYNEDD COUNCIL**

**ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014**

**GWYNEDD COUNCIL (ALCOHOL AND ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR) (BANGOR)  
PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2019**

Gwynedd Council (“the Council”), in exercise of the powers conferred upon it by section 59 of the Anti-social Behaviour, Crime and Policing 2014 (“the Act”), makes the following Order:

1. The name of this Order is the Gwynedd Council (Alcohol and Anti-Social Behaviour) (Bangor) Public Spaces Protection Order 2019.
2. This Order comes into force on [XXXXXXXXXX] and shall remain in force for a period of 3 years until [XXXXXXXXXX], unless in the meantime it is revoked, amended or extended by further Order under the Council’s statutory powers.
3. This Order applies to the area outlined in red on the plan attached in Schedule 1 (“the Restricted Area”).
4. The Council is satisfied that the first condition under section 59(2) of the Act has been met, in that:
  - a. the following activities have been carried out in a public place in the Restricted Area:
    - i. consumption of alcohol;
    - ii. behaving in a manner that is likely to cause harassment, alarm, nuisance or distress;
    - iii. loitering in a state of intoxication through consumption of alcohol or drugs, and
    - iv. loitering or performing for reward within 10 metres of a cash point.
  - b. these activities have had a detrimental effect on the quality of life of people in the locality, and it is likely that these activities will be carried on in a public place within that area and that they will have such an effect.

5. The Council is satisfied that the second condition under section 59(2) of the Act has been met, in that the effect, or likely effect of these activities is, or is likely to be, of a persistent or continuing nature and is, or is likely to be, such as to make the activities unreasonable, and justifies the restrictions imposed by the Order.
6. The effect of this Order is to impose the following prohibitions and/or requirements in every public place in the Restricted Area at all times.

### **Consumption of alcohol**

7. Subject to article 9, the following prohibitions apply:
  - a. A person ("P") shall not consume alcohol, or anything which an Authorised Person reasonably believes to be alcohol, if the Authorised Person asks the P to stop drinking.
  - b. P shall not be in possession of alcohol or a container holding alcohol, or anything which an Authorised Person reasonably believes to be alcohol or a container holding alcohol, if the Authorised Person asks the P to surrender the alcohol or container.
8. Subject to article 9, the following requirements apply:
  - a. If an Authorised Person asks P to stop drinking in the circumstances noted in article 7(a), the P shall stop drinking immediately.
  - b. If an Authorised Person asks P to surrender alcohol or a container in the circumstances noted in article 7(b), the P shall surrender the said alcohol or container to the Authorised Person immediately.
9. The provisions of articles 7 and 8 do not apply where the P consumes alcohol within premises or a place which by virtue of section 62 of the Act is exempt from a prohibition in a public spaces protection order on the consumption of alcohol.

### **Behaving in a manner that is likely to cause harassment, alarm, nuisance or distress**

10. A P shall not follow a course of conduct which causes, or which can reasonably be perceived to cause, harassment, alarm, nuisance or distress.
11. If an Authorised Person asks a P to leave the area in circumstances where the P has contravened article 10, the P shall leave immediately.

### **Loitering in a state of intoxication through consumption of alcohol or drugs**

12. A P shall not loiter in a state of intoxication through consumption of alcohol or drugs.
13. If an Authorised Person asks a P to leave the area in circumstances where the P has contravened article 12, the P shall leave immediately.

### **Loitering or performing for reward within 10 metres of a cash point**

14. A P shall not loiter or perform for reward within 10 metres of a cash point.
15. If an Authorised Person asks a P to leave the area in circumstances where the P has contravened article 14, the P shall leave immediately.
16. For the purposes of this Order, a Constable, Police Community Support Officer, and Council officer are Authorised Persons.

### **Penalty**

17. A person who without reasonable excuse fails to comply with a requirement imposed by article 8 of this Order is guilty of an offence pursuant to section 63 of the Act and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 2 on the standard scale.
18. A person who without reasonable excuse does anything which he is prohibited from doing by articles 10, 12 or 14 of this Order or fails to comply with any requirement imposed by articles 11, 13 or 15 of this Order is guilty of an offence pursuant to section 67 of the Act and is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 3 on the standard scale.
19. An authorised officer may issue a fixed penalty notice pursuant to section 68 of the Act to any person whom he believes has committed an offence under sections 63 or 67 of the Act as a result of that person doing anything prohibited by the Order or failing to comply with a requirement imposed by this Order.

### **Challenging the Order**

20. In accordance with section 66 of the Act, any interested person who wishes to challenge the validity of this Order on the grounds that the Council did not have the power to make the Order or that a requirement under the Act has not been complied with may apply to the High Court within 6 weeks from the date upon which the Order is made.

Llofnodwyd y diwrnod o 2019  
Signed the day of 2019

**GOSODWYD SÊL GYFFREDIN CYNGOR GWYNEDD )**  
**AR HWN YM MHRESENOLDEB )**  
**)**  
**THE COMMON SEAL OF GWYNEDD COUNCIL )**  
**WAS HEREUNTO FIXED IN THE PRESENCE OF )**  
**)**



**Llofnodydd awdurdodedig**  
**Authorised signatory**

**ATODLEN 1 / SCHEDULE 1**

[CYNLLUN O GANOL BANGOR]

DRAFFT

DYDDIEDIG / DATED: \_\_\_\_\_ 2019

**DEDDF YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL, TROSEDD A PHLISMONA 2014**

**GORCHYMYN DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS CYNGOR GWYNEDD  
(ALCOHOL AC YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL) (BANGOR) 2019**

---

**ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR, CRIME AND POLICING ACT 2014**

**GWYNEDD COUNCIL (ALCOHOL AND ANTI-SOCIAL BEHAVIOUR) (BANGOR)  
PUBLIC SPACES PROTECTION ORDER 2019**

**IWAN G D EVANS**

**PENNAETH GWASANAETHAU CYFREITHIOL / HEAD OF LEGAL SERVICES**

**CYNGOR GWYNEDD COUNCIL**

**STRYD Y JÊL**

**CAERNARFON**

**GWYNEDD LL55 1SH**

**CYFEIRNOD / REFERENCE: XXXXX**



**Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPO) wedi'i dorri a'i adnabod**



**Ymgysylltu / Addysgu  
Nodi torri gorchymyn PSPO perthnasol**



**Ymddygiad y Troseddwr yn Peidio**



**Ymddygiad yn gwaethygu - ystyriwch y drosedd briodol  
Er enghraifft, Meddw ac Afreolus / trosedd -Trefn Gyhoeddus**

**Ymddygiad y Troseddwr yn Parhau**



**Cofnodi Manylion  
Cerdyn Melyn / Dim gweithredu**



**Swyddog yn gadael a'r person a ddrwgdybir yn ail-droseddu**



**Adrodd ar gyfer Gwŷs**



**Defnyddio Pwerau Arestio (Cod G PACE - gofynion penodol)**


**Ymddygiad y Troseddwr yn Parhau**



**Ystyriwch ddefnyddio Hysbysiad Gwarchod y Gymuned neu Orchymyn Ymddygiad Troseddol**

Tud. 25

Tud. 26



# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen Sut i gynnal *Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i gwblhau'r ffurflen hon. Mae croeso i chi gysylltu â Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb, ar est. 32708, neu DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru, am ragor o gymorth.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) i ystyried effaith newid unrhyw bolisi neu weithdrefn (neu effaith creu un newydd) ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb gwarchoddedig. Mae gan y Cyngor hefyd ddyletswyddau cyffredinol ychwanegol a restrir yn rhan 2b. Rhaid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb mewn da bryd, felly, cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar unrhyw newid perthnasol (h.y. un sydd yn effeithio pobl a chanddynt nodwedd warchoddedig penodol).

## 1 Manylion

### 1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?

Rydym wrthi'n ystyried gweithredu gorchymyn cyfreithiol -

Gorchymyn Gwarchod Man Cyhoeddus - ar gyfer rhan o Ddinas Bangor. Bydd yn cynnwys pedwar math o ymddygiad (YGG, sef ymddygiad gwrthgymdeithasol) a waherddir gan y gorchymyn, ac y gellir eu gorfodi fel gweithredoedd troseddol mewn rhai amgylchiadau

### 1.2 Beth yw diben y polisi / gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae'r gorchymyn yn cael ei ystyried fel ffordd o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn rhai ardaloedd daearyddol o ddinas Bangor. Mae gorchymyn eisoes yn bodoli yn y ddinas, ond ni ystyrir ei fod yn ddigonol bellach i ymdrin â'r adroddiadau cynyddol am YGG - felly bydd y gorchymyn newydd yn ei ddisodli

### 1.3 Pwy sydd yn gyfrifol am yr asesiad hwn?

Catherine E Roberts, Uwch Swyddog Gweithredol, Partneriaeth Cymunedau Diogel - Gwynedd a Môn

#### **1.4 Pryd wnaethoch chi ddechrau'r asesiad? Pa fersiwn yw hon?**

18.06.2019

## **2) Gweithredu**

### **2.1 Pwy yw'r partneriaid y bydd yn rhaid i chi weithio gyda nhw wrth gynnal yr asesiad hwn?**

Heddlu Gogledd Cymru  
Y Cabinet  
Aelodau Lleol sy'n gyfrifol am y pum maes dan sylw ym Mangor

Y cyhoedd a chyrrff â diddordeb (yn dilyn penderfyniad y Cabinet)

### **2.2. Pa gamau ydych chi wedi eu cymryd i ymgysylltu â phobl gyda nodweddion gwarchoddedig?**

Yn dilyn penderfyniad y Cabinet, bydd ymgynghoriad cyhoeddus, a bydd hwnnw'n cynnwys ymgynghoriad penodol gyda chyrrff â diddordeb

### **2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

- Mae trafodaethau gyda'n sefydliad Partner, Heddlu Gogledd Cymru, wedi golygu ein bod yn diddymu unrhyw rannau o'r gorchymyn a fyddai'n targedu 'pobl sy'n cysgu allan'.
- Ymgynghoriad cyhoeddus - heb ei wneud eto

#### **2.4 Pa wybodaeth arall sydd wedi hysbysu eich ffordd o weithredu?**

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cyflwyno llawer iawn o dystiolaeth ddogfennol, sy'n dangos cynnydd mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Ninas Bangor a newid yn y mathau o ymddygiad.

Maent hefyd wedi dangos nad yw'r grymoedd gorfodi presennol yn addas i ymdrin â'r materion hyn, sef y rheswm dros fod angen gorchymyn newydd.

Er enghraifft, mae cynnydd yn nifer y cwynion gan y cyhoedd am 'niwsans' mewn mannau cyhoeddus, cardota mewn llefydd penodol megis ger twll yn y wal, ac YGG yn ymwneud â chamddefnyddio cyffuriau.

#### **2.5 A oes unrhyw fylchau mewn tystiolaeth sydd angen eu casglu?**

Nac oes

### 3) Adnabod yr Effaith

**3.1 Rhaid i'r Cyngor roi sylw teg i effaith unrhyw newidiadau ar bobl gyda nodweddion cydraddoldeb. Pa effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau arfaethedig yn ei gael ar y nodweddion hyn? Mae croeso i chi ychwanegu nodweddion eraill os dymunwch.**

Nodweddion	Pa fath o effaith?*	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Hil (gan gynnwys cenedl)</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throsedd hiliol/casineb, a gwaharddiad cyntaf y gorchymyn yn arbennig.
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	Dim
<b>Anabledd</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	<p>Disgwylir mai nifer fach o bobl a fydd yn cyrraedd y trothwy a fydd yn arwain at arestio. I'r sawl a gaiff ei arestio, mae gan yr Heddlu weithdrefnau i gynnig ymyraethau llesiant yn y ddalfa a thu hwnt. Mae hyn yn cynnwys agweddau iechyd meddwl o anghenion unigolyn -</p> <p>"Mae unrhyw berson sy'n mynd i'r ddalfa yn destun asesiad risg llawn yn ymwneud â iechyd corfforol a iechyd meddwl, a cheir mynediad i nyrs y ddalfa. Os nad yw'r person yn ddigon da i gael ei gadw yn y ddalfa, gwneir trefniadau i'w ryddhau a'u cyfeirio'n briodol. Os byddai pryderon dybryd am IM (iechyd meddwl), byddai trefniadau'n cael eu gwneud i dîm meddygol ymweld â'r ddalfa i gwblhau asesiad a, phe bai angen, roi triniaeth briodol wedi hynny. Pe na bai asesiad yn y ddalfa'n ddichonol, byddai'r person yn cael ei gludo i uned IM i gynnal un.</p>

		Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throstedd anabledd/casineb, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn.
<b>Rhywedd</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	Mae'n debygol o effeithio mwy o wrywod, gan fod tystiolaeth yn dangos mai gwrywod sy'n cyflawni troseddau o'r fath yn amlach.  Felly, bydd y gorchymyn yn amddiffyn pob rhywedd
<b>Oedran</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	Oedolion iau sy'n fwy tebygol o ymddwyn yn wrthgymdeithasol, ond nid nhw yn unig
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throstedd cyfeiriadedd rhywedd/casineb, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn.
<b>Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throstedd crefydd neu gred/casineb, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn.
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	Mae modd defnyddio'r gorchymyn hwn, oherwydd y gwaharddiadau penodol ynddo, i ymdrin â throstedd ailbennu rhywedd/casineb, yn enwedig gwaharddiad cyntaf y gorchymyn.
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	Dim
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Cadarnhaol / Negyddol / Dim	Dim

\* dileer fel y bo'n briodol

**3.2 Mae'n ddyletswydd ar y Cyngor, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, i gyfrannu yn gadarnhaol at gymuned decach drwy hyrwyddo cydraddoldeb a pherthnasau da yn ei weithgareddau ym meysydd oedran, rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, crefydd, hil, trawsrywedd, anabled, a beichiogrwydd a mamolaeth. Rhaid i'r Cyngor roi sylw teg i'r ffordd y bydd unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau hyn.**

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A ydy'r polisi yn cael effaith?*</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Gwaredu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Ydy / Nac ydy	Ydy, am fod y gorchymyn yn targedu ymddygiad sy'n aflonyddu yn benodol - gall hyn gynnwys trosedd casineb o bob math (yr holl nodweddion uchod)
<b>Hyrwyddo cyfle cyfartal</b>	Ydy / Nac ydy	Nac ydy
<b>Hyrwyddo perthnasau da</b>	Ydy / Nac ydy	<p>Ydy, gan fod gorfodaeth yn dechrau gydag ymgysylltu ac addysg. Os yw hyn yn effeithiol, mae'n atal yr ymddygiad rhag gwaethygu ac ymateb cyfreithiol. Mae, felly, yn ceisio gwella dealltwriaeth person o'r effaith y mae ei ymddygiad yn ei gael ar aelodau eraill y cyhoedd ac ati.</p> <p>Un o'r bwriadau yw gwneud Dinas Bangor yn ofod cyhoeddus mwy diogel a braf i bob aelod o'r gymuned.</p>

\* \*dileer fel y bo'n briodol



#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 A yw'r polisi, felly, yn debygol o gael effaith sylweddol gadarnhaol ar unrhyw rai o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Dyletswyddau Cyffredinol, a beth yw'r rheswm am hyn?

Gobeithio y bydd yn cael effaith gadarnhaol ar brofiad y cyhoedd o weithio/byw/ymweld â chanol Dinas Bangor, y bydd pobl yn gweld llai o YGG, ac y byddent yn teimlo'n fwy diogel pan fyddant allan yn eu cymuned

##### 4.2 A yw'r Cynllun, felly, yn debygol o gael effaith sylweddol gadarnhaol ar unrhyw rai o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Dyletswyddau Cyffredinol, a beth yw'r rheswm am hyn?

Nid oes unrhyw beth wedi'i adnabod

##### 4.3 Beth ddylid ei wneud?

Dewiswch un o'r canlynol:

Dal ati gyda'r cynllun am ei fod yn gadarn	le
Addasu'r cynllun i gael gwared ag unrhyw rwystrau	

Gohirio a diddymu'r cynllun gan fod yr effeithiau andwyol yn rhy fawr	
Dal ati gyda'r cynllun am fod modd cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

**4.4 Os parhaer gyda'r cynllun, pa gamau a fyddwch yn eu cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Amherthnasol

**4.5 Os nad ydych yn cymryd unrhyw gamau pellach i ddiddymu neu leihau effeithiau negyddol, eglurwch pam yn y blwch isod.**

Amherthnasol

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau a fyddwch yn eu cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y cynllun (cynllun gweithredu)?**

Adolygir yr asesiad ar ôl yr ymgynghoriad cyhoeddus.



# Eitem 7

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>16 Gorffennaf 2019</b>
<b>Aelod Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Cemlyn Rees Williams</b>
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	<b>Bethan Griffith</b>
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	<b>01286 679 195</b>
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Pris Cinio Ysgolion Cynradd Medi 2019</b>

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Peidio â chodi targed incwm cinio ysgolion cynradd yn unol â chwyddiant sydd yn golygu na fydd pris cinio ysgolion cynradd yn codi yn Medi 2019.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Os na fydd yr adran yn cynyddu'r pris yn unol a chwyddiant yn 2019-20 bydd yn creu diffyg yn y gyllideb o £82,220.

#### 3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

Gan fod cyllideb arlwyo cynradd yn dibynnu ar godi incwm drwy werthiant prydau ysgolion cynradd, mae angen i'r incwm a ddaw o dalu am ginio mewn ysgolion cynradd gadw fyny efo chwyddiant costau'r gwasanaeth.

Mae targed incwm cinio ysgolion cynradd wedi cynyddu 4.1% yn 2019-20 oherwydd cynydd mewn costau – cost cyflog byw (“living wage”) yw'r prif reswm dros y cynydd.

#### 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Pan yn cymharu pris cinio ysgolion cynradd Gwynedd sef £2.50 gyda 15 Cyngor arall yn Nghymru (atodiad 1), mae yn un o'r rhai uchaf – 3 Sir arall sydd yn codi £2.50, mae'r gweddill yn rhatach.

46% ar gyfartaledd o ddisgyblion cynradd Gwynedd sydd yn bwyta cinio ysgol ar hyn o bryd. Cyfartaledd 2016-17 oedd 50% (pris cinio £2.30) a cyfartaledd 2017-18 oedd 46% (pris cinio £2.50). Mae'n amlwg o'r wybodaeth uchod fod nifer o rieni wedi penderfynu peidio dewis cinio ysgol i'w plant yn dilyn codi'r pris yn Medi 2017. Mi

fyddai codi'r pris yn uwch o bosibl yn lleihau y niferoedd sydd yn dewis cinio ysgol ymhellach gan na fyddai yn fforddiadwy i deuluoedd sydd ar incwm isel ond ddim yn gymwys i ginio am ddim.

Byddai codi'r pris cinio yn golygu codiad o £2.50 i £2.60.

**5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Bydd y pris cinio yn weithredol o Medi 2019.

**6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:** Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglyn â phriodoldeb.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:** Mae rhan 4 o'r adroddiad yn amlygu'r risg o leihad pellach yn y galw pe bawn yn cynyddu'r pris cinio mewn ysgolion cynradd, ac mae rhesymeg amlwg o blaid y penderfyniad a geisir. Ynglŷn ag ariannu'r bwloch perthnasol yng nghyllideb yr Adran Addysg, cadarnhaf wrth lunio cyllideb y Cyngor ar gyfer 2019/20, neilltuwyd darpariaeth i'r perwyl hyn mewn cyllideb wrth gefn.

PRISIAU CINIO YSGOL

Ebrill 2019 - Prisiau cyfredol a cynnigion							
CYNGOR	Disgybl	Disgybl lau	Meithrin	Oedolyn (cynnwys TAW)	Pris Cinio am ddim Uwchradd	Dyddiad Nesaf Codi Pris	Gwerth y Cynydd
Ynys Mon	£2.40	£2.40	£2.40	£4.26	£2.40	Medi-19	
Blaenau Gwent							
Pen y Bont ar Ogwr	£2.20	£2.20	£2.20	£3.48	£2.50	Dim yn wybodus	Dim cynydd yn Medi 2019
Caerffili	£2.10	£2.10	£2.50	£3.30	£2.35	Ebr-20	Cynnig codi pob pris 10c yn Ebrill 2020
Caerdydd	£2.50	£2.50		£3.60	£2.95	DYB	Dim cynydd wedi ei gynnig
Caerfyrddin	£2.50	£2.50	DYB	£3.92	£2.50	Efallai Ebrill 2020	Cynydd mewn pris cinio oedolyn yn unig Ebrill 2019
Ceredigion	£2.50	£2.50	DYB	£4.35	£2.50	DYB	Dim ar gyfer flwyddyn yma
Conwy							
Dinbych	£2.20	£2.20	£2.20	£3.60	£2.35	DYB	Dim wedi ei glustondi ar hyn o bryd
Wrecsam	£2.40	£2.40	£2.40	£3.20	£2.45	Ebr-20	
Gwynedd	£2.50	£2.50	£2.50	£3.60	Gosod gan pob ysgol	Medi-19	Dim yn gwybod ar hyn o bryd
Merthyr	£2.30	£2.30	£2.30	£3.55	£2.70	April 2019	Prisiau yma wedi codi 29/04
Sir Fynwy							
Castell Nedd Port-Talbot	£2.30	£2.30	£2.30	£3.25	Ysgol yn penderfynu	Medi-19	5p y pryd
Newport	£2.15	£2.15	DYB	£3.30	£2.40	Medi-19	Dim cynnig ar hyn o bryd, fel arfer yn Medi
Penfro	£2.45	£2.35	DYB	£3.48	£2.50	Medi-19	Cynnig cynydd o 10c, ond dal o dan ystyriaeth
Powys	£2.45	£2.45	£2.45	£4.50	£2.55	O 1af Ebrill 2019	Cynnig gan y Cabinet i godi £0.15c o 1 Ebrill 2019
Rhondda Cynnon Taf							
Abertawe							
Torfaen	£2.40	£2.30		£4.00	£2.60		
Bro Morgannwg	£2.30	£2.30		£3.10	£2.50	April-20	Cynnig cynydd o 5c yn Ebrill 2020
Fflint							

# Eitem 8

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	16 Gorffennaf 2019
<b>Aelod Cabinet:</b>	Cynghorydd Gareth Thomas Aelod Cabinet Economi a Chymuned
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Sioned Williams Pennaeth Economi a Chymuned
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	Est. 32547 01286 679547
<b>Teitl yr Eitem:</b>	<b>Cronfa Arloesi Arfor</b>

#### 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- Fod Cyngor Gwynedd yn gweithredu fel y corff arweiniol i Raglen Arfor gan dargedu adnoddau Cronfa Arloesi Arfor Llywodraeth Cymru ar ran Cyngorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr ;
- Fod y Cabinet yn cefnogi pecyn o brosiectau Rhaglen Arfor Gwynedd ac yn dirprwyo'r penderfyniad i gymeradwyo ceisiadau ar gyfer y gwariant yng Ngwynedd i Bennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd.
- Fod y Cabinet yn awdurdodi y Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gytuno a chwblhau cytundeb rhwng awdurdod briodol.

#### 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae gweithredu fel Corff Arweiniol Rhaglen Arfor yn golygu bydd Cyngor Gwynedd yn atebol am berfformiad a gwariant y Rhaglen dros y pedair sir yn unol â thelerau ac amodau llythyr cynnig Llywodraeth Cymru ar gyfer Cronfa Arloesi Arfor. Mae Cyngor Gwynedd angen bod yn ymwybodol o'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r camau sydd wedi eu cymryd i reoli'r risg.

Mae £466,250 ar gael i'w fuddsoddi yng Ngwynedd dros gyfnod o dwy flynedd ar weithgareddau fyddai yn arwain at greu swyddi newydd fydd, yn ei dro, yn cynnal yr iaith yn ein cymunedau. Mae Grŵp Llywio Arfor Gwynedd wedi ei sefydlu i adnabod pecyn o brosiectau arloesol i'w

treialu dros y cyfnod sydd yn cydfynd â meini prawf y rhaglen. Mae trefniadau eisoes mewn lle i fesur effaith y gwahanol fathau o ymeraethau ar yr economi ac ar yr iaith. Gofynir am gefnogaeth y Cabinet i argymhellion y Grŵp Llywio ar gyfer y gwariant ac am yr hawl i gymeradwyo ceisiadau.

### **3. CYFLWYNIAD**

Yn dilyn cytundeb cyllidebol rhwng Llywodraeth Cymru a Plaid Cymru, yn Chwefror 2019 [cadarnhaodd Gweinidog yr Economi, Ken Skates AC](#), fod £2 filiwn o gyllideb ar gael i Gynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i dreialu dulliau arloesol o gefnogi'r economi yng nghadarnleoedd y Gymraeg Mae'r arian ar gael hyd at ddiwedd 2020/21.

Mae Arweinyddion y pedwar Awdurdod Lleol wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn trafod blaenoriaethau ar gyfer y Rhaglen. Mae Bwrdd Rhaglen Arfor wedi cael ei sefydlu sydd yn cynnwys Arweinydd y pedair sir gyda sylwebyddion o Lywodraeth Cymru yn bresennol. Mewn cyfarfod o'r Bwrdd Rhaglen, gofynnwyd i Gyngor Gwynedd weithredu fel corff arweiniol ar gyfer y pedair sir gan gydlynu'r berthynas gyda Llywodraeth Cymru.

Cytunwyd fod yn flaenoriaeth gan bob sir i gyfeirio mwyafrif y gyllideb i weithredu cynlluniau yn lleol, gan rannu'r gwersi a ddysgir er mwyn hysbysu cynlluniau pellach i'r dyfodol. Cytunwyd i warchod peth o'r gyllideb ar gyfer llunio cynllun i ddatblygu'r economi a chreu swyddi yn ardal Arfor i'r dyfodol ac i gynnal rhai gweithgareddau peilot ar y cyd.

### **4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Cyngor Gwynedd yn gorff arweiniol i'r Rhaglen Arfor

Er mwyn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â rôl corff arweiniol, bydd y rhaglen yn cael ei rheoli o fewn y Gwasanaeth Rhaglenni Datblygu Economaidd sydd gyda phrofiad helaeth o ddatblygu a rheoli rhaglenni grant cyffelyb. Mae swyddog penodol wedi ei adnabod i reoli'r Rhaglen a bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn £27,500 mewn cydnabyddiaeth am y rôl arweiniol yn cydlynu'r gwaith.

Bydd y gwaith yn cynnwys cydlynu cyfarfodydd; comisiynu a rheoli gweithgaredd ar y cyd i'r siroedd; casglu gwybodaeth am wariant a gweithgaredd siroedd unigol; cyflwyno hawliadau i Lywodraeth Cymru ac yna cyfeirio arian ymlaen i'r siroedd.

Bydd y rôl hefyd yn arwain ar y gweithgaredd traws sirol sydd yn cynnwys y comisiwn i werthuso'r gweithgareddau a llunio strategaeth newydd i ranbarth y gorllewin i'r dyfodol. Yn ogystal bydd yn arwain ar Gynllun



Bwrlwm Busnes, sydd yn cynnwys pecyn croeso i'r Gymraeg i ddyrchafu gwerth a balchder yn y Gymraeg ar draws y rhanbarth gan godi ymwybyddiaeth busnesau i'r cyfleoedd busnes a phwysigrwydd yr iaith i'n cymunedau.

Er mwyn lleihau'r risgiau i Gyngor Gwynedd, mae'r Gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r Trysorydd, wedi llunio cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd â'r siroedd eraill sydd yn ymrwmo Cyngorau Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr i weithredu yn unol â thelerau ac amodau cynnig ariannol Llywodraeth Cymru ac i ddarparu gwybodaeth yn unol â'r angen i alluogi Gwynedd i gyflawni ei rôl.

#### Gweithgaredd arfaethedig y Rhaglen Arfor yng Ngwynedd

Mae £466,250 , gan gynnwys gorbenion, ar gael i weithredu cynlluniau o fewn pob sir unigol.

Yng Ngwynedd sefydlwyd Grŵp Llywio i arwain ar ddatblygu syniadau Arfor yn y sir, yn cynnwys yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned a'r Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol (sydd gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg), ynghyd â swyddogion a phartneriaid perthnasol sydd yn arwain ar gynllunio ieithyddol a materion economaidd a chefnogi busnes yng Ngwynedd. Mae'r Grŵp yn argymhell fod y pecyn cynlluniau canlynol yn cael eu gweithredu yng Ngwynedd, gyda'r nod o dargedu adnoddau o gronfeydd allanol er mwyn ychwanegu at adnoddau Arfor i ymestyn yr effaith:

Prosiect	Cyllideb Arfor	Manylion
<b>Cymorth i Fentro</b>	£251,250	<p>Darpariaeth o gymorth ymarferol ac ariannol i roi hyder i fusnesau dyfu a chreu swyddi newydd o fewn cymunedau.</p> <p>Darperir cymorth wedi ei deilwra i anghenion y busnes unigol all gynnwys e.e. cymorth tymor byr gyda rhent i symud i adeilad mwy, help i brynu offer ychwanegol i gynhyrchu mwy, mentora i roi'r hyder i fusnes dyfu neu hyfforddiant i ddatblygu sgiliau newydd.</p> <p>Mae Cymorth i Fentro am annog busnesau i adnabod eu huchelgais a'r camau sydd angen eu cyflawni a'u cefnogi i'w wireddu. Bydd y Gronfa gyda ffocws ar gefnogi busnesau creu cynnyrch (gweithgynhyrchu bach, bwyd a diod, ynni, meddalwedd,</p>

		<p>ayyb) gan fod hyn yn ddiffyg o fewn yr economi wledig.</p> <p>Rydym am fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda rhanddeiliaid allweddol megis Busnes Cymru i wireddu'r cynllun er mwyn sicrhau fod Cymorth i Fentro yn ychwanegu gwerth i'r hyn sydd eisoes ar gael.</p> <p>Bydd y cynllun yn ymateb i angen am fwy a gwell swyddi yng nghadarnleoedd y Gymraeg a thrwy hynny bydd yn cadw trigolion lleol sy'n siarad Cymraeg o fewn eu cymunedau lleol a denu eraill i ddychwelyd. Bydd y cynllun hefyd yn cyfrannu at fywiocau ein trefi a'n pentrefi a'u hadfer fel lleoliadau i fyw a gweithio ynddynt.</p>
<b>Gofod Gwneud a Gweithio</b>	£75,000	<p>Cynllun i gynnal 3 neu 4 gofod gwneud / gweithio (maker / co-location spaces) dros-dro yn nhrefi o fewn cadarnleoedd y Gymraeg yng Ngwynedd. Bwriedir sefydlu'r gofod o fewn siopau segur ar y stryd fawr ac gofod diwydiannol gwag er mwyn targedu'r ystod o fusnesau lleol.</p> <p>Bydd y gofod yn cynnwys gweithdy gwneud gydag ystod o ddyfeisiadau a pheiriannau newydd / cyfoes (e.e. peiriannau CNC, argraffwyr 3D, ayyb) a gofod gwaith gyda nifer o ddesgiau / meinciau gwaith.</p> <p>Bydd y lleoliadau yn weithredol oddeutu chwe mis (gyda chyfnod o sefydlu a chau i lawr yn ychwanegol). Yn ystod y cyfnod bydd y lleoliad yn darparu hyfforddiant / sesiynau blasu i fusnesau lleol ar ddefnydd peiriannau cyfoes; yn hwb ar gyfer gweithgaredd cefnogi busnes yn lleol; yn ofod rhwydweithio ar gyfer busnesau lleol</p>

		<p>ac yn cynnig desgiau / meinciau gwaith i'w rhentu.</p> <p>Mae'r cynllun yn anelu i gyfrannau at ddatrys sawl her gan gynnwys yr angen i gynhyrchu mwy i greu cyfoeth newydd; diffyg mabwysiadau technoleg / technegau cyfoes ymhlith busnesau a'r diffyg cydweithio a masnachu ymhlith busnesau lleol.</p> <p>Mae'r cynllun hefyd am gyfrannu at fywiocau trefi ac yn gyfle i ennyn diddordeb mewn technoleg yn ehangach o fewn y gymuned leol.</p> <p>Drwy sbarduno gweithgaredd economaidd a bywiogrwydd trefi lleol bydd yn cyfrannu i gynaliadwyedd economaidd a cymdeithasol cymunedau, a thrwy hynny yn cefnogi'r Gymraeg.</p>
<b>Her Cymunedau Mentrus</b>	£80,000	<p>Cynllun i gefnogi cynlluniau peilot wedi eu harwain gan y gymuned leol i annog a chefnogi datblygu'r economi sylfaenol (<a href="#">foundational economy</a>) gan hwyluso cynnydd yng nghadwyni cyflenwi lleol, cyflogaeth leol a chynyddu faint o'r arian sydd yn dod i mewn i gymuned sy'n cael ei gadw yno.</p> <p>Gweithredir y cynllun ar ffurf 'her' gan ddewis cynlluniau gan (hyd at) tair cymuned. Cynhelir galwad agored i gymunedau gyflwyno eu cynigion ar sail briff clir (bydd derbyn tystiolaeth o ymrwymiad eang o fewn y gymuned i'r cais yn allweddol).</p> <p>Mae'r prosiect yn ymateb i'r her o gynnal y ddarpariaeth o wasanaethau a nwyddau sylfaenol yng nghymunedau yng nghadarnleoedd y Gymraeg sydd o ganlyniad yn gweld newid yng nghyfansoddiad cymdeithas (llai o bobl /</p>

		teuluoedd ifanc, mwy o bobl hyn, cymudo i waith, ayyb).
<b>Llwyddo'n Lleol</b>	£100,000 £50k Gwynedd a £50k Ynys Môn)	<p>Cynllun i ddarbwylo pobl ifanc sydd mewn peryg o adael / wedi gadael yr ardal - a'r rhain sy'n dylanwadu arnynt (teulu, ysgol a chymdeithas yn ehangach) - fod modd iddynt gael dyfodol disglair gyda swydd dda o fewn maes cyffrous yma yng Ngwynedd.</p> <p>Bydd y nod yn cael ei gyflawni drwy gomisiwn i gynnal ymgyrch farchnata aml-gyfrwng ac arloesol gan ddefnyddio pobl ifanc i ddarbwylo eu cyfoedion.</p> <p>Gwneir hyn drwy roi'r cyfle i bobl ifanc weithio ym musnesau lleol o fewn meysydd cyfoes megis y cyfryngau, digidol ac ynni neu fusnesau o fewn meysydd traddodiadol (megis twristiaeth neu fwyd a diod) sy'n torri tir newydd a chyfweld a chysgodi unigolion amlwg a llwyddiannus o fewn y diwydiannau. Bydd ffrwyth llafur y bobl ifanc yn fodd o gynhyrchu cynnwys (fideos, blogs, lluniau, erthyglau papurau bro, ayyb) i'w ddsbarthu fel rhan o'r ymgyrch farchnata.</p> <p>Mae Llwyddo'n Lleol am fod yn gynllun ar y cyd yng Ngwynedd ac Ynys Môn gan gydnabod natur integredig yr economi / llafurlu a chymunedau naill ochr y Feni.</p> <p>Mae'r cynllun yn ymateb i'r her o allfudo pobl ifanc o gadarnleoedd y Gymraeg sy'n tanseilio hygredd cymunedau, erydu hyfywdra gwasanaethau ac yn lleihau bywiogrwydd cadarnleoedd y Gymraeg.</p>

CYFANSWM:	<u>£506,250</u>	£456,250 o gyllideb Arfor Gwynedd £50,000 o gyllideb Arfor Ynys Môn <i>Mae £10,000 wedi ei ddarparu o gyllideb Arfor Gwynedd i gwrdd â chostau'r Cyngor yn gysylltiedig â gweithredu'r prosiectau uchod</i>
-----------	-----------------	---

### Cyllideb y Rhaglen Arfor

Cyfanswm cyllideb y rhaglen Arfor gan Lywodraeth Cymru yw £2,000,000. Mae Llywodraeth Cymru yn cyllido'r rhaglen 100%.

Mae rhaniad y gyllideb fel â chanlyn:

Gweithgaredd	Cost
Gweinyddiaeth canolog	£27,500
Cyhoeddusrwydd / hyrwyddo canolog	£7,500
Comisiynu cynllun strategol / gwerthusiad	£60,000
Cynllun Bwrlwm Busnes (ar y cyd ar draws y pedair sir)	£40,000
Cynlluniau lleol siroedd (£466,250 x 4)	£1,865,000
<b>CYFANSWM</b>	<b><u>£2,000,000</u></b>

## **5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Mae llythyr cynnig Llywodraeth Cymru wedi ei dderbyn a chytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a siroedd Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr yn cael ei lunio.

Mae strwythurau rheoli'r rhaglen gyfan a'r rhaglen leol yng Ngwynedd wedi eu sefydlu.

Mae'n fwriad i gychwyn gweithgareddau yng Ngwynedd yng Ngorffennaf 2019.

Bydd y rhaglen yn dod i ben yn Mawrth 2021.

## **6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Prif Swyddog Cyllid

Gyda chytundeb y Cabinet i Gyngor Gwynedd weithredu fel y corff arweiniol, byddaf yn cydweithio gyda'r Pennaeth Economi a Chymuned a'r swyddogion perthnasol eraill i hawlio'r grant Arfor a chyfrifo am y gwariant ar ran y 4 Cyngor. Mater i'r Cabinet ystyried yw blaenoriaethu prosiectau yn rhaglen Arfor Gwynedd.

#### Swyddog Monitro

Fod y Cabinet yn awdurdodi y Pennaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i gytuno a chwblhau cytundeb rhwng awdurdod briodol.

## CABINET CYNGOR GWYNEDD



### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	23 Gorffennaf 2019
Aelod Cabinet:	Y Cyngorydd Craig ab Iago
Swyddog Cyswllt:	Arwel Wyn Owen
Teitl yr Eitem:	Strategaeth Tai 2020/21

#### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Cymeradwyo'r Strategaeth Dai i'w hargymell i'r Cyngor Llawn i'w mabwysiadu .

#### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae angen i'r Cabinet argymell Strategaeth Dai 2019-2024 (Atodiad 1) er mwyn i'r cyngor llawn ei chymeradwyo ar y 18fed o Orffennaf 2019 gan amlinellu'r cyfeiriad yr ydym am ei ddilyn dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r Cabinet a gynhaliwyd ar y 18fed o Fehefin 2019 wedi cymeradwyo £1.25m ar gyfer 3 cynllun i'w gwireddu yn ystod 2019-20.

Unwaith y bydd y Cyngor wedi mabwysiadu'r Strategaeth bydd y Cabinet yn cynnal asesiad budd- cost ar yr holl gynlluniau a nodir yn y Strategaeth a bydd rhaglen wariant dreigl yn cael ei sefydlu yn sgil hynny.

#### 3 CYFLWYNIAD

Mae'r Strategaeth yn amlinellu 26 o gynlluniau unigol i'w hystyried ynghyd a rhoi syniad o'r adnodd sy'n debygol o fod ar gael. Mae nifer o'r cynlluniau yn creu potensial i ddenu arian ychwanegol o ffynonellau allanol er mwyn uchafu cyrhaeddiad. Wrth ymrwymo buddsoddiad byddwn yn gallu ymestyn cynlluniau presennol, uchafu cyfleon i ddenu nawdd allanol ac yn hwyluso ymdrechion i feithrin partneriaethau.

Y mesur sylfaenol fodd bynnag yw pa gynlluniau sydd am gyflwyno'r budd mwyaf i drigolion Gwynedd o ystyried y gost o'u cyflawni.

Er gwaethaf y ffaith bod gennym premiwm Tai haf i ariannu rhaglen ehangach lle na fyddai modd gwneud fel arall, mae'n bwysig fod yr adnodd hwnnw yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd sy'n cael yr ardrowiad mwyaf, ac felly bydd angen asesu'n fanwl yr holl gynlluniau a nodir yn y strategaeth er mwyn blaenoriaethu'n ddoeth.

## **Effaith Cydraddoldeb**

Mae gofyn i ni gynnal asesiad effaith cydraddoldeb o'r hyn yr argymhellir yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010.

Mae'r Adran wedi cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb sydd wedi atodi i'r adroddiad. Nid yw'r asesiad yn adnabod unrhyw ardrawiad negyddol ynghlwm gyda mabwysiadu y Strategaeth.

## **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Fel rhan o'r ddyletswydd mae'r Cyngor wedi cyhoeddi amcanion llesiant sy'n amlinellu sut y bydd yn gwella llesiant yn "Cynllun Gwynedd 2018-2023".

Mae egwyddorion y Deddf Llesiant wedi bod yn ystyriaeth bwysig wrth baratoi y Strategaeth Tai ac mae'r Strategaeth yn cydblethu a 7 nod llesiant y Ddeddf, ac amcanion llesiant y Cyngor. Mae'r Ddeddf wedi bod yn ystyriaeth ganolog wrth baratoi y Strategaeth ac mae egwyddorion gweithreu yn Rhan 5 y Strategaeth yn adlewyrchu'r 7 nod llesiant.

Bydd y cynlluniau gweithredu yn cael ei mesur yn rhannol ar sail yr egwyddorion yma ac fe fydd y Cyngor yn disgwyl i'w holl bartneriaid fabwysiadu'r dulliau gweithio ar draws y raglenni gwaith. Bydd yr egwyddorion gweithredu uchod yn caniatáu i ni ymateb a diwallu anghenion tai Gwynedd, heb danseilio llesiant pobl i'r dyfodol. Mae'r cynlluniau arfaethedig wedi ei llunio gyda'r bwriad o weithio mewn ffordd arloesol ac ataliol er mwyn ceisio lleihau ac osgoi problemau rhag esblygu at y dyfodol.

## **Ymgynghori**

Rydym wedi ystyried mewnbyn nifer o'n partneriaid wrth ddatblygu'r cyfeiriad y Strategaeth ac mae'r cynnwys wedi addasu i ymateb i sylwadau a syniadau ddaeth i law. Bydd y cynlluniau arfaethedig yn caniatáu i ni hyrwyddo cydweithio pellach gan ganiatau i ni adnabod ffyrdd newydd o weithio gyda'n partneriaid er mwyn uchaf budd a chyrhaeddiad i bobl Gwynedd. Rhagwelwn y gall rhai o gynlluniau ein helpu i feithrin partneriaethau newydd a chryfhau trefniadau presennol drwy hyrwyddo cyd-gynllunio a darparu er mwyn ymatebion i anghenion lles pobl Gwynedd.

Yn ogystal ac ymgynghori gyda rhanddeiliad fe osodwyd y Strategaeth Drafft ar safle we y Cyngor am gyfnod o fis.

## **4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Pwrpas y cais yw sicrhau bod cymeradwyaeth i'r cyfeiriad a'r uchelgais er mwyn caniatáu i'r Cyngor wireddu rhaglen uchelgeisiol ac arloesol fydd yn dod a budd i bobl Gwynedd.



Mae'r Cabinet eisoes wedi cymeradwyo 3 cynllun ar y 18fed o Fehefin ac mae'n fwriad ychwanegu at y rhestr o gynlluniau i'w cyflawni yn ystod 2019-20.

Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn treth ychwanegol drwy'r premiwm ar ail gartrefi a chartrefi hir dymor gwag ac wedi ymrwymo y byddai cyfran o'r arian a gasglwyd yn cael ei ail-fuddsoddi er mwyn gwneud gwahaniaeth yn y maes tai. Mae'r Strategaeth yn cadarnhau sut bydd cyfran o'r arian yn cael ei ymrwymo a'r modd y bydd yn cael ei flaenoriaethu.

Cyflwynwyd copi o'r Strategaeth Drafft ger bron y Pwyllgor Craffu – Gofal ar y 28ain o Fawrth 2019 yn dilyn trafodaeth anffurfiol gyda'r Pwyllgor Craffu ar y 31ain o Ionawr 2019. Mae'r cynnwys wedi addasu i gyfarch sylwadau ddaeth i law a chafodd y cynnwys gefnogaeth y Pwyllgor.

## **6 CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

Ar ôl derbyn cadarnhad bydd modd gweithredu ar y rhaglen waith.

## **7 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

Sylwadau'r Swyddogion Statudol

Prif Swyddog Cyllid :

Mae Strategaeth Tai Gwynedd yn gosod uchelgais hirdymor ac yn amlinellu amrediad eang o flaenoriaethau posib. Ni fydd cymeradwyo'r adroddiad Cabinet gerbron yma'n golygu ymrwymiad ariannol pellach na'r hyn sydd wedi ei gymeradwyo eisoes gan y Cabinet ar y 18fed o Fehefin, sef yr £1.25m y cyfeirir ato yn adran 6 o'r Strategaeth, sy'n nodi sut bwriedir llunio cynllun gweithredu tymor canolig. Nodaf fod yr atodiadau i'r Strategaeth yn gosod allan cynlluniau tai gellid blaenoriaethu gan y Cabinet i'w gwireddu, ynghyd â chronfeydd posibl allasai fod ar gael, a crhedaf fod y ffigyrau ariannol yno'n amcangyfrifon teg.

Swyddog Monitro :

Mae'r adroddiad a'r atodiadau yn rhoi sail briodol i'r Cabinet ddod i gasgliad ar argymell y Strategaeth. Nodi'r yn gywir fod y Strategaeth Dai yn rhan o Fframwaith Bolisi'r Cyngor ac o ganlyniad fod y penderfyniad i'w fabwysiadu yn gorwedd gyda'r Cyngor Llawn ond ar argymhelliad y Cabinet.

Aelod/au Lleol :

Dim yn berthnasol.

Ymgynghori:


Mae copi o'r Strategaeth wedi ei trafod gyda phartneriaid allweddol er mwyn gallu cyd-drefnu a sicrhau bod modd cyflawni o fewn yr amserlenni a

gosodwyd copi drafft ar safle We y cyngor




# Cartrefi i Bobl Gwynedd

## Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2019-24



1. Cyflwyniad.....	3
2. Yr Her.....	6
3. Ein Huchelgais.....	9
4. Sut Fydden i yn Gallu Newid y Sefyllfa.....	10
4.1 Sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu cael cartref addas.....	10
4.2 Sicrhau na fydd neb yn ddigartref yng Ngwynedd.....	13
4.3 Ymdrin ag anghenion iechyd a llesiant pobl Gwynedd.....	14
4.4 Sicrhau bod cartrefi Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd.....	15
4.5 Cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel leol.....	16
5. Ein Dull.....	18
6. Ariannu'r Strategaeth.....	19
Atodiad A - Llwyddiannau'r 5 Mlynedd Diwethaf.....	20
Atodiad B – Rhestr Datrysiaidau ac Ymrwymidaidau Tai.....	21
Atodiad C – Amlinelliad o Gronfeydd Ariannol Tebygol a fydd yn Cefnogi'r Strategaeth.....	33



# 1. CYFLWYNIAD

## Gweledigaeth Cyngor Gwynedd yw:



“Cefnogi holl bobl Gwynedd i ffynnu ac i fyw bywyd cyflawn yn eu cymunedau, mewn sir sy'n un o siroedd gorau i fyw ynddi.”

Mae'r weledigaeth uchod yn cael ei nodi yng Nghynllun Strategol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2019-24. Mae gan y maes Tai rôl allweddol i helpu'r Cyngor i gyflawni'r weledigaeth hon. Gwyddom fod cael cartref sy'n addas ac o safon yn arwain at well iechyd, cymunedau mwy gwydn a phoblogaeth sydd yn gallu cyfrannu yn llawn i gymdeithas. Mae'n bwysig felly ein bod yn datblygu cynlluniau tai amrywiol, arloesol, a gwyrdd, sydd yn hyrwyddo atebion gydol oes yn ogystal â chynnig cefnogaeth gynnar i'r rhai sydd ei angen. Fel Cyngor, byddwn yn annog amrywiaeth o opsiynau cefnogaeth a llety er mwyn ymateb i anghenion y boblogaeth heddiw, ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Rhan ganolog o Gynllun y Cyngor yw uchelgais i sicrhau bod ffyniant yn y maes tai yn cael ei gynllunio yn iawn, yn cael ei weithredu mewn ffordd sydd yn gynaliadwy i'r dyfodol, yn hybu cydraddoldeb cymdeithasol ac yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd am ddatblygu arloesol. Law yn law â hyn, rhaid sicrhau fod y camau a gymerir yn parchu diwylliant ein cymunedau.

Mae Strategaeth Tai Gwynedd yn gosod uchelgais hirdymor, yn ogystal â blaenoriaethau clir ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Gwyddom y gall ein hanghenion tai newid ar gyfnodau gwahanol ein bywyd, ond yr hyn sy'n gyson yw'r angen i fyw mewn cartrefi a chymunedau sydd yn **ddiogel**, ac sydd yn galluogi a helpu ein pobl i fyw bywydau llawn a iach, gan hybu eu **hannibyniaeth**.

Un o'r heriau mwyaf yw sicrhau bod cyflenwad digonol o dai pwrpasol ac addas, sy'n llesol i'r amgylchedd, ac o safon i ymdrin ag anghenion poblogaeth sydd yn newid. Mae'r angen am dai sydd yn wir fforddiadwy wedi ei nodi fel un o'r prif flaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor.

Mae'r Cyngor a'r Cymdeithasau Tai, yn ogystal â phartneriaid eraill, wedi cyflawni llawer dros y 5 mlynedd diwethaf, ac mae'n bwysig cydnabod a dathlu'r llwyddiant yma. Wrth parhau i gydweithio gyda'n partneriaid, byddem yn parhau â'r i weithio tuag at atal digartrefedd, cynyddu'r nifer o dai cymdeithasol o fewn y Sir, a chynyddu'r nifer o dai gwag sydd yn dod yn ôl i ddefnydd. Mae gennym lawer iawn i fod yn falch ohono fel sir ac mae sylfaen dda i ni adeiladu arno i'r dyfodol.

Bwriad y Strategaeth hon yw gosod fframwaith i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ar gyfer darparu cartrefi i bobl Gwynedd a gwneud y defnydd gorau o arian prin i wella darpariaeth a chefnogaeth ar draws y Sir.


Tud. 53



Lluniwyd y Strategaeth ar sail yr wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i ni heddiw. Rydym hefyd yn llwyr sylweddoli bod materion tai, iechyd, gofal a llesiant yn uchel iawn ar restr blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth Cymru. Golyga hyn fod yna gyfle euraidd i'r Strategaeth Tai wneud gwahaniaeth dros y blynyddoedd nesaf. Er hyn, mae'r darlun yn newid yn barhaus ac felly bydd rhaid i'r Strategaeth hon fod yn ddogfen fyw a all ymateb i'r gwahanol gyfleoedd all godi i'r dyfodol. Byddwn yn cydweithio yn agos gyda'r Cymdeithasau Tai a phartneriaid eraill i fonitro cynnydd ac addasu'r blaenoriaethau a'r rhaglen fuddsoddi yn rheolaidd.

## Strwythur y Strategaeth

Mae'r Strategaeth yn dilyn ffurf syml iawn er mwyn ceisio sicrhau ei bod yn hawdd i'w deall i'r rhai sy'n ei ddarllen ac i'r rhai fydd yn ei gweithredu. Dangosir yn glir beth yw pwrpas ac amcan y Strategaeth, a llif y gwaith trwy ddilyn 3 cam syml, sef; Yr Her, Ein Huchelgais ac Ein Hymrwymiad. Mae'r 4ydd colofn (Ein Dull) yn amlygu'r egwyddorion sylfaenol o ran sut y byddwn yn gweithredu'r strategaeth er mwyn diwallu anghenion pobl Gwynedd.



Gwelir fod y blwch olaf yn nodi'r Mesur Llwyddiant. Yma bydd y cylch yn cael ei gau wrth i lwyddiant ac effaith yr ymrwymadau a nodir gael eu mesur yn erbyn yr Uchelgais. Gallwn wedyn dystiolaethu a ydym ni wedi gwneud gwahaniaeth a chyflawni amcanion y Strategaeth a Chynllun y Cyngor. Dyma fydd y prif ystyriaethau wrth i ni adolygu ein gwaith gyda'n partneriaid.

Mae'n bwysig nodi y byddwn, wrth weithredu'r strategaeth, yn sicrhau bod ein dull o weithredu yn cydymffurfio'n llawn â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), a bod y strategaeth hefyd yn gytmwys efo argymhellion Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad Tai Fforddiadwy (2019). Byddwn yn ymdrechu i ymateb i'r argymhellion mewn manylder maes o law.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn gosod yr uchelgais, caniatâd a rhwymedigaeth gyfreithiol i wella ein llesiant Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ac Economaidd. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus feddwl am effaith hirdymor eu penderfyniadau, gweithio'n well gyda pobl, cymunedau, ac i atal problemau parhaus megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid yn yr hinsawdd

Er mwyn gwneud yn siŵr ein bod i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn pennu saith o nodau llesiant.



Un o brif ofnion y Ddeddf yw bod gyrff cyhoeddus yn cynnal Asesiad Llesiant Lleol.

I'r perwyl hwn, bu'r Cyngor yn cyd-drafod gyda thrigolion Gwynedd a blaenoriaethu **7 Amcan Llesiant Lleol**. Bydd cyflawni Amcanion Llesiant Gwynedd yn cyfrannu tuag at gyflawni yr Amcanion Llesiant Cenedlaethol.

Yr Amcanion sydd yn gyrru popeth yr ydym ni'n ei wneud, ac yn eu tro, caiff popeth eu mesur yn erbyn sut maent yn cyfrannu at yr Amcanion hyn.

Mae gwireddu'r Amcanion yn ddibynnol ar lwyddiant Strategaeth Tai Gwynedd. Mae'r Strategaeth yn cefnogi pob un o'r amcanion ar draws amrywiaeth o feysydd gwasanaeth, ac yn dangos sut all tai addas, o safon dda, gyfrannu at lesiant wrth gynllunio ar gyfer hirdymor.



## Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Tai Fforddiadwy

Yn dilyn cyhoeddiad o'r Adolygiad o Cyflenwad o Dai Fforddiadwy ym mis Ebrill 2019, bydd y Strategaeth yn ymrwmo i cyflawni'r argymhellion wedi mabwysiadu gan Llywodraeth Cymru.

## 2. Yr Her

Yn ystod 2018, cynhaliwyd Aseiad o'r Farchnad Dai Leol, sef arolwg o anghenion tai yng Ngwynedd. Bydd canfyddiadau'r Aseiad yma yn gosod sail i'r blaenoriaethau a'r cyfeiriad ar gyfer y Strategaeth. Defnyddir hefyd y wybodaeth a gasglwyd o Adolygiad Digartrefedd, Aseidiadau Poblogaeth a Llesiant Gwynedd, ac Aseiad o Effaith Diwygio'r Gyfundrefn Lles er mwyn cael darlun cyflawn a chlir o'r galw am dai, a'r anawsterau sydd yn wynebu pobl Gwynedd.

Dengys canfyddiadau'r aseidiadau bod **y galw am dai cymdeithasol a thai fforddiadwy yng Ngwynedd ar hyn o bryd yn uwch na'r cyflenwad** sydd ar gael ac nad yw'r ymateb presennol yn diwallu anghenion y boblogaeth leol, ar hyn o bryd nac i genedlaethau'r dyfodol. Yn ogystal, dengys yr aseidiadau **fod poblogaeth Gwynedd yn tyfu** yn raddol, yn bennaf oherwydd bod **pobl yn byw yn hŷn**, a gwyddom fod **poblogaeth sy'n heneiddio yn arwain at gynnydd yn y galw am ofal a gwasanaethau iechyd**. O ganlyniad, os yw darpariaeth tai am gyfrannu at sicrhau'r iechyd a llesiant gorau bosibl a gydol oes i drigolion y Sir, rhaid canfod atebion amrywiol ac arloesol ar y cyd â'n partneriaid allweddol.

### Prif Ganfyddiadau

#### Poblogaeth

Mae dros 120,000 o bobl yn byw yng Ngwynedd, a'r nifer yn cynyddu pob blwyddyn. Mae disgwyl i'r twf mwyaf fod yn y nifer o bobl dros 80 oed, ac hynny yn bennaf wrth i bobl fyw yn hirach. Mewn 20 mlynedd mae disgwyl y bydd cynnydd o 60% yn y nifer o bobl dros 80 yn byw yng Ngwynedd, er y rhagwelir mai dim ond 2% fydd y twf yn y boblogaeth rhwng 16 a 64 oed.

Bydd twf ym mhoblogaeth pobl hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y stoc dai oni bai fod cyflenwad newydd pwrpasol ar gael. Rydym angen sicrhau ein bod yn gallu cynnig cymorth, cefnogaeth a dewisiadau tai sy'n addas ar gyfer anghenion pobl hŷn, a phobl sydd ag anghenion gofal er mwyn eu helpu i barhau i fyw'n annibynnol yn y gymuned o'u dewis. Mae pobl hŷn wedi dweud wrthym yr hoffent barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref cyn hired a phosib, ond mae natur ac adeiladwaith rhai tai yn rhwystr i gyflawni hyn. Mae'n hanfodol bod opsiynau cymorth hyblyg a mathau addas ac amrywiol o dai neu lety ar gael i pob gymuned i alluogi hyn i ddigwydd.

#### Tai Fforddiadwy

Mae diffyg blynyddol o 580 tŷ fforddiadwy (cymdeithasol a chanolraddol) o gymharu â'r galw ar draws Gwynedd. Mae'n bryder enfawr i ni yng Ngwynedd bod cyfartaledd o 60% o aelwydydd wedi eu prisio allan o'r farchnad dai. Mewn nifer o gymunedau, mae'n anodd iawn os nad amhosib canfod eiddo addas am lai na £140k, ac mewn rhai cymunedau mae angen 7 gwaith yr incwm cyfartalog i brynu eiddo. Her arall sy'n ein wynebu wrth fynd i'r afael â'r diffyg blynyddol yw prinder crefftwyr i adeiladu tai. Mae'r prinder crefftwyr yma wedi golygu oedi sylweddol a chynnydd costau mewn rhai cynlluniau dros y blynyddoedd diwethaf.

#### Sector Rhent Breifat

Mae'r Cyngor yn ymdrin â dros 700 o achosion blynyddol yn ymwneud â safonau tai gwael yn y sector preifat. Mae tai o ansawdd gwael yn costio £67m y flwyddyn i'r Gwasanaeth Iechyd yng Nghymru, a £15m mewn salwch gwaith.



Mae grantiau ar gael ar gyfer landlordiaid tai amlfeddiannaeth (HMOs) i wella systemau tân a diogelwch, ond mae angen ysgogi landlordiaid i osod eu tai i denantiaid ar Lwfans Tai Lleol.

O ganlyniad i newidiadau yn y trefniadau budd-daliadau, mae'r sector rhent preifat yn llawer llai fforddiadwy, gyda rhai teuluoedd ar budd dal yn wynebu bwch o hyd at £121 y mis mewn costau rhent.

### **Sector Tai Cymdeithasol**

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018, roedd ychydig llai na 2,000 o bobl ar y Gofrestr Tai yng Ngwynedd. Wrth gymharu anghenion y bobl sydd ar y Gofrestr Tai â'r stoc Tai Cymdeithasol, gwelir nad yw'r stoc dai presennol yn cyfateb â'r galw. Mae'r galw mwyaf am lety un a dwy ystafell wely i bobl sengl o dan 35, ac mae prinder cyflenwad ohonynt. Golyga hyn y byddai nifer uchel o drigolion Gwynedd ar y rhestr aros am gyfnod hir iawn.

### **Tai Gwag**

Rydym wedi adnabod oddeutu 1,300 o dai gwag ar draws y Sir. Mae'r rhain yn dai sydd wedi bod yn wag ers peth amser a gall eu cyflwr fod yn wael iawn. Mae hyn yn wastraff adnodd wrth ystyried bod agos i 2,000 o bobl ar restr aros y Cyngor. Credwn nad yw'r rhestr tai gwag yn gyflawn, a bod angen cynyddu'r ymdrech i'w canfod a'u dychwelyd i ddefnydd fel cartrefi i'n trigolion.

### **Tlodi Gwaith**

Mae tlodi gwaith yn disgrifio pobl mewn oed gwaith ac ar incwm isel sydd wedi eu priso allan o'r farchnad dai, ac mae hyn yn broblem yng Ngwynedd. Mae lefelau cyflog Cymru ymhlith yr isaf yn Ewrop, ac mae hyn yn arbennig o wir yng Ngwynedd oherwydd canran uchel o bobl o fewn y sector gwaith tymhorol a lletygarwch sydd yn aml yn rhan-amser ac sydd yn denu cyflogau isel. Yn draddodiadol, mae'r garfan yma o bobl wedi'u priso allan o'r farchnad dai, ond erbyn heddiw maent bron allan o gyrraedd tai rhent preifat, ac mewn peryg o fethu â chanfod eiddo cymdeithasol.

### **Digartrefedd**

Wrth adolygu'r Strategaeth Ddigartrefedd Rhanbarth Gogledd Cymru, mae ein hasesiadau yn dangos bod nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu'n wynebu'r bygythiad o ddigartrefedd yng Ngwynedd. Gwelwyd cynnydd o 36% yn y galw am y gwasanaeth ers 2014/15, ac mae tystiolaeth gyfredol yn awgrymu y bydd y cynnydd hwn yn parhau. Prif achosion digartrefedd yng Ngwynedd yw colli llety, gadael carchar, rhieni a pherthnasau yn amharod i letya mwyach, perthnasau yn chwalu a thrais yn y cartref. Mae nifer uchel o bobl sydd yn cyflwyno'u hunain fel pobl ddigartref yn bobl sengl, ac mae gorddefnydd o adnodd gwely a brecwast yn cael eu defnyddio i'w cefnogi, yn hytrach na unedau sefydlog.

Mae sector rhent breifat yn cael ei ddefnyddio'n aml i atal digartrefedd ond bydd angen buddsoddi mwy mewn paratoi ymlaen llaw ac adnabod gwell ffyrdd o atal digartrefedd.

### **Prynwyr Tro Cyntaf**

Mae rhwystrau yn wynebu prynwyr tro cyntaf oherwydd cyfyngiadau benthyciadau a methu fforddio'r blaendal. Erbyn hyn, gwelir lleihad yn y nifer o bobl o oed gweithio yng Ngwynedd sy'n berchen tŷ. Gall olygu bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gorfod parhau i rentu gydol oes. Mae angen i ni ymdrechu i leihau'r bwch rhwng y sector rhentu breifat a'r sector perchen tŷ mewn ffordd arloesol a chynaliadwy.

## **Incwm**

Gwyddom fod cyfartaledd lefelau incwm aelwydydd Gwynedd yn is na chyfartaledd aelwydydd Cymru. Yn ogystal, mae nifer o drigolion Gwynedd yn byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn genedlaethol. Mae disgwyl i'r newidiadau i'r systemau lles gael effaith ar nifer fawr o aelwydydd yng Ngwynedd gydag amcangyfrif y bydd dros 5,500 o aelwydydd yn disgyn o dan y drefn newydd Credyd Cynhwysfawr. Rhagwelir y bydd aelwydydd ar fudd-daliadau yn wynebu newidiadau sylweddol i'w cyllid a'u hawliau gan derbyn hyd at £45 yr wythnos yn llai. Gallai hyn arwain at fwy o aelwydydd y Sir yn byw mewn tlodi.

## **Effeithlonrwydd Ynni a Thlodi Tanwydd**

Adeiladwyd canran uchel o dai y Sir cyn 1919. Mae gan gyfran uchel o dai y Sir waliau cerrig, ac mae rhannau o'r Sir heb gyswllt i'r prif gyflenwad nwy. Golyga hyn fod cost cynnal a gwresogi tai yn uchel. O gyfuno hyn â lefelau isel cyflogau o fewn y Sir, gwelir bod nifer o aelwydydd y Sir yn wynebu tlodi tanwydd ac yn gwario cyfran sylweddol o'u incwm ar wresogi. Amcangyfrifir bod 20% o boblogaeth Gwynedd mewn perygl o ddioddef tlodi tanwydd o gymharu â 14% ar draws Cymru, a bod y ffigwr hyd at 29% mewn rhai wardiau unigol. Tai Gwynedd sydd yn gyfrifol am 50% o allyriadau CO2 y Sir. Er bod yr her yma yn deillio o'r gorffennol pell i raddau helaeth, nid oes chwaith ddigon o bwyslais wedi ei roi yn fwy diweddar ar ddyluniadau, gosodiad a deunyddiau adeiladu cartrefi yn y Sir. Er fod y sefyllfa yn parhau i wella, yn bennaf oherwydd gofynion cenedlaethol, mae bwch buddsoddi sylweddol i'w gau os am godi safonau ac effeithlonrwydd ynni stoc tai y Sir.

## **Y gefnogaeth sydd ar gael**

Mae'r cynnydd yn y galw ar wasanaethau i bobl sydd yn ymwneud â'r maes Tai yn her ar wasanaethau'r Cyngor a'n partneriaid. Mae'r Cynllun Cefnogi Pobl yn cefnogi oddeutu 2,000 o bobl pobl blwyddyn i fyw mor annibynnol ag sydd yn bosib, ac mae yn chwarae rhan allweddol mewn atal digartrefedd. Mae'r galw mwyaf am wasanaeth gan bobl sydd angen llety brys oherwydd eu bod yn ddigartref, yn ffoi rhag trais yn y cartref, yn ifanc ac yn fregus, yn gadael carchar ac/neu gyda anghenion ychwanegol megis iechyd meddwl neu yn camddefnyddio sylweddau. Yn 2018, cyfeiriwyd 2,366 (Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2018-22) o bobl at wasanaethau o'r fath, a petai posib buddsoddi mwy o arian er mwyn cael gwell ddealltwriaeth ar y sefyllfa yna byddai hyn yn gymorth i'r gwaith atal.

Mae ein hasesiadau yn dangos bod angen i ni edrych ar sut yr ydym yn cynnig cefnogaeth, a buddsoddi mewn gwaith ataliol (i atal digartrefedd, sicrhau hynny ag sy'n bosibl o annibyniaeth, cynorthwyo i leihau troseddu ac ofnau troseddu ayb) mewn ffordd ystyrlon i'r rhai sydd ag anghenion tai. Mae gennym nifer o gynlluniau sydd yn integreiddio'n gwasanaethau o fewn y maes pobl hyn a chefnogi teuluoedd, ac i'r dyfodol, mae'n hanfodol bod y maes tai yn rhan greiddiol o'n Timau Integredig a Clystyrau Gwasanaeth ehangach i atal pobl rhag cael eu cyfeirio o un lle i'r llall.

Wrth ystyried yr heriau uchod, mae'n deg nodi efallai nad ydym fel Cyngor wedi bod yn ddigon blaengar yn y gorffennol i ymateb i'r hyn oedd yn ein wynebu yn y maes tai, ond y gobaiith yw y gallwn ddysgu o'r profiadau hynny, addasu'n dull o weithredu a chydweithio gyda'n partneriaid er mwyn ymateb i ofynion pobl Gwynedd.

### 3. Ein Huchelgais

Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at Gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd


Wrth lunio'r Strategaeth hon, cafodd amrywiaeth helaeth o ffynonellau data eu hadolygu a'u harchwilio. Gwnaed gwaith i ddadansoddi'r farchnad dai leol a'r polisiâu a'r deddfwriaethau perthnasol er mwyn diffinio'r her sydd yn ein hwynebu. Hefyd, ac yn allweddol, rhoddwyd ystyriaeth i farn trigolion lleol sydd wedi ei gasglu trwy waith ymgynghori a gweithdai penodol a gynhaliwyd gan y Cymdeithasau Tai. Yn ogystal, dylid nodi bod materion Tai wedi'u hadnabod fel un o'r prif flaenoriaeth ymhob ardal wrth baratoi Asesiad Llesiant Gwynedd.

Wrth weithio i ymdrin â'r flaenoriaeth hon, rydym yn cyfrannu at gyflawni yr Amcanion Llesiant Cenedlaethol, sydd yn eu tro yn gwella ein llesiant **Cymdeithasol, Diwylliannol, Amgylcheddol ac Economaidd**.

Nid yw rhai o'r elfennau a nodwyd yn yr her, megis perchnogaeth, rhent a chefnogaeth yn faterion y gellir eu datrys dros nos, ac felly mae'r uchelgais a osodir yn gosod amcanion pendant tymor hir fydd yn parhau'r tu hwnt i oes y Strategaeth hon.

Wedi ystyried yr wybodaeth sydd ar gael, ein huchelgais hirdymor a'r hyn rydym yn anelu ato yn y pen draw o ran darparu cartrefi i bobl Gwynedd yw bod:

- Cartref pawb yng Ngwynedd yn fforddiadwy iddynt.
- Tŷ cymdeithasol ar gael i bawb sydd angen un.
- Neb yn ddigartref yng Ngwynedd.
- Dewisiadau amrywiol o dai ar gyfer amrywiaeth eang o anghenion ac oed.
- Digon o gartrefi ar gael i alluogi pobl Gwynedd aros a chwarae rôl lawn o fewn cymunedau.
- Buddsoddiad yn y maes tai yn cyfrannu at economi ffyniannus ac yn cyfrannu at ryddhau pobl o dlodi.
- Tai Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd.
- Cartrefi yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant pobl Gwynedd.



## 4. SUT FYDDEN I YN GALLU NEWID Y SEFYLLFA

Mae'r Strategaeth yn canolbwyntio ar y camau dechreuol posib tuag at gyflawni elfennau o'r uchelgais hirdymor. Trwy'r Strategaeth hon mae'r Cyngor yn amlinellu rhaglen weithredu posib ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Bwriedir gwireddu'r blaenoriaethau hyn hyd eithaf ein gallu a gyda'r adnoddau sydd ar gael i ni. Ein nod fydd gwthio'r ffiniau er mwyn mynd i'r afael â'r her ac felly gosodir rhaglen sydd y tu hwnt i'n hadnoddau ariannol presennol. Fodd bynnag, bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i lenwi'r bwch yma pan ddaw cyfleoedd priodol.

Rydym wedi dosbarthu'r ymrwymiadau posib canlynol o dan benawdau perthnasol. Er hyn, rydym yn fyw i'r ffaith fod cysylltiad amlwg rhwng sawl un fydd yn cael dylanwad ac effaith ar eraill. Enghraifft benodol fyddai Tai Gofal Ychwanegol: Wrth i drigolion symud i mewn i Hafod y Gest, Porthmadog, mae hynny wedi rhyddhau tai eraill yn y gymuned all fod yn gartref newydd ac addas i unigolion a theuluoedd eraill, ac a all hefyd helpu i osgoi digartrefedd a chreu cyfleoedd economaidd.

O dan bob pwynt bwled isod, gwelir ein bod yn ystyried pa Amcan Llesiant Lleol fydd yn elwa o'r cynlluniau posib. Wrth wneud hyn, rydym yn sicrhau ein bod yn targedu pob un o'r amcanion, ac felly yn gweithio i gyfrannu tuag at gyflawni'r Amcanion Llesiant Cenedlaethol.

### 4.1 Sicrhau bod pobl Gwynedd yn gallu cael cartref addas

#### • Cynllun benthyciadau i gymdeithasau dai

Byddwn yn ymchwilio i posibilrwydd o gynnig benthyciadau i gymdeithasau tai fyddai'n eu galluogi i adeiladu mwy o eiddo cymdeithasol i ddiwallu'r angen mewn ardaloedd perthnasol.

Bydd hyn yn fuddsoddiad ychwanegol a gaiff ei dargedu ar gyfer diwallu anghenion unigolion neu grwpiau mewn ardaloedd a chymunedau lle mae angen penodol. Byddwn yn blaenoriaethu ardaloedd lle mae'r gwahaniaeth mwyaf rhwng y galw a'r cyflenwad o dai, gan ganolbwyntio ar unedau llai o faint (h.y. 1 neu 2 ystafell wely).

#### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol

Mwynhau bywyd hapus, iach a diogel

Cael byw mewn cymdeithas naturiol Gymraeg


Cael byw mewn cartrefi o ansawdd o fewn ein Cymunedau

#### • Cynllun Blaendal Morgais Awdurdod Lleol

Helpu prynwyr tro cyntaf drwy gynnig cynllun blaendal fyddai'n swm rhwng 10% a 15% ar gyfer y rheini sydd yn gallu cyfrannu blaendal o 5% eu hunain.

Bydd hyn yn helpu bobl ifanc lleol sy'n methu cael blaendal dros 5% i sicrhau telerau benthycia gwell, a chaniatáu iddynt brynu tŷ mwy addas. Gall y cynllun blaendal morgais gynnig rhoi hyd at 15% i bobl sydd â 5% o'r blaendal i brynu tŷ gwag, i gydnabod bod

## Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol




### • Cynllun Tai Gwag

Mae gan Wynedd niferoedd o eiddo gwag sydd ymysg yr uchaf yng Nghymru, ac mae lleihau nifer y tai gwag yn y sector preifat yn allweddol er mwyn cyfrannu at gael tai fforddiadwy i bobl leol. Mae eiddo sy'n wag am gyfnod hir yn adnodd sy'n cael ei wastraffu. Mae modd dod â hwy yn ôl i ddefnydd mewn amserlen weddol fyr, ac ar gost is o gymharu ag adeiladu eiddo o'r newydd.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid preifat, byddwn yn parhau i roi cymorth grantiau neu benthyciad er mwyn gwella safonau eiddo gwag; yn amodol ar gynnig yr eiddo ar lefel rhent lwfans tai lleol neu lai, a'i ddyrannu i bobl leol addas. O ganlyniad, caiff yr eiddo ei adnewyddu a'i ddychwelyd yn ôl i ddefnydd, a byddwn yn sicrhau bod y rhent yn fforddiadwy am gyfnod o 5 mlynedd.

Mae hyn yn gynllun sy'n cynnig benthyciadau di-log er mwyn annog landlordiaid i wella a chodi safon eiddo. Byddai landlordiaid sy'n derbyn cymorth yn gorfod ymrwymo i gynnig eiddo o safon uchel a gosod eiddo ar rent fforddiadwy am gyfnod penodol. Cynigir hefyd rhoi cymorth grant i brynwyr tro cyntaf ar gyfer adnewyddu tai gweigion i safon byw. Mae hyn yn adeiladu ar y gwaith da a wneir gan y Gwasanaeth ar hyn o bryd.

## Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



### • Cynllun adeiladu'r Cyngor

Un o'n blaenoriaethau pennaf yw sicrhau fod gennym ddigon o dai fforddiadwy er mwyn diwallu anghenion poblogaeth Gwynedd, ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Dros y 5 mlynedd nesaf, bydd angen datblygu dros 200 o unedau ychwanegol i ymateb i'r angen hwn, sydd bron yn dyblu ein lefel cyflawni presennol. Drwy wneud hyn, gallai y Cyngor yn ailafael ar berchnogi neu ran berchnogi eiddo, ac yn cynyddu'i ddylanwad o fewn y farchnad dai.


Bydd y cynllun yma'n galluogi'r Cyngor i adeiladu neu brynu eiddo ar y farchnad agored er mwyn ei osod neu ei gynnig i brynwyr tro cyntaf drwy fanteisio ar amryw o ffynonellau ariannol sydd ar gael. Ni fydd hyn yn ateb cyflym, ond fe fydd yn cyflwyno cyfle i ddarparu lletya pwrpasol i fynd i'r afael ag anghenion penodol, sydd wedi bod yn anodd yn y gorffennol.

Er mwyn cael tir i ddatblygu ac adeiladu, byddwn yn edrych ar ffyrdd o ddylanwadu ar ddefnyddio safleoedd segur, sef lleoliadau sydd wedi derbyn hawliau cynllunio ers rhai blynyddoedd, ond lle nad oes cynnydd wedi digwydd.

Bydd y cynllun yn edrych ar ffyrdd o gefnogi a defnyddio cwmnïau adeiladu o faint llai, na fyddai fel arall yn gallu adeiladu na datblygu heb y sicrwydd bod prynwyr wedi'u hadnabod ar gyfer y datblygiadau. Bwriedir parhau i gefnogi'r diwydiant adeiladu i gryfhau eu hamrediad o sgiliau a darpariaeth o wasanaethau fel y gellir sicrhau hynny ag sy'n bosibl o fudd economaidd yn lleol.

Hyderwn y bydd y buddsoddiad gan y Cyngor yn atgyfnerthu'r ymdrechion i ddenu buddsoddiad ychwanegol o ffynonellau allanol a dylanwadu a denu partneriaid eraill i gyd-fuddsoddi ar raglen o gynlluniau uchelgeisiol a fydd yn trawsnewid y ddarpariaeth a gwneud gwir wahaniaeth i bobl Gwynedd.

### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



#### • Cynlluniau Perchnogi Tai

Ein nod gyda'r cynllun hwn yw manteisio i'r eithaf ar ffynonellau ariannol, a defnyddio adnoddau a thir y Cyngor a phartneriaid eraill i annog datblygiadau sy'n gydnaws â'n blaenoriaethau i ddiwallu anghenion tai lleol. Byddwn yn rheoli a gweinyddu grant pwrpasol i hwyluso datblygiadau drwy gydweithio gyda Chymdeithasau Tai i gynyddu'r nifer o unedau fforddiadwy i'w rhentu a'u prynu (boed yn dai, fflatiau neu darpariaeth gofal ychwanegol) mewn ardaloedd ble mae'r angen wedi'i adnabod.

Mae sawl cynllun sydd yn helpu pobl ar incwm isel i berchen eiddo. Mae gan y Cyngor berthynas hir, sefydlog ac effeithiol gyda Chymdeithasau Tai i ddarparu tai fforddiadwy i'w rhentu, ond bellach mae cyfleoedd yn codi i berchen neu ran-berchnogi eiddo yn unol â gallu / angen unigolion. Ymysg y rhain bydd cynlluniau penodol fel Rhentu i Brynu, Hunan Adeiladu, Rhan Berchnogaeth a Chymorth Prynu.

Bydd ymrwymo a buddsoddi yn y maes tai yn gwneud cyfraniad cadarnhaol o ran datblygu'r economi gan sicrhau cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant. Wrth gefnogi a hyrwyddo cynlluniau prynu arloesol, byddwn yn sicrhau fod gan pobl Gwynedd y gallu i fanteisio ar y gwahanol ddewisiadau i fod yn berchen ar eiddo. Drwy wneud hyn, byddwn yn sicrhau ein bod ni, yn ogystal â manteisio ar y cyfleoedd fydd yn codi, yn arwain y ffordd mewn modd blaengar yn hytrach na bod yn gwsmer.


### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



- **Cynllun Tai Teg**

Rôl Tai Teg yw helpu unigolion i gael hyd i eiddo fforddiadwy drwy hysbysu ar eu gwefan, cynnig cymorth i ymgeiswyr a gweinyddu cynlluniau penodol ar ran y Cyngor. Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda Tai Teg er mwyn darganfod y nifer uchaf posibl o dai fforddiadwy ar gyfer pobl Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys tai fforddiadwy y farchnad agored, ac eiddo a ddaw i fodolaeth drwy unrhyw gynllun cymwys i'r dyfodol.

### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



### 4.2 Sicrhau na fydd neb yn ddigartref yng Ngwynedd

O glywed y term 'digartref' y duedd yw meddwl am bobl sy'n cysgu ar y stryd. Y gwirionedd yw mai rhan fach iawn o'r darlun yw pobl sy'n cysgu allan, ac mae nifer helaeth yn ddigartref ond ddim i'w gweld yn cysgu allan. Yn anffodus gall pobl ffeindio eu hunain yn ddigartrefedd am amryw o resymau.



- **Mabwysiadu Polisi Dim Ail Noson Allan**

Y bwriad yw ceisio sicrhau nad oes rhaid i neb yng Ngwynedd gysgu ar y stryd. Byddwn yn ceisio gwneud hyn drwy greu llwybr llety clir gan gynnwys mabwysiadu polisi 'Dim Ail Noson Allan'. Mae'r polisi hwn, ar y cyd â Chymdeithasau Tai, yn cael ei ddatblygu yn benodol ar gyfer rheini sy'n cysgu allan, gyda'r nod o'u cefnogi i ail-gysylltu gydag ardal lle mae ganddynt gysylltiad, teulu neu rwydwaith cefnogol. Byddwn yn sicrhau bod darpariaeth uniongyrchol i gefnogi taith glir o'r strydoedd at gefnogaeth, gan gynnig sefydlogrwydd ac agwedd sy'n canolbwyntio ar anghenion unigol y person.

Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â'r rhesymau a'r gwir achosion sylfaenol er mwyn lleihau lefelau digartrefedd yng Ngwynedd. Mae angen sicrhau bod help ar gael i bobl sydd yn ei cael hi'n anodd i gadw to uwch eu pennau oherwydd anghenion cymhleth ac amrywiol. Mae'n hanfodol ein bod yn ymdrechu i gynnig help buan er mwyn atal digartrefedd. Rydym am barhau i wneud hyn drwy ein gwasanaethau ac ar y cyd â'n partneriaid. Mae gennym oll rôl allweddol i'w chwarae er mwyn gwella'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael i'r rheini sydd yn wynebu problemau iechyd meddwl, sy'n sâl, neu sydd yn gaeth i alcohol a/neu gyffuriau a bydd angen cynyddu capasiti a chodi ymwybyddiaeth er mwyn gwella'r sefyllfa.

Byddwn hefyd yn cydweithio gyda'r Cymdeithasau Tai i ddatblygu unedau pwrpasol sydd yn diwallu anghenion y rheini sydd yn ddigartref.

### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



- **Darparu Unedau Pwrpasol i'r Digartref**

Mae angen adolygu'r darpariaeth sydd gan y sir ar gyfer cynorthwyo pobl digartref, ac edrych ar wahanol ffyrdd o sicrhau bod llety ar gael iddynt. Nid yw'r ddarpariaeth bresennol yng Nghorris bellach yn addas ar gyfer cefnogi gwasanaethau digartrefedd. Ein bwriad yw buddsoddi mewn darpariaeth addas ac amgen yn Nolgellau drwy adeiladu neu brynu ar y cyd gyda Chymdeithas Tai. Byddai hyn yn sicrhau bod darpariaeth i bobl digartref yn parhau yn ne'r Sir.

Byddwn hefyd yn manteisio ar ffynonellau arian y Llywodraeth i ddatblygu unedau arloesol a phwrpasol ar gyfer pobl digartref sydd ag anghenion cymhleth, ble nad oes darpariaeth digonol a pwrpasol ar eu cyfer ar hyn o bryd.

### **Cyfraniad at gyflawni Aseiad Llesiant Lleol**



### **4.3 Ymdrin ag anghenion iechyd a llesiant pobl Gwynedd**

- **Darpariaeth Pwrpasol ar y cyd gydag Iechyd a'r Cymdeithasau Tai**

Mae gan Wunedd boblogaeth sy'n heneiddio. Mewn 20 mlynedd disgwylir y bydd 60% yn fwy o bobl dros 80 oed yn byw yng Ngwynedd. Mae pobl hŷn wedi dweud wrthym yr hoffent barhau i fyw'n annibynnol yn eu cartref eu hunain gyhyd â phosibl, ond mae natur ac adeiladwaith rhai tai yn rhwystr i hyn ddigwydd. Mae'n hanfodol felly bod dewisiadau cymorth hyblyg a mathau addas ac amrywiol o lety ar gael o fewn pob cymuned i alluogi hyn i ddigwydd. Wrth gweithio gyda'n partneriaid o'r meysydd Iechyd a'r trydydd sector, ein bwriad yw mynd i'r afael â hyn mewn 4 prif ffordd:

#### **1. Tai Gofal Ychwanegol**

Mae'r Cyngor a'r Partneriaid Tai wedi datblygu 3 o unedau gofal ychwanegol hyd yn hyn. Ein bwriad yw edrych i ddatblygu mwy, a fydd yn esblygiad ac amrywiad o'r 3 cynllun Tai Gofal presennol sy'n addas ar gyfer gwasanaethu trefi llai. Byddai hyn yn diwallu'r angen am gynlluniau ychwanegol mewn 4 cymuned: Pwllheli, Dolgellau Tywyn a Blaenau Ffestiniog. Mae'n debygol y bydd eu ffurf yn llai na'r rhai presennol er mwyn adlewyrchu'r angen a'r bwriad yw dysgu o'r profiadau yn y rhai presennol o ran yr angen am ofal 24 awr. Byddai hefyd yn edrych ar gyfle i feithrin a hybu trefniadau aml genedlaethol.

#### **2. HWB Gofal Iechyd a Thai**

Cynllun yw hwn fydd yn dod â Gwasanaethau at ei gilydd mewn un lleoliad er mwyn cynnig cefnogaeth well i bobl Gwynedd.

Mae dau leoliad i'r HWB dan ystyriaeth; sef Bangor a Penygroes. Caiff hyn y budd o hwyluso profiadau a mynediad defnyddwyr yn ogystal ag effeithlonrwydd y cyrff fydd wedi eu lleoli ar y cyd. Bydd elfen tai a llety yn targedu grwpiau penodol.



### 3. Hwb Digartref Bangor

Datblygiad ar y cyd yw hwn gyda Chanolfan Ffordd Abaty a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sydd yn ceisio dod â darparwyr a gwasanaethau cefnogol at eu gilydd i sicrhau bod adnoddau cefnogol ar gael mewn un lleoliad. Bydd hyn yn ceisio sicrhau bod unedau a chyfleusterau iechyd cychwynnol, ac adnoddau cefnogol ar gael ar gyfer pobl digartref yn ardal Bangor, mewn modd hwylus, syml a phriodol.

### 4. Cartrefi / Unedau Gofal a Iechyd

Yn hanesyddol, mae prinder eiddo hygyrch sydd yn addas ar gyfer pobl ag anghenion gofal. Drwy adnabod adnodd penodol i ganfod eiddo pwrpasol, a symleiddio'r broses o gael mynediad iddynt, byddwn yn hwyluso'r broses o ryddhau pobl o'r ysbyty ac i eiddo addas sy'n ymateb i'w dymuniadau.

#### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol




#### 4.4 Sicrhau bod cartrefi Gwynedd yn llesol i'r amgylchedd

- Cynllun Adfer Ynni

Mae'n flaenoriaeth gan y Cyngor i wella ansawdd ac effeithlonrwydd ynni tai presennol ym mhob math o ddaliadaeth tai, a drwy wneud hynny ymateb i agenda dad gomisiynu carbon y Llywodraeth. Byddwn yn adolygu'r ffordd mae cartrefi'n cael eu hadeiladu er mwyn hyrwyddo tai sy'n rhad i'w cynnal, yn effeithiol i'w gwresogi ac sy'n garedig i'r amgylchedd. Ein nod fydd arloesi wrth ddylunio ac adeiladu tai fydd yn gweddu i'n cymunedau, lle bydd pobl yn falch ohonynt, a fydd yn helpu osgoi tlodi, gan ddefnyddio ddeunyddiau craidd a sgiliau lleol, a chefnogi gweithwyr lleol lle'n bosib.

Bydd y Cyngor yn rhoi blaenoriaeth uchel i fuddsoddiadau a fydd yn gyrru gwelliannau parhaus mewn ansawdd tai, gyda phwyslais arbennig ar yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, ac eiddo a gaiff ei rentu'n breifat. Bydd cyfleoedd yn codi i wella effeithlonrwydd ynni yr ardaloedd sydd â thlodi tanwydd difrifol, a hynny drwy gydweithio gyda partneriaethau i gyflwyno mesurau adfer ynni a thrwy geisio am grant i ymestyn pibellau nwy i gymunedau sydd o fewn cyrraedd mewn ardaloedd penodol. Byddwn hefyd yn sefydlu cronfa trwsio tai, sef cynllun benthyciadau i berchnogion bregus er mwyn gwella cyflwr eu tai. Y nod yw helpu pobl i gadw a chynnal eu hannibyniaeth drwy gyflwyno gwelliannau i'w tai.

#### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol



## 4.5 Cynnig gwasanaethau ataliol, di-dor ar lefel leol

### • Cynllun Cefnogi Pobl

Bwriad y Cynllun yma yw helpu pobl i ddod o hyd i gartref, ei gadw ac i fyw mor annibynnol ag sy'n bosibl. Bydd y gefnogaeth a roddir yn seiliedig ar anghenion yr unigolyn.

Fel rhan o bolisi 'Neb yn Ddigartref', bydd yr Uned Cefnogi Pobl yn ariannu cefnogaeth sydd yn:


- Cynorthwyo pobl fregus sydd angen cefnogaeth i baratoi at symud ymlaen i fyw yn annibynnol a llwyddiannus yn y gymuned.
- Cynorthwyo pobl i gynyddu / datblygu'r sgiliau angenrheidiol i alluogi unigolion i gadw / cynnal eu tenantiaethau.
- Cynorthwyo pobl i gynyddu a datblygu eu sgiliau bywyd.
- Cynorthwyo pobl i gael a chadw cyfleoedd hyfforddiant neu gyflogaeth lle'n briodol.
- Gwella ansawdd bywyd a lles pobl.
- Cyfeirio pobl ymlaen at asiantaethau / gwasanaethau priodol ble mae gwasanaeth yn methu â rhoi cymorth.

Bydd y gefnogaeth yn gweithio tuag at atal digartrefedd, cadw annibyniaeth, galluogi pobl i gael at wybodaeth er mwyn gwneud y dewisiadau gorau, cynorthwyo i leihau troseddu ac ofnau am droseddu, a helpu i leihau mynediad diangen neu gynamserol i ysbyty, carchar neu fathau eraill o ofal sefydliadol.

Bydd Cefnogi Pobl hefyd yn gweithio ar gynllun i ddatblygu darpariaeth pwrpasol yn ne Gwynedd ar y cyd â gwasanaethau lechyd a Digartrefedd. Bydd hyn yn estyniad o'r cynllun sydd eisoes yn bod yn Arfon, a'i nod yw darparu gwasanaeth cefnogol o ansawdd uchel, mewn perthynas â thai, ar gyfer pobl sengl a theuluoedd 16 oed a throsodd sydd ag anghenion aml gefnogaeth.

Trwy gydol oes y Strategaeth, bydd y Cynllun yn comisiynu mwy o wasanaethau darparu cefnogaeth lefel isel, sydd yn rhoi help i ddatrys problemau cyn iddynt arwain at sefyllfa lle gall pobl golli eu cartref. Darperir cefnogaeth i helpu pobl fregus i ddatblygu neu gadw'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen ynghlwm â rheoli cartref, a'r hawliau a'r cyfrifoldebau sy'n gymesur â chadw cartref. Tasgau yw'r rhain, pe na byddent yn cael eu cyflawni'n ddigonol, all arwain at golli hawl neu allu'r unigolyn i barhau i fyw yn y cartref yn annibynnol.

### Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol




Tud. 66

- **Adolygu system dyrannu Tai**

Mae'r system bresennol o osod tai cymdeithasol wedi bod gennym ers peth amser ac yn seiliedig ar gynllun pwyntiau. Mae'n adeg amserol i'w adolygu a chyflwyno trefn newydd sy'n haws i'w ddeall, ac i fynd i'r afael â rhai o'r materion mae ymgeiswyr wedi tynnu sylw atynt. Wrth ddiweddarau'r drefn, byddwn yn cryfhau sefyllfa ymgeiswyr â chyswllt lleol â'r ardal ble mae'r eiddo, ac yn cydnabod y cyfnod mae ymgeiswyr wedi'i dreulio ar y gofrestr. Y bwriad felly yw cyflwyno system 'bandio' i ddisodli'r system bwyntiau sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd.

O fewn y system 'bandio', caiff geisiadau am eiddo cymdeithasol eu gosod mewn band penodol sy'n adlewyrchu'r lefel angen. Golyga hyn y bydd pob cais yn osgoi'r dryswch a all godi gyda'r drefn pwyntiau, ble mae'n bosib i gais dderbyn pwyntiau gwahanol ar gyfer ardaloedd gwahanol. Bydd hyn yn hwyluso a symleiddio'r broses ymgeisio, ac yn gyfle i roi mwy o bwyslais ar y cyswllt lleol.

### **Cyfraniad at gyflawni Asesiad Llesiant Lleol**



## 5. EIN DULL

Oherwydd maint yr heriau ariannol, amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sy'n ein wynebu ni, bydd rhaid i ni weithio mewn ffyrdd gwahanol i'r dyfodol. Dyma felly yr egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio fel sail i weithio.



**Gweithio'n arloesol** - Edrych ymlaen, ac ar atebion arloesol er mwyn arwain yn y maes tai drwy gynllunio, datblygu a gweithredu'n effeithiol.



**Ymyrryd yn gynnar a gweithio yn ataliol** - Bod yn rhagweithiol, a datrys problemau cyn iddynt waethgu.



**Sicrhau ein bod yn rhoi gwerth am arian** – Manteisio i'r eithaf ar yr holl ffynonellau arian sydd ar gael i ni er mwyn cyflawni i bobl Gwynedd, a sicrhau bod pob buddsoddiad yn cyfrannu at yr economi ac at ein cronfa sgiliau ni yn y Sir.



**Gweithio ar y cyd gyda'n partneriaid** – Canolbwyntio mwy ar gydweithio a chyd-gynhyrchu gydag asiantaethau, partneriaid a chynghorau cyfagos ac i rannu ymarfer da er lles pobl Gwynedd.



**Rhoi Pobl Gwynedd yn ganolog i popeth yr ydym yn ei wneud** - Bydd ein gwaith yn canolbwyntio'n llwyr ar y canlyniadau i bobl Gwynedd, gan dynnu allan unrhyw gamau gwag allan o'n prosesau gwaith presennol.




**Sicrhau cynaliadwyedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol** - Gosod safonau gwyrdd ar ein datblygiadau newydd fydd yn gwarantu effeithlonrwydd ynni i'r dyfodol, ar draws Gwynedd.



**Manteisio i'r eithaf ar dechnoleg** - Sicrhau ein bod yn ymwybodol o ddatblygiadau a technolegau newydd, ac manteisio arnynt er mwyn gwasanaethu anghenion pobl Gwynedd.

Nodir bod yr uchod yn gyson ag egwyddorion Ffordd Gwynedd o weithio, yn ogystal â'r ffyrdd o weithio sydd wedi eu nodi gan y Llywodraeth yn Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd ein llwyddiant yn cael ei fesur yn rhannol ar sail yr egwyddorion hyn ac fe fydd y Cyngor yn disgwyl i'w holl bartneriaid fabwysiadu'r dulliau gweithio yn yr holl raglenni gwaith fydd yn deillio o'r Strategaeth hon.



## 6. ARIANNU'R STRATEGAETH

Mae'r cynlluniau posib wedi eu amlygu o fewn y Strategaeth hon yn cynrychioli buddsoddiad sylweddol yn y maes tai. Bydd cyfanswm yr adnodd fyddai ei angen pe byddem yn dymuno cyflawni popeth yn y strategaeth bell tu hwn i'r adnoddau sydd ar gael i Cyngor Gwynedd yn unig. I wireddu'n amcanion, bydd angen manteisio ar unrhyw gyfle i uchafu cyfraniadau grant neu adnoddau tuag at cyflawni cynlluniau posib.

Bwriad y Cyngor yw chwyddo'r adnoddau ar gael wrth ddefnyddio cyllid geir o'r lefi Tai Haf er mwyn ceisio liniaru'r effaith y farchnad honno ar drigolion lleol.

Serch hynny, mae angen sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnodd cyfyng sydd gennym i gweld yr effaith mwyaf i drigolion Gwynedd. Efallai y bydd hynny'n golygu canolbwyntio ar rai cynlluniau penodol sydd am gael yr ardrawiad mwyaf yn hytrach na rhannu'r adnoddau ar draws nifer mawr y gynlluniau a lleihau effaith.

Er mwyn gwneud hynny, yn ystod 2019/20 byddwn yn cynnal asesiad budd – cost ar y cynlluniau a nodir yn rhan 4 gyda golwg ar lunio cynllun gweithredu tymor canolig dreigl 2 flynedd o 2020/21 ymlaen.

Yn y cyfamser ym mlwyddyn gyntaf y strategaeth sef 2019/20 byddwn yn ariannu cynlluniau Llety Pwrpasol; Cynllun tai gwag a Cronfa Trwsio Tai ar gost o £1.25m.



## ATODIAD A - Llwyddiannau'r 5 mlynedd diwethaf

Wrth edrych ymlaen mae'n briodol ein bod yn edrych yn ôl a dysgu o'n profiad. Dros gyfnod 5 mlynedd y Strategaeth Tai flaenorol rydym wedi:

- Ychwanegu **400** o unedau tai cymdeithasol newydd ar y cyd gyda chymdeithasau tai
- Sicrhau **100** o unedau fforddiadwy ychwanegol trwy gytundebau 106.
- Lleihau'r nifer o bobl/teuluoedd sydd yn byw mewn tai dros dro/argyfwng.
- Gweld cynnydd yn y nifer o achosion lle rydym wedi atal digartrefedd.
- Gwireddu **£8m** o addasiadau anabledd ar draws y sector tai i gefnogi byw yn annibynnol.
- Dod a **400** o dai gwag yn ôl i ddefnydd (a to uwch ben oddeutu 800 o bobl) gyda chynnydd blwyddyn ar flwyddyn.
- Creu **112** o unedau tai gofal ychwanegol ar gyfer pobl hŷn, o fewn 3 brosiect sef Awel y Coleg, Bala a Cae Garneidd, Bangor, Hafod y Gest Porthmadog.
- Comisiynu gwasanaeth ymgynghorydd dyled, sydd yn helpu pobl i ddatrys problemau ariannol.
- Comisiynu gwasanaeth sydd yn cefnogi pobl hefo anghenion aml gefnogaeth, mae'r grŵp hwn yn chael hi'n anodd gael mynediad at y gwasanaethau prif lif sydd ar gael.
- Sefydlu gwasanaethau ataliol sydd yn rhoi cymorth a gwybodaeth i bobl, cyn i'r broblem creu anawsterau sydd yn arwain at golli tenantiaeth.

Mae'r llwyddiannau uchod yn gosod sylfaen dda i adeiladu arno ar y cyd â'r Cymdeithasau Tai a'n partneriaid. Rydym yn mynd drwy gyfnod ansicr a heriol oherwydd newidiadau deddfwriaethol a'r wasgfa ariannol, a golyga hyn fod rhaid gwneud penderfyniadau anodd. Mae'r strategaeth hon yn rho'r cyfle i ni gynnig ffordd ymlaen sy'n sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ac yn gwneud llawn ddefnydd o adnoddau prin.

Byddwn yn ystyried newidiadau o fewn y gyfundrefn lles wrth ddatblygu cynlluniau. Mae effaith rhai o'r newidiadau yn sylweddol, ac yn golygu bod rhai teuluoedd yn wynebu anawsterau ychwanegol ac mae perygl i rai wynebu tlodi pellach. Golyga hyn bydd angen cadw'r strategaeth yn fyw er mwyn gallu ymateb i newid ac addasu i anghenion sy'n dod i'r amlwg. Byddwn hefyd yn effro i unrhyw gyfleoedd ychwanegol fydd yn codi a all helpu gwireddu amcanion.

Wedi dysgu o brofiadau blaenorol, mae'n amlwg fod rhaid cael uchelgais arloesol i ddenu arian newydd, gan bwysleisio ar yr agenda werdd. Mae rhaid i ni weithio a gweld drwy lygaid pobl Gwynedd, a gwrthio'r ffiniau. Mae ein huchelgais yn nodi'n glir yr hyn yr ydym yn anelu tuag ato, ac mae rhaid defnyddio arian yn wahanol er mwyn gwireddu hyn.

Bydd gweithredu'r Strategaeth Dai yn cyfrannu tuag at Amcanion Llesiant Lleol Gwynedd ynghyd â'r Amcanion Llesiant Cenedlaethol gan wneud gwahaniaeth cadarnhaol i iechyd a llesiant pobl Gwynedd.

## ATODIAD B – Rhestr Datrysiadau Posib Strategaeth Tai

### Cyflwyniad

Mae'r rhaglen cynlluniau ganlynol yn cynnwys syniadau uchelgeisiol i helpu trawsnewid y ffordd o ddarparu gwasanaethau Tai at y dyfodol. Mae'n cynnwys cynlluniau y gellid eu cyflawni ar unwaith er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n broblemus a gwneud gwahaniaeth yn gyflym, ynghyd â chynlluniau mwy hirdymor. Mae'r rhaglen yn amlinellu sut y gellir cyflymu a sicrhau'r cyrhaeddiad uchaf bosibl yn y maes tai. Mae hefyd yn dwyn sylw at syniadau newydd uchelgeisiol, a all gymryd amser i'w gwireddu ond a fyddai'n trawsnewid gwasanaethau. Bydd chyd weithio'n agos gyda partneriaid o fewn Partneriaeth Tai Gwynedd a'i is-grwpiau yn allweddol i gyflawni'r cynlluniau sydd wedi eu blaenoriaethu o fewn y rhaglen gwaith.

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio'r ymdrech ar weithgareddau fydd yn gwneud gwahaniaeth o fewn meysydd anodd/heriol sy'n creu problemau neu'n arwain at gostau ychwanegol i'r Cyngor. Mae pwyslais hefyd ar dargedu buddsoddiad a weithgaredd fydd yn gwneud gwahaniaeth hirdymor i wasanaethau.

Gyda nifer o'r cynlluniau mae cyfleoedd i ddenu arian ychwanegol ac ategol o ffynonellau allanol. Bydd hyn yn fodd o uchafu'r llywyddiant sy'n bosibl. Er mwyn hwyluso mynediad at rai ffynonellau allanol bydd angen i'r Cyngor ymrwymo buddsoddiad cychwynnol i sicrhau bod y cynlluniau gerbron yn aeddfed ar gyfer denu nawdd ac er mwyn cadarnhau ymrwymiad at y cynllun a hyrwyddo partneriaethau. Bydd mabwysiadu'r Strategaeth Tai a phenderfyniadau ariannol cysylltiedig yn atgyfnerthu y bwriad gan neilltuo adnoddau i ddatblygu a chefnogi datblygiadau yn ymarferol er mwyn manteisio i'r eithaf ar ffynonellau ariannol ychwanegol a chyfleoedd cyd weithio.

Bwriadir cyflwyno rhaglen gwaith o gynlluniau er mwyn cymeradwyaeth ger bron y Cabinet fydd yn adnabod ymrwymiadau cychwynnol am y 2 flynedd gyntaf.

Mae rhai o'r cynlluniau yn y rhaglen yn gyfarwydd. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu'r angen a'r dyhead i ymestyn ac addasu cynlluniau llwyddiannus a phoblogaidd dros y blynyddoedd i adeiladu ar lwyddiannau'r blynyddoedd diwethaf. Ond, mae'r rhaglen hefyd yn cynnig nifer o gynlluniau mawr, blaengar ac arloesol at y dyfodol. Er mwyn manteisio'n llawn ar gyfleoedd sy'n esblygu, bydd rhywfaint o hyblygrwydd o fewn cynlluniau a'i hwyluso amseru er mwyn cyd-drefnu a manteisio ar raglenni grant allanol. Mae'r Atodiad hon yn ddogfen fyw a gall fod angen rhywfaint o addasu o fewn a rhwng penawdau wrth symud ymlaen er mwyn manteisio ar gyfleoedd newydd a chyflawni hynny ag sy'n bosibl.

## RHESTR CYNLLUNIAU TAI I'W GWIREDDU

<b>A. SICRHAU NAD OES NEB YN DDIGARTREF YNG NGWYNEDD</b>				
	<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad o syniad y cynllun</b>	<b>Budd i bobl Gwynedd</b>	<b>Amcan Cost y Cynllun</b> Buddsoddiad sydd ei angen + nifer Unedau
1.	<b>Llety Pwrpasol</b>  <b>[PODS Unedau Llai]</b>  <b>&lt;6mis</b>  <b>*</b>	Cynllun arloesol newydd i ddarparu unedau llety (modiwlar) ar gyfer pobl sengl sydd heb fan addas i fyw. Bydd y Cyngor yn adeiladu neu'n cydweithio gyda Chymdeithas Dai er mwyn sicrhau unedau pwrpasol.	Helpu atal digartrefedd a'r defnydd o lety dros dro drwy sicrhau llety o safon uchel am rent rhesymol sy'n rhad ei gwresogi a'i cynnal. Byddent yn cartrefu y pobl nad oes darpariaeth addas ar eu cyfer a sydd yn anodd eu lleoli.	<b>Gwedd 1</b> - £300k 4 uned. (Llywodraeth Cymru wedi cynnig nawdd)  <b>Gwedd 2</b> - £90k yr uned
2.	<b>Llety â Chefnogaeth i Bobl Ifanc</b>  <b>[Unedau Llai]</b>  <b>6-18 mis</b>  <b>*</b>	Llety 4 uned (hunan gynhaliol) pwrpasol yn ardal Dwyfor ar gyfer pobl ifanc sengl dan 25 oed.  Angen ychwanegol i gwrdd â galw ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal.	Ymateb i'r angen am ddarpariaeth ar gyfer pobl ifanc digartref yn ardal Dwyfor oherwydd diffyg adnodd o gymharu ag ardaloedd eraill. Cymorth i gynnal rhwydweithiau a chefnogaeth lleol gan alluogi pobl ifanc ddatblygu sgiliau i fyw yn annibynnol. Angen ehang am unedau ar gyfer pobl sy'n gadael gofal i roi sylfaen gadarn iddynt a'r cyfle gorau i lwyddo. Rhagweld angen am 2 uned y flwyddyn dros gyfnod y Strategaeth.	<b>Gwedd 1</b> - £280k 4 uned Dwyfor  <b>Gwedd 2</b> £70k+ yr uned



3.	<b>Hosteli 21G</b>  <b>6&gt;18mis</b>	Cynllun i godi safon darpariaeth hosteli y cyngor a thrawsnewid y ffordd o ddarparu at y dyfodol.	Gwella safon ac urddas defnyddwyr gan sicrhau llety sy'n cwrdd â disgwiliadau'r 21 ganrif. Bydd yn helpu pobl i adfer annibyniaeth drwy ddarparu cefnogaeth mewn cyfnod anodd. Mae teuluoedd sy'n defnyddio'r hosteli presennol yn gorfod rhannu ystafelloedd ymolchi ac nid yw'r ddarpariaeth yn addas ar gyfer pobl ag anableddau.	£500k ar gyfer uwchraddio ail/leoli 2 hostel (Adnodd Cynllun asedau)
4.	<b>Cronfa Atal Creadigol</b>  <b>&lt;6 mis</b> <b>*</b>	Cronfa ar gyfer ymyraethau a dulliau creadigol i ganfod llety parhaol neu i ddiogelu llety presennol a chefnogi ymdrechion "Dim Ail Noson Allan".	Bydd gofal a chefnogaeth wedi ei deilwra yn unol â'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn ac ar ddatrysiadau creadigol. Bydd pwyslais ar ymyraethau amgen fydd yn lleihau dibyniaeth ar drefniadau dros dro a hyrwyddo gweithredu mewn ffordd ddychmygol er mwyn atal digartrefedd ach gefnogi ymdrech "Dim Ail Noson Allan".	£100k y flwyddyn
5.	<b>Cynllun Achub Morgais.</b>  <b>&lt;6mis</b>	Estyniad o gynllun presennol i ganiatáu i Gymdeithas Dai brynu cyfran neu'r cyfran o eiddo person sy'n wynebu adfeddiant a cholli eiddo.	Sicrhau sefydlogrwydd i deuluoedd sy'n wynebu dadfeddiannu a cholli eiddo. Byddai'n cynnal teuluoedd o fewn cymunedau ac arbed buddsoddiad ar wasanaethau dros dro gan sicrhau bod y teulu medru parhau i fyw a thalu rhent yn ei cartref presennol.	£100,000 y flwyddyn  4 Ymyraeth pob blwyddyn

6.	<b>Hwyluswyr Atal Digartrefedd</b>  <b>&lt;6 mis</b>	Goresgyn rhwystrau sydd wedi hamlinellu o fewn y Cynllun Gweithredu y Strategaeth Digartrefedd.	Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r galw ar y gwasanaeth wedi cynyddu 36% ac angen capasiti ychwanegol i osgoi trosglwyddo costau ar drefniadau (llety) dros dro . Byddai'r adnodd yn flaenoriaethau y Strategaeth Digartref ac yn cyd-gordio gweithgareddau gyda phartneriaid mewnol ac allanol gan annog gwell defnydd o adnoddau a lleihau'r ddibyniaeth ar wely a brecwast a threfniadau tymor byr sydd wedi cynyddu gyfochr â'r galw.
7.	<b>Gweithiwr Iechyd Meddwl</b>  <b>&lt; 6 mis</b> <b>*</b>	Adnodd gweithiwr Iechyd meddwl i ganolbwyntio ar agweddau llety ac i gydweithio a'r gwasanaeth digartrefedd.	Mae gan 90% o'r bobl sy'n byw ar y stryd broblemau iechyd meddwl ac mae ystyriaethau iechyd meddwl ynghlwm â'r mwyafrif o achosion cymhleth y gwasanaeth digartref. Byddai'r adnodd yn cryfhau capasiti ac gwneud cyfraniad adeiladol at adnabod ac asesu anghenion iechyd meddwl a chyd-gordio ymatebion er mwyn atal digartrefedd.

<b>B. SICRHAU BOD POBL GWYNEDD YN CAEL CARTREF ADDAS</b>				
	<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad o syniad y cynllun</b>	<b>Budd i bobl Gwynedd</b>	<b>Amcan Gost y Cynllun</b> Buddsoddiad sydd ei angen
8.	<b>Cynllun Tai Gwag</b> <b>(a. Prynwr Tro Cyntaf)</b> <b>( b.Benthyciadau Landlordiaid )</b>  <6 mis	Esblygiad ac estyniad o'r cynllun Tai Gwag lle cynigir cymorth grant neu fenthyciad i brynwyr tro cyntaf neu landlordiaid wella safon eiddo gwag er mwyn dod â'r eiddo yn ôl i ddefnydd.	Ymdrin â dwy flaenoriaeth, sef :- - helpu brynwyr tro cyntaf i gael troedle yn y farchnad a dychwelyd eiddo gwag yn ôl i ddefnydd a gwella safon. Cynllun peilot wedi ennyn ymateb cadarnhaol gyda galw mwy na'r adnodd oedd wedi ddyrannu. Cyfle i ymestyn a chyrraedd mwy o bobl ifanc i fanteisio ar gynllun sy'n gweithio - rhoi cefnogaeth i landlordiaid yn amodol iddynt ymrwymo i gynnig eiddo o safon uchel a'i gosod ar rent fforddiadwy am gyfnod ac i dderbyn enwebiadau.	£750k y flwyddyn  20 uned prynwyr tro cyntaf gyda cost o £20k yr Uned  Hyd at £15k yr eiddo neu £5k yr uned.
9.	<b>Cynllun Adeiladu Tai Lleol (Cyngor Gwynedd)</b>  18mis> *	Cynllun i alluogi Cyngor Gwynedd i brynu neu adeiladu tai newydd oddi ar y farchnad ar gyfer eu gosod neu eu cynnig i brynwyr tro cyntaf.	Cyfle i'r Cyngor gael mwy o ddylanwad o fewn y farchnad dai ac i berchnogi neu ran berchnogi eiddo. Gall hefyd fod yn gyfle i gefnogi adeiladwyr llai na fyddai'n gallu bwrw ymlaen i adeiladu heb sicrwydd bod prynwyr ar gyfer rhai unedau, ac o bosib i gefnogi ymddiriedolaeth tai.	£150k yr uned yn cynnwys pryniant tir.
10	<b>Lleihau Treth</b>	Cynllun i gefnogi Prynwyr Tro Cyntaf sy'n adfer eiddo gwag	Bydd yn caniatáu rhoi cyfnod ostynedig o ryddhad trethi i brynwys tro cyntaf sydd yn adfer eiddo gwag. Ar hyn o bryd mawr posib rhoi cyfamswm o 6 mis. Byddwn ymestyn hwn i 12 mis.	£40K y flwyddyn i helpu hyd at 40 unigolion

11.	<b>Cynllun Blaendal Morgais Awdurdod Lleol (Prynwyr Tro 1af)</b>  <b>(Tenantiaid Cymdeithasol) 6mis&gt;18mis</b>	<p>Cynllun blaendal a fyddai'n cynnig swm rhwng 10% a 15% ar gyfer prynwyr tro cyntaf fyddai gyda blaendal o 5%.</p> <p>Bydd y cynllun hefyd ar gael i denantiaid eiddo cymdeithasol cymwys i'w cymell i rhyddhau eiddo.</p>	<p>Helpu prynwyr tro cyntaf lleol sy'n cael anhawster casglu blaendal dros 5%. Bydd yn sicrhau telerau benthyca gwell a'u galluogi i brynu tŷ mwy addas. Gall y cynllun gynnig blaendal morgais hyd at 20% i bobl sydd a 5% o flaendal i brynu tŷ gwag i gydnabod gwaith ar eiddo.</p> <p>Gan fod "hawl i brynu" eiddo cymdeithasol wedi diflannu bydd rhai tenantiaid presennol yn colli cyfle i brynu eiddo. Drwy gynnig blaendal mae posibilrwydd rhyddhau eiddo cymdeithasol i rai sydd ag angen mwy dwys</p>	£10,000 fesul uned
12.	<b>Cynllun Rhan berchnogaeth</b>  <b>&lt;6mis</b> <b>*</b>	<p>Cynllun i ddiwallu anghenion tai pobl ar incwm isel. Bydd yn caniatáu i bobl rhannu perchnogaeth eiddo gyda Cymdeithas Dai a bydd cyfle i gynyddu'r cyfran dros amser.</p>	<p>Helpu unigolion sydd yn aml yn methu cael eiddo cymdeithasol ond yn cael anhawster i gael morgais a sefydlu troedle yn y farchnad dai. Mae unigolion yn gorfod rhentu yn breifat ac yn talu lefel rhent uwch law rhent cymdeithasol.</p>	£30k yr uned i gychwyn ond modd adfer neu ailgylchu

13.	<b>Cynllun Cymorth a Benthyciadau (Cymdeithasau Tai)</b>  <b>6&gt;18mis</b> *	Grantiau a benthyciadau i Gymdeithasau Tai gynyddu nifer o dai cymdeithasol maent yn eu hadeiladau i ymateb i angen.	Buddsoddiad wedi ei dargedu at gwrdd ag anghenion unigolion mewn ardaloedd a cymunedau lle mae pwysau penodol. Bydd yn targedu cymunedau lle mae gwahaniaeth rhwng y galw a'r cyflenwad o dai gan ganolbwyntio ar unedau llai o faint.	£60k yr uned gyda chyfraniad ychwanegol gan y Gymdeithas Tai
14.	<b>Cronfa Mentro (Cyngor Gwynedd)</b>  <6mis *	Cronfa wrth gefn i hwyluso symud ymlaen â chynlluniau neu ddatblygiadau er mwyn gallu eu cyflwyno i ffynonellau allanol a chynnig sicrwydd i bartneriaid.	Byddai cronfa yn caniatáu datblygu stôr o gynlluniau a fydd yn ddigon aeddfed i'w cyflwyno ar fyr rybudd lenwi bwlch pan fo datblygiadau yn llithro, sy'n her barhaus wrth ddatblygu. Bydd cronfa wrth gefn yn helpu i flaen gynllunio ac i allu ymgeisio a manteisio i'r eithaf ar ffynonellau ariannol allanol. Ar hyn o bryd mae risgiau buddsoddi ymlaen llaw neu ymrwymo tu hwnt i'r adnodd oherwydd y perygl o golli allan os bydd datblygiadau yn llithro. Pwrpas y cronfa wrth fyddai pontio a llenwi bwlch gan sicrhau bod capasiti ac arbenigedd i ddatblygu a rheoli cynlluniau. Bydd hefyd o gymorth i wireddu a phrysuro nifer o'r cynlluniau sydd wedi hamlinellu gan gwrdd ag ymrwymadau cychwynnol.	Swm wrth gefn £500,000 i £1,000,000  £100k i £200k y flwyddyn i greu cronfa

<b>C. YMDRIN AG ANGENION IECHYD A LLESIANT POBL GWYNEDD</b>				
	<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad o syniad y cynllun</b>	<b>Budd i bobl Gwynedd</b>	<b>Cost y Cynllun</b> Buddsoddiad sydd ei angen
15.	<b>Tai Gofal Ychwanegol (Ysgafn -MK2)</b>  <b>18 mis +</b>	Esblygiad ac amrywiad o'r cynllun Tai Gofal presennol sy'n fwy addas ar gyfer gwasanaethu trefi llai.	Darparu ac ymateb i angen am gynlluniau ychwanegol mewn 4 cymuned. (Pwllheli, Dolgellau Tywyn, Blaenau). Bydd unedau byw wedi dylunio i'r un safon a maint â'r unedau gofal ychwanegol presennol ond y datblygiad yn llai gyda rhwng 15 a 25 o unedau wedi eu teilwra ar gyfer galw o fewn yr ardal. Caniateir mynediad i rai bobl iau na 55 ond ni fydd presenoldeb 24 awr. Cyfleoedd i gyd-leoli a chyd-ddarparu gwasanaeth gydag lechyd. Cost oddeutu £2m ar gyfer pob lleoliad.	£2m ar gyfer pob cynllun gyda chyfraniad o 42% gan Gymdeithas Tai a chyfle i ddenu arian grant wrth ymrwymo i fuddsoddi  Adnodd ar gyfer 1 o fewn y Cynllun Asedau
16.	<b>HWB Gofal Iechyd a Thai</b>  <b>18 mis+*</b>	Cynllun i gyfuno gwasanaethau ac adnoddau gwahanol bartneriaid er mwyn gwella safon a chryfhau cydweithio.	2 HWB dan ystyriaeth – 1 Bangor a 1 Penygroes ond cyfleoedd eraill yn bosibl. Nod o hwyluso profiad a mynediad defnyddwyr ac effeithlonrwydd y cyrff fydd wedi eu lleoli ynddynt. Bydd elfen tai a llety yn targedu grwpiau penodol gyda'r nod o gael cymunedau cefnogol. Cost yn ddibynnol ar faint a nifer y gweithgareddau sy'n cael eu cyfuno a lefel buddsoddiad partneriaid a chyfraniadau o gronfeydd allanol.	Cost i'w gadarnhau yn ddibynnol ar natur a maint y Cynllun ond angen buddsoddiad sylweddol

17.	<b>Hwb Digartref Bangor</b>  <b>18mis +</b> <b>*</b>	Datblygiad ar y cyd â Chanolfan Ffordd Abaty a Betsi Cadwaladr.	Ymgais i gasglu darparwyr a chefnogaeth at ei gilydd i sicrhau adnoddau cefnogol mewn un lleoliad. Bydd yn sicrhau unedau llety cychwynnol ac adnoddau cefnogol ar gyfer pobl digartref yn ardal Bangor.	Cost i'w gadarnhau ar sail maint y Cynllun. Ceisiadau am nawdd yn cael ei paratoi
18.	<b>Cartrefi /Unedau Byw Gofal a Iechyd .</b>  <b>6-18mis</b> <b>*</b>	Adnodd penodol i fynd i'r afael â'r prinder hanesyddol o eiddo hygyrch ar gyfer pobl ag anghenion gofal.	Drwy gynyddu a gwella mynediad at ddarpariaeth pwrpasol o ddyluniad da byddwn yn hwyluso rhyddhau unigolion o'r ysbyty ac yn lleihau risgiau wrth gynnal pobl yn ei cartrefi. Gellid hefyd cymell unigolion i gymryd mwy o reolaeth a rhyddhau eiddo a dan-berchnogir er mwyn ei ailgylchu ar gyfer teuluoedd.	£70k yr uned gyda chyfraniad gan y Cymdeithasau Tai

CH. SICRHAU BOD CARTREFI GWYNEDD YN LLESOL I'R AMGYLCHEDD				
	Teitl	Disgrifiad o syniad y cynllun	Budd i bobl Gwynedd	Cost y Cynllun
				Buddsoddiad fesul Uned
19.	<b>Cronfa Tai Arloesol</b>  <b>&lt;6 mis</b>  *	Adnodd ar gyfer creu a chymell cynlluniau tai arloesol.	Mae'r gost o ddarparu unedau arloesol yn gallu bod yn uwch ond mae cyfle i fanteisio ac arbrofi gyda thechnoleg newydd a dylunio tai o safon uchel sy'n rhad i'w cynnal a'u gwresogi. Disgwylir i gost ostwng wrth gynyddu nifer yr unedau ac mae cyfle i feithrin technoleg a sgiliau'r gweithlu yn lleol a hyrwyddo datblygiadau economaidd. Rhagwelir arbedion hefyd i drigolion o ran costau gwresogi.	Tua £90k yr uned.  Gall cost yr uned leihau ar sail nifer o unedau.
20.	<b>Ymestyn Pibell Nwy</b>  *	Ymgais i ymestyn y bibell nwy i gymunedau sydd o fewn cyrraedd	Tanygrisiau - Bydd o gymorth i wella effeithlonrwydd ynni a lleihau tlodi tanwydd. Gall fod o gymorth i unigolion mewn rhai cymunedau gael mynediad i fesuriadau eraill fel boeleri.	£800k gyda chyfle i ddenu arian ARBED gan LLC at y gost
21.	<b>Cronfa Trwsio Tai</b>	Cynllun benthyciadau i berchnogion bregus adfer a gwella cyflwr ei tai	Helpu pobl fregus i gadw a chynnal ei hannibyniaeth drwy arolygu gwelliannu hanfodol a gwaith brys i'w heiddo. Gellir adfer peth buddsoddiad yn y dyfodol pan fydd eiddo yn cael ei werthu. Estyniad o'r cynllun presennol. Gellir adhawlio elfen o'r gost i'r dyfodol.	£250k y flwyddyn



<b>D. CYNNIG GWASNAETHAU ATALIOL, DI-DOR AR LEFEL LEOL</b>				
	<b>Teitl</b>	<b>Disgrifiad o syniad y cynllun</b>	<b>Budd i bobl Gwynedd</b>	<b>Cost y Cynllun</b> Buddsoddiad sydd ei angen
22.	<b>Polisi Gosod Eiddo Cymdeithasol</b>  <b>&lt;6 mis</b> <b>*</b>	Cyflwyno Polisi Gosod yn seiliedig ar Trefn Bandio.	Wrth drosglwyddo o'r system bwyntiau bresennol a chyflwyno trefn bandio byddwn yn hwyluso a symleiddio'r broses ymgeisio. Mae'n cynnig cyfle hefyd i gryfhau y pwyslais ar gyswllt lleol a chymunedol ac ymdrin â materion eraill sydd wedi bod yn anodd.	O fewn adnoddau presennol.
23.	<b>Cynllun Tai Teg</b>  <b>(Ar waith)</b>	Helpu unigolion sy'n chwilio am eiddo fforddiadwy.	Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd trwy weithredu Cofrestr Tai Teg i bobl ifanc lleol ganfod eiddo fforddiadwy wrth ddangos yr angen a chyfeirio at ddatblygiadau tai fforddiadwy	Ymrwymiad ar y cyd â phartneriaid o fewn adnoddau presennol.
24.	<b>Cynllun Hunan Adeiladu (Llywodraeth Cymru)</b> <b>12mis+ *</b>	Cymorth i hwyluso datblygu plotiau hunan adeiladu.	Helpu unigolion i fanteisio ar gymorth i hunan adeiladu. Bydd cymorth ariannol i hwyluso datblygu plotiau a lleiniau gan oresgyn problemau o gael morgeisi. Gall y cyngor helpu cyrhaeddiad drwy adnabod tiroedd posibl ar gyfer datblygiadau o'r fath.	Adnoddau LI Cymru.  Cymorth i hwyluso a rhyddhau tir l'w lansio.

25.	<b>Hwylusydd Tai Gwledig</b>  <b>Ar waith</b>	Cymorth i hwyluso datblygiadau llai mewn ardaloedd gwledig a mynd i'r afael â'r anhawster o ddatblygu cynlluniau mewn cymunedau llai	Adnabod lleoliadau addas ar gyfer datblygu a chynnal arolygon cymunedol i fesur maint a math o alw sy'n bodoli fel bod datblygiadau yn cyfateb i'r angen ac yn gynaliadwy.	O fewn adnoddau presennol.
26.	<b>Capasiti OT</b>  <b>&gt;6 mis</b>  *	Adnodd OT i gyflymu a hwyluso datblygiadau tai	Hwyluso gwaith addasu adnodd amserol wedi lleoli neu secondio i'r Uned Grantiau. Byddai yn hwyluso a chyflymu'r broses o gwblhau addasiadau yn arbennig addasiadau DFG gan byddai modd blaenoriaethu gwaith a chydweithio.	£45k y flwyddyn.

Bydd amserlen ar gyfer gwireddu cynlluniau yn wahanol rhwng fesul cynllun.

\* Dynodi cynlluniau a rhaglenni newydd sydd heb eu gweithredu o'r blaen yng Ngwynedd.

## ATODIAD C – Amlinelliad o gronfeydd ariannol tebygol a fydd yn cefnogi'r Strategaeth.

Tud. 83

Buddsoddiadau yn y Maes Tai (2019-24)	Blynyddol (£m)	5 Mlynedd (£m)
Cynllun Asedau – Cyngor Gwynedd (Cynllunio i'w cadarnhau)	1.3	6.5
D.FG – Cyngor Gwynedd (Rhan o'r Cynllun Asedau)	1.3	6.5
Treth Ail Gartrefi – Cyngor Gwynedd (Arian i'w gasglu drwy trethi)	1.7	8.5
Treth Tai Gwag – Cyngor Gwynedd (Arian i'w gasglu drwy trethi)	1.0	5.0
<b>Is Gyfanswm</b>	<b>5.3</b>	<b>£26.5</b>
PDP – Llywodraeth Cymru (Rhagamcan)	2.2	11.0
Grantiau Eraill – Llywodraeth Cymru (Potensial i ddenu arian ychwanegol o gynlluniau)	1.0	5.0
<b>Is Gyfanswm</b>	<b>3.2</b>	<b>£16.0</b>
Cyfraniadau gan Gymdeithasau Tai - (42% at rai cynlluniau)	2.0	10.0
Cyfraniadau Preifat (Arian Preifat Ychwanegol a neu arian y gellid ei ailgylchu)	0.5	2.5
<b>Is Gyfanswm</b>	<b>2.5</b>	<b>12.5</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>£11m</b>	<b>£55m</b>

**CYMHARIAETH GYDA STRATEGAETH TAI 2013-2018**

<b>Buddsoddiadau Tai Presennol 2013-18</b>	<b>Blynyddol (£m)</b>	<b>5 Mlynedd (£m)</b>
Cynllun Asedau – Cyngor Gwynedd	1.0	5.0
DFG – Cyngor Gwynedd	1.0	5.0
PDP – Grant Llywodraeth Cymru	2.2	11.0
<b>Cyfanswm</b>	<b>£4.2</b>	<b>£21.0</b>

**DISGRIFIAD O'R CYNLLUNIAU A'R CRONFEYDD**

<b>Ffynhonnell</b>	<b>Teitl y Gronfa</b>	<b>Swm £</b>	<b>Disgrifiad</b>
Cyngor Gwynedd	Cyfalaf - Tai DFG Cynllun Asedau	£1.3m	Gwariant statudol ar addasiadau i bobl anabl. Grant Cyfleusterau Anabl a Grant Addasiadau Bach (Rhaglen Gyfalaf)
Cyngor Gwynedd	Cyfalaf Trawsfurfio <b>Cynllun Asedau</b>	£ 1.3	Mae'r cyswllt rhwng Tai a Gofal yn golygu bod datrysiadau Gofal a lechyd yn aml ynghlwm. Mae ceisiadau Tai a Gofal dan ystyriaeth ar gyfer 4 lleoliad gwahanol gan cychwyn gyda Safle Frondeg, Pwllheli.
Cyngor Gwynedd	Treth Ail Gartrefi a Threth Eiddo Gwag	£ 2.7m	Mae'r Cyngor wedi gosod ardoll ychwanegol o 50% ar y Dreth Gyngor a eiddo hir dymor. Mae derbyniadau treth yn arian i'w ail-fuddsoddi i gefnogi blaenoriaethau Strategol yn y Maes Tai.

Tud. 84

Llywodraeth Cymru	PDP Rhaglen Ddatblygu Eiddo Cymdeithasol	£2.2m	Mae Cyngor yn gweinyddu dyraniad ariannol blynyddol i'r Cymdeithasau Tai adeiladu eiddo Cymdeithasol. Mae cyfanswm y dyraniad yn amrywio yn flynyddol ond mae'n cynnwys swm gwaelodol o £2.2m ar gyfer Gwynedd. Mae cyfleoedd ychwanegol i ddenu arian llithriad ond i allu manteisio rhaid cael cynlluniau aeddfed wrth gefn (fel rheol bydd angen perchnogi tir a chaniatâd cynllunio llawn) ellid ei gweithredu o fewn amserlen
Ll. Cymru Grantiau	Cronfa ICF	I'w gadarnhau	Rhagwelir y bydd cyfleoedd i ddenu arian o gronfa gyfalaf Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiadau ar y cyd ag lechyd.
Ll. Cymru Grantiau	Cronfa Tai Arloesol	£300k	Cronfa ar gyfer datblygu cynlluniau tai arloesol a mentrau tai newydd. Rhaid fydd adnabod arian cyfatebol i wireddu cynlluniau o'r fath, rhwng 30% a 58% yn ddibynol ar natur y cynllun.
Ll. Cymru Grantiau	TRIP	£1.5m	Cronfa adfywio tai wedi dargedu at ardaloedd penodol (Bangor). Mae'n cynnwys elfen o ddarpariaeth tai ond yn ddibynol ar ddenu arian cyfatebol o gronfeydd eraill (preifat +cyngor).
Cym Tai	Cyfraniadau Cymdeithasau Tai	£2m +	Gall Cymdeithasau Tai fenthycu arian preifat ychwanegol i wireddu datblygiadau tai ond byddant fel rheol angen cymorth (ymrwymiad ariannol, tir neu gyfuniad o dir ac arian) i wireddu cynlluniau. Am bob £1 o gymhorthdal grant byddent yn gallu benthycu 72c ychwanegol (42%) i'w fuddsoddi. Os bydd lefel buddsoddiad y Cyngor yn cynyddu gellir manteisio i'r eithaf ar gyfraniadau'r Cymdeithasau Tai.
lechyd	Cynlluniau lechyd	I'w gadarnhau	Mae cyfleoedd yn dod i'r amlwg i ddenu cymorth ychwanegol drwy gydweithio gydag lechyd (refeniw a chyfalaf) yn arbennig pe gellid cyfuno datblygiadau a gwasanaethau ar un safle.
Cyngor Gwynedd	Benthyciadau Darbodus	£ i'w drafod	Mae potensial i gynnig benthyciadau tai ar gyfradd llog is i'r Cymdeithasau Tai fyddai yn rhatach na'r benthyciadau preifat presennol ac yn caniatáu iddynt bryuro a chynyddu rhaglenni.

Cyngor Gwynedd	Buddsoddiad Pensiynau	£ i'w drafod	Cyfleoedd i gyfeirio cyfran o fuddsoddiadau Gronfa Bensiwn y Cyngor i gefnogi datblygiadau Tai. Mae rhai Cronfeydd yn rhoi benthyg arian i Gymdeithasau i gefnogi datblygiadau a hynny ar gyfrannau llog is na'r hyn sydd ar gael i Gymdeithasau Tai ar y farchnad breifat gan helpu i wireddu rhagor o gynlluniau .
-------------------	--------------------------	-----------------	--

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

Gweler y daflen *Sut i Wneud Asesiad Effaith Cydraddoldeb* am gymorth i lenwi'r ffurflen yma. Mae croeso hefyd i chi gysylltu gyda Delyth Williams, Swyddog Polisi a Chydraddoldeb ar, est 32708, neu [DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru](mailto:DelythGadlysWilliams@gwynedd.llyw.cymru), am gymorth pellach

## I Manylion

### I.1 Beth yw enw'r strategaeth dan sylw?

Strategaeth Tai Gwynedd 2019-2024

### I.2 Beth ydi pwrpas y strategaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?

Mae Strategaeth Tai Gwynedd yn gosod uchelgais hir dymor, yn ogystal a blaenoriaethau clir ar gyfer yr angen am dai yng Ngwynedd dros y 5 mlynedd nesaf.

Bwriad y Strategaeth yw gosod fframwaith i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ar gyfer darparu cartrefi i bobl Gwynedd a gwneud y defnydd gorau o arian prin i wella darpariaeth a chefnogaeth tai ar draws y Sir.

### I.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?

Aled Humphreys  
Rheolwr Tai Strategol  
Oedolion, Iechyd a Llesiant

### I.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?

22.03.19

Fersiwn 0.01

## 2) Gweithredu

### 2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?

Cafodd y strategaeth ei lunio gyda mewnbwn gan reolwyr y Gwasanaeth Tai, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, y Cyfarwyddwr Corfforaethol a'r Aelod Cabinet.

### 2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?

Rhodddwyd gyfleoedd rheolaidd i reolwyr perthnasol gynnig sylwadau ar y strategaeth wrth iddo gael ei lunio.

Cafodd y strategaeth hefyd ei ddylanwadau gan ganlyniadau ymgysylltiadau blaenorol, megis Aseiad Llesiant Lleol Gwynedd, a'r gwaith a wnaed wrth lunio strategaeth Cefnogi Pobl a Digartrefedd Rhanbarthol.

### 2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?

Rhodddwyd gyfle i'r Bartneriaeth Tai (sy'n cynrychioli prif bydd-ddeiliaid y wasanaeth) fynegi sylwadau ar fersiwn cryno, a derbyniwyd sylwadau cafodd eu cyfarch yn y brif ddogfen

Mae prif canlyniadau'r ymgysylltu yn rhoi darlun i ni o'r sefyllfa gyfredol yng Ngwynedd, ac felly yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyfarch. Rhoddir darlun clir o hyn ym mhennawd Yr Her yn y strategaeth, sydd wedyn yn arwain i'n Huchelgais er mwyn eu cyfarch.

Ymysg eraill, mae'r prif negeseuon yn cynnwys prinder eiddo i bobl sengl dan 35, y twf mewn poblogaeth dros 80, dod a tai yn ôl i ddefnydd, cyflenwad, fforddiadwyedd a digartrefedd.

### 2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?

Cynhaliwyd Aseiad Marchnad Tai Lleol (AMTLI) manwl oedd yn cyflawni asesiad ar sail tystiolaeth gadarn, o natur a lefel y galw am dai yng Ngwynedd. Roedd yr AMTLI yn asesu'r angen cyfredol am dai, ac i'r dyfodol. Drwy wneud hyn allan, roedd posib adnabod pa daliadaeth o eiddo sydd yn bresennol ar draws y sir, a pa daliadaethau dylid bwysleisio i'w datblygu i'r dyfodol.

### 2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?

Mae fersiwn drafft o'r strategaeth ar gael ei gyhoeddi, a caiff ei hadolygu wedi hyn.



### 3) Adnabod yr Effaith

3.1 Beth yw'r effaith fydd y strategaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r effaith fydd unrhyw newidiadau'n ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb.

Nodweddion	Sut fath o effaith?	Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?
<b>Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)</b>	Positif	<p>Mae'r Cyngor yn cyfarch anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn unol a Rhan 3 o Ddeddfwriaeth Tai (Cymru) 2014</p> <p>Mae'r Cyngor eisoes wedi ymrwymo i dderbyn cyfanswm o 40 o ffoaduriaid o Syria a'u cefnogi a'u sefydlu mewn modd ble gallent gyfrannu i'r gymuned.</p> <p>Gall y Cyngor darparu gwybodaeth berthnasol mewn amryw o ieithoedd.</p>
<b>Yr iaith Gymraeg</b>	Positif	Bydd y Strategaeth yn cyd-fynd hefo polisi'r iaith Gymraeg
<b>Anabledd</b>	Positif	Bydd pob eiddo cymdeithasol adeiladwyd o'r newydd gan Gymdeithasau Tai yn cydymffurfio gyda Gofynion Ansawdd Datblygu, sydd yn ymdrin â safonau mewn perthynas a gofod, hygyrchedd, defnyddio ynni'n effeithlon a diogelwch. Gall hyn gyfarch anghenion ieuchyd meddwl, anabledd dysgu a chyflyrau corfforol.
<b>Rhyw</b>	Positif	Mae canran uchel o'r restr aros yn ddynion sengl o dan 35 oed. Mae pwyslais uwch ar ddatblygu unedau maint llai (o ran niferoedd stafell gwely) er mwyn cyfarch yr angen yma.
<b>Oedran</b>	Positif	<p>Mae'n her nad yw pobl ifanc yn gallu cael mynediad i'r farchnad dai, ac hefyd yn her sylweddol bod disgwyl cynnydd yn yr oedran dros 80 oed.</p> <p>Bydd y strategaeth yn edrych i gyfarch yr her hyn drwy hyrwyddo gwahanol fathau o ffyrdd gall pobl ifanc ddod o hyd i gartref fforddiadwy, a hefyd drwy adeiladu mwy o unedau gofal ychwanegol.</p>
<b>Beichiogrwydd a mamolaeth</b>	Amherthnasol	
<b>Cyfeiriadedd rhywiol</b>	Amherthnasol	
<b>Crefydd neu</b>	Amherthnasol	

<b>gred (neu ddiffyg cred)</b>		
<b>Ailbennu rhywedd</b>	Amherthnasol	
<b>Priodas a phartneriaeth sifil</b>	Amherthnasol	Nid yw hyn yn ffactor sy'n cael ei ystyried o fewn y strategaeth – nid oes gwahaniaethu rhwng parau priod a parau di-briod.

### 3.2 Ydi'r strategaeth yn cael effaith ar eu Dyletswyddau Cyffredinol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010? Mae'n rhaid i'r Cyngor roi sylw dyledus i'r ffordd mae unrhyw newid yn effeithio'r dyletswyddau yma.

<b>Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb</b>	<b>A yw'n cael effaith? (Dylid dileu'r rhai amherthnasol)</b>	<b>Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?</b>
<b>Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth</b>	Ydi	Nid yw'r strategaeth yn camwahaniaethu rhwng gwahanol nodweddion. Bwriad y strategaeth yw gosod cyfeiriad i ddarparu amrediad eang o dai i Bobl Gwynedd sydd yn cyfarch ystod o wahanol anghenion.
<b>Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal</b>	Ydi	Mae'r strategaeth yn adnabod yr angen i helpu ystod eang o bobl sydd yn â gwahanol anghenion, ac i gynnig cefnogaeth yn ôl eu hangen. Mae hefyd yn adnabod grwpiau bregus sydd angen cefnogaeth, ac yn anelu i roi sylw perthnasol iddynt hwy.
<b>Meithrin perthnasau da</b>	Ydi	Mae'r Strategaeth yn rhoi ffafriaeth i bobl lleol, fel eu bod yn gallu aros yn eu hardal a chadw eu cysylltiadau. Mae'n cymryd camau i gynnwys pobl anabl yn y gymuned.

#### 4) Dadansoddi'r canlyniadau

##### 4.1 Ydi'r strategaeth felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?

Bydd y strategaeth yn anelu i sicrhau fod ystyriaeth benodol yn cael ei roi i sicrhau bod gofal pobl hyn yn derbyn sylw, bod cyfleoedd teg yn cael eu rhoi i bawb, ac ein bod yn annog a chefnogi datblygiadau sy'n cyd-fynd a safonau penodol y Llywodraeth (er mwyn sicrhau y gellir eu haddasu i gyfarch anghenion petai angen).

**4.2 Ydi'r strategaeth felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

Ni fydd y strategaeth yn cael effaith negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion.

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewisiwch un o'r canlynol:

Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn	X
Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau	
Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr	
Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol	

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effeithiau negyddol ond byddwn yn monitro (gweler isod) ac yn ymdrin hefo unrhyw effeithiau negyddol allai godi.

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

Amherthnasol

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n gymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

Mae'r strategaeth ar fin mynd allan i ymgysylltu a caiff ei hadolygu wedi hyn.

Bydd angen cadw'r strategaeth yn fyw er mwyn gallu ymateb i newid ac addasu i anghenion sy'n amlygu. Byddwn hefyd yn effro i unrhyw gyfleoedd ychwanegol fydd yn codi all helpu gwireddu amcanion.

### ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	16ain o Orffennaf 2019
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cyngorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Datblygu'r Economi
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol
<b>Rhif Ffôn Cyswllt:</b>	01286 679685
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad Datblygu'r Economi

---

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddarau ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Datblygu'r Economi. Mae hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yng Nghynllun y Cyngor; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.
- 1.2 Rydym erbyn hyn yn gweithredu ar Gynllun y Cyngor 2018-23, yma rwyf yn adrodd ar y cynnydd ers mis Ebrill hyd at ddiwedd Mehefin 2019.
- 1.3 Dros y misoedd diwethaf, mae'r pwyslais wedi bod ar weithredu'r prosiectau sy'n rhan o Gynllun y Cyngor 2018-23. Ar y cyfan, rwyf yn hapus gyda pherfformiad y mwyafrif o brosiectau, gyda phob un ar y trywydd cywir. Byddaf yn ymhelaethu ar y cynnydd yn yr adroddiad, gan gyfeirio at enghreifftiau o ymarfer da.

#### 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

#### 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

- 3.1 Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

#### 4. PROSIECTAU CYNLLUN Y CYNGOR

##### 4.1 Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru

- 4.1.1 ***Mae'r gwaith o fewn y prosiect yn cynnwys bod yn aelod blaengar o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, gan sicrhau fod Gwynedd yn elwa'n deg o'r buddsoddiad ddaw i ranbarth Gogledd Cymru.***

# CYNGOR GWYNEDD

- 4.1.2 Rydw i yn falch iawn fod ein Arweinydd y Cynghorydd Dyfrig Siencyn bellach yn Gadeirydd ar Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.
- 4.1.3 Mae'r adran yn parhau i arwain ar gynllun Isadeiledd Trawsfynydd, gyda Achos Busnes Amlinellol wedi gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'r DU. Rydym yn parhau i ymateb i adborth y sector breifat a Llywodraethau, ynghyd a gweithio'n rhagweithiol gyda rhan ddeiliad i ddatblygu'r cynnig.
- 4.2 **Creu Swyddi Gwerth Uchel (Cyflog £26,500 neu fwy)**
- 4.2.1 ***Bydd y prosiect yma yn edrych i dargedu'r sectorau sy'n talu'n dda trwy greu amgylchedd sy'n cefnogi busnesau newydd a thyfu busnesau presennol, a sicrhau fod y gweithlu lleol yn gallu manteisio ar y cyfleoedd sy'n bodoli. Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar ddenu buddsoddiad mewn safleoedd strategol megis Atomfa Trawsfynydd, Maes Awyr Llanbedr a Pharc Bryn Cegin/Parc Menai.***
- 4.2.2 Mae'r gwaith yn parhau i ddenu datblygiad newydd i safle Trawsfynydd, rydym yn cydweithio gyda Llywodraeth Cymru i sefydlu endid ddatblygu pwrpasol ar gyfer y Safle i symud gweithgareddau ymlaen.
- 4.2.3 Rydym yn y broses o gytundebu gyda Canolfan Awyrfod Eryri i alluogi gweithredu rhaglen o welliannau i adeiladau ar y safle. Mae gwaith yn parhau gyda Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i sicrhau Caniatâd Cynllunio ar gyfer gwella'r mynediad i'r safle, a thrwy hynny ddenu nawdd i adeiladu ffordd osgoi i bentref Llanbedr.
- 4.2.4 Unwaith eto eleni, braf oedd gweld plant lleol yn cael eu croesawu i Ganolfan Awyrfod Eryri, Llanbedr fel rhan o gystadleuaeth rhyngwladol Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol (IMechE). Bu 80 o ddisgyblion cynradd ac uwchradd o ysgolion Meirionydd yno; cawsant gyfle i siarad gyda chystadleuwyr o brifysgolion ar draws y byd, ynghyd â chyfle i adeiladu llongau awyr, hedfan awyrennau model, hedfan awyren rhithwir ac yn y blaen.
- 4.2.5 Rydym yn derbyn adborth fod nifer o fusnesau yn parhau i wynebu rhwystrau rhag tyfu, yn bennaf oherwydd yr ansicrwydd o gwmpas Brexit, a diffyg gofod busnes o faint digonol.
- 4.2.6 Rydym yn arwain ar brosiect STEM Gogledd, erbyn hyn mae'r fîm llawn mewn lle a gwaith ymgysylltu gyda buddiolwyr wedi cychwyn. Edrychaf ymlaen i adrodd ar gynnydd y prosiect, a llwyddiannau y disgyblion 11-19 oed sydd yn cael cymorth drwy'r prosiect.
- 4.3 **Rhaglen Arloesi Gwynedd Wledig**
- 4.3.1 **Pwrpas y rhaglen yma yw adeiladu ar y gwaith da sydd eisoes wedi ei wneud i drawsnewid yr economi wledig trwy annog arloesedd o fewn sectorau**

# CYNGOR GWYNEDD

**traddodiadol (megis amaeth a thwristiaeth) ynghyd a gwella isadeiledd ddigidol cymunedau gwledig.**

4.3.2 Mae gwaith yn parhau gyda nifer o ddatblygiadau arloesol cyffrous ar y gweill ar draws y Sir. Mae 37 o gynlluniau peilot wedi ei cwblhau gan Arloesi Gwynedd Wledig, gyda bron i 300 o weithgareddau hyrwyddo / rhannu gwybodaeth wedi eu cynnal gan ddod i gyswllt gyda 4,500 o drigolion Gwynedd. Mae rhai o'r uchafbwyntiau diweddar yn cynnwys (gellir gweld llw o enghreifftiau eraill o waith Arloesi ar y we):

- cwblhau y cynllun amser i fentro;
- recriwtio cymunedau i dreialu'r defnydd o geir cymunedol trydan;
- ymchwilio i ddarparu wi-fi o amgylch Y Wyddfa;
- gosod peiriant fendio cynnyrch lleol a peilota gweithgaredd i fywiocau strydoedd siopa.

4.3.3 Rydw i yn falch o weld rhai o'r treialon Leader yn cael ei datblygu'n bellach. Yn dilyn gwaith cychwynnol i godi ymwybyddiaeth o botensial Rhyngwlad y Pethe yng Ngwynedd, mae ymgyrch sylweddol wedi lansio ar draws Gwynedd a Môn o dan y faner "Blwyddyn o RhyP" fydd yn parhau gyda'r gwaith ac yn rhoi proffil cenedlaethol yn y maes i'r ardal.

4.3.4 Mae Cyngor Gwynedd yn arwain ar raglen Arfor, mae'r strwythurau lleol ar gyfer arwain a rheoli y cynllun wedi sefydlu, a 5 cynllun wedi adnabod, bydd manylion pellach ar rhain yn cael ei cyflwyno i'r Cabinet mewn adroddiad ar wahân.

## 4.4 Cynyddu Budd Digwyddiadau Mawrion

4.4.1 ***Pwrpas y prosiect hwn yw denu digwyddiadau proffil uchel i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn.***

4.4.2 Mae ymateb da wedi bod i'r alwad agored ar gyfer digwyddiadau tymor 2019/20. Yn ystod chwarter 1 mae 1 digwyddiad wedi llwyddo i uchafu budd economaidd lleol o £200,428.

## 4.5 Hybu Canol Tref

4.5.1 ***Pwrpas y prosiect yw cefnogi a hwyluso adfywio canol trefi er mwyn iddynt gynnal ystod o wasanaethau i drigolion lleol ac ymwelwyr o fewn amgylchedd fywiog â naws Gymreig.***

4.5.2 Mae ardrawiad buddsoddiadau cyfalaf gwerth £15m adfywio Glannau Caernarfon yn dod fwyfwy amlwg yn y dref. I ddyddiad mae cynllun Glannau Caernarfon wedi creu 29.5 swydd.

4.5.3 Mae gwaith adeiladu Cei Llechi yn parhau gyda disgwyl i gwblhau erbyn Chwefror 2020. Braff oedd gweld Gorsaf Rheilffordd Ffestiniog ar Ucheldir yn

# CYNGOR GWYNEDD

cael ei agor yn swyddogol ar y 14eg o Fehefin, gyda'r Arglwydd Dafydd Ellis-Thomas yn rhan o'r agoriad.

- 4.5.4 Mae'r buddsoddiad cychwynnol i sefydlu yr ardal Gwella Busnes (HWB Caernarfon) wedi arwain at wella eiddo, sefydlu rhwydwaith WiFi am ddim, yr ambaréls lliwgar ar Stryd y Plas (fel rhan o un o dreialon Arloesi Gwynedd Wledig), cynlluniau celf a thrafodaethau i agor y Ganolfan Groeso. Mae gwaith ar droed rhwng yr holl bartneriaid i ddatblygu pecyn marchnata i Gaernarfon, i agor marchnadoedd newydd ac i ymestyn y tymor.
- 4.5.5 Rydym wedi sicrhau fod Bangor yn flaenoriaeth adfywio i'r Gogledd, os y cofiwch Bangor oedd yr unig gyrchfan yng Ngwynedd oedd yn gymwys. Rydym wedi cael cefnogaeth mewn egwyddor gan y Cabinet i becyn o gynlluniau arfaethedig sydd wedi eu blaenoriaethu gan y Bartneriaeth. Mae cronfa Buddsoddi mewn Eiddo (£2.16m) wedi ei sefydlu gan weld cryn dipyn o ddiddordeb yn y misoedd cychwynnol.
- 4.5.6 Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i gynnig cefnogaeth i'r Ardal Gwella Busnes ym Mangor, ond rwyf yn gynyddol ymwybodol o'r gofyn sydd ar y gymuned fusnes o ran rheoli ac arwain y drefn Ardaloedd Gwella.
- 4.5.7 Rydw i yn falch o adrodd fod cais am gyllideb o £2m ar draws y Gogledd wedi ei gymeradwyo i weithredu cynllun Adeiladau Pwysig (Cronfa TRI Llywodraeth Cymru), mae'r ardaloedd y cynllun yng Ngwynedd wedi ei cyfyngu i Fangor a Caernarfon fel man cychwyn, bydd gwaith yn cychwyn i adnabod eiddo a thrafod efo perchnogion er mwyn manteisio ar y cyfle.
- 4.5.8 Mae'r Adran hefyd yn gyrru ymlaen gyda'r gwaith o sefydlu Bwrdd Adfywio corfforaethol ac gyda hyn byddwn yn gyrru ymlaen i ymchwilio ymhellach i sut allwn gefnogi bywiogi canol ystod ehangach o drefi Gwynedd.

## 4.6 Rhoi Treftadaeth Llechi Gwynedd ar waith

- 4.6.1 ***Pwrpas y prosiect yw gwireddu rhaglen o weithgareddau adfywio yn ardaloedd y llechi, a pharau i weithio i sicrhau statws Safle Treftadaeth y Byd i'r diwydiant llechi yng Ngwynedd.***
- 4.6.2 Rydym wedi cytuno ar amserlen gyda DCMS ar gyfer cyflwyno enwebiad Llechi Gwynedd i UNESCO yn mis Tachwedd 2019, gyda'r penderfyniad yn cael ei gyhoeddi yn Mis Gorffennaf 2021. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn mis Hydref er mwyn cytuno ar y cynllun.
- 4.6.3 Mae rhaglen o weithgareddau cymunedol ar waith yn cynnwys cynllun llysgenhadon ifanc sydd yn cael ei redeg mewn partneriaeth efo Amgueddfa Lechi Cymru. Mae 14 o Lysgenhadon Ifanc wedi penodi fel rhan o gynllun LleCHI ar draws Gwynedd rhwng 12 a 18 oed.

## 4.7 Elwa o Dwristiaeth

# CYNGOR GWYNEDD

4.7.1 ***Pwrpas y prosiect yma yw edrych ar y posibilrwydd o gael ymwelwyr i gyfrannu'n ariannol at gynnal a gwella cyrchfannau Gwynedd a chodi safonau'r sector twristiaeth. Drwy wneud hyn, byddwn yn gwella darpariaeth cyrchfannau'r sir ynghyd a chynyddu safon darpariaeth y diwydiant ymwelwyr.***

4.7.2 Cafodd arbenigwr ei gomisiynu i graffu'r maes ac adrodd ar fodolau posibl i symud ymlaen a'r strwythurau gweithredu angenrheidiol. Mae adroddiad drafft ar yr opsiynau wedi cyflwyno i'r Bwrdd Prosiect, a dyma fydd sail adroddiad i'r Cabinet yn y dyfodol.

## 4.8 **Busnesau sy'n cael cymorth i ffynnu**

4.8.1 ***Pwrpas y prosiect yw sicrhau dull gweithredu yn y Cyngor sy'n rhoi anghenion busnesau yn ganolog ac yn ceisio lleihau rhwystrau iddynt sefydlu a thyfu yn y sir.***

4.8.2 Dwi'n falch o adrodd fod cyfarfod cychwynol o'r Bwrdd Prosiect wedi ei drefnu i symud y prosiect hwn ymlaen gan drafod a chytuno ar friff a cynllun prosiect.

## 4.9 **Mwy o drigolion Gwynedd yn chwarae rhan lawn yn y byd gwaith**

4.9.1 ***Pwrpas y prosiect yma yw canolbwyntio ar gyfres o weithgareddau fydd yn annog trigolion Gwynedd gyfan i mewn i fyd gwaith.***

4.9.2 Mae'r pecyn cyflogaeth Gwaith Gwynedd yn parhau i gefnogi unigolion i oresgyn rhwystrau i waith. Hyd yma mae 261 o unigolion wedi derbyn cymhwyster/achrediad sydd y berthnasol i waith ac 105 wedi symud i mewn i waith.

4.9.3 Fel rhan o'r prosiect mae gwaith i gydweithio gyda cyflogwyr ac gwasanaethau o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau fod y rhaglen yn cyfarch anghenion, yn dilyn trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Darparu mae llyfryn Gyrrfa Gofal wedi'i ddatblygu, gobeithio bydd dilyniant i hyn gyda pecyn hyfforddiant.

## 5. **MESUR PERFFORMIAD**

5.1 Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio.

5.2 Er fod yn fuan yn y flwyddyn, rwyf yn gyfforddus bod yr adran ar y trywydd cywir o ran mesurau perfformiad.



# CYNGOR GWYNEDD

5.3 Mae'r adran yn casglu mesurau maes (lle mae mwy nag un gwasanaeth yn bwydo i'r mesurydd) a mesurau fesul gwasanaethau.

## 5.4 Mesurau Maes

5.4.1 Busnesau yn derbyn cymorth – Yn ystod chwarter 1 mae 75 o fusnesau wedi derbyn cymorth gan yr Adran, gyda 59% (44) o rheiny yn deillio o weithgaredd Twristiaeth a Marchnata.

5.4.2 Swyddi Gwerth Uchel wedi creu – Yn ystod ch1 mae 5 swydd gwerth uchel wedi creu gan gwmni Smart Storm ym Mharc Menai.

## 5.5 Mesurau Gwasanaeth

5.5.1 Mae rhan helaeth o adnoddau'r **Gwasanaeth Rhaglenni Datblygu Economaidd** yn cael eu cyfeirio at weithredu prosiectau cynllun y Cyngor, gyda sylw hefyd yn cael ei roi i faterion strategol sy'n gysylltiedig a'u cyflawni megis gwella cysylltedd yn y sir neu all fod yn risg i gyflawni'r blaenoriaethau megis Brexit a'r ansicrwydd am arian DE i'r dyfodol.

5.5.2 Mae'r **Gwasanaeth Cefnogi Busnes** yn darparu gwybodaeth, Cyngor a chefnogaeth i fusnesau er mwyn iddynt sefydlu, bod yn gystadleuol a datblygu yng Ngwynedd. Mae'r gwasanaeth yn gyfrifol am weithredu, rheoli a hyrwyddo cronfeydd benthyciadau megis Cronfa Benthyciadau Canol Tref Gaernarfon a Chronfa Ardal Bangor.

5.5.3 Unwaith eto eleni cynhaliwyd Wythnos Busnes Gwynedd yn ystod mis Mai 2019, gyda amryw o ddigwyddiadau busnes yn cael eu trefnu yn ogystal â seremoni gwobrau busnes. Braff oedd gweld adborth gadarnhaol a positif iawn i'r holl ddigwyddiadau.

5.5.4 Un o flaenoriaethau lleol y Cynllun y Cyngor yw i hyrwyddo ac adfywio'r Stryd Fawr yn Dyffryn Ogwen a Dyffryn Nantlle, mae Cronfa Benthyciadau Di-log yn weithredol ym Methesda a Penygroes.

5.5.5 Mae'r mesurydd '**Ymholiadau busnes a weithredir arnynt**' yn dangos bod nifer yr ymholiadau busnes wedi gostwng (26 yn chwarter 1) wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd diffyg cynlluniau ariannol. Mae ymgyrch marchnata i godi ymwybyddiaeth o'r Cronfeydd Benthyciadau Canol Trefi a hefyd cynllun grant newydd Canol Dinas Bangor a'r Pecyn Cymorth i Fentro fydd yn rhan o ddarpariaeth y Rhaglen Arfor yng Ngwynedd.

5.5.6 Mae mesurydd '**Gofod diwydiannol/ menter y Cyngor sy'n llawn**' yn amlygu fod 94% o'n hunedau diwydiannol yn llawn. Mae hyn yn ostyngiad i'r chwarter blaenorol, ond mae gwaith marchnata ar y gweill i geisio gosod yr unedau gwag.

# CYNGOR GWYNEDD

- 5.5.7 Pwrpas y **Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Digwyddiadau** yw uchafu budd a gwerth i economi Gwynedd i ymwelwyr. Mae gwefan newydd Eryri Mynyddoedd a Môr ([www.ymweldaeryri.info](http://www.ymweldaeryri.info)) bellach yn fyw, eisoes rydym wedi gweld cynnydd yn nifer yr ymweliadau o 9.9% yn ystod chwarter 1.
- 5.5.8 Llwyddwyd i ddenu nawdd o Gronfa Ymgysylltu Twristiaeth Rhanbarthol (CYTR) Croeso Cymru i ariannu dau brosiect sef hyrwyddo'r ardal allan o dymor sef Ffordd yr Arfordir ar y cyd gyda Chynghorau Penfro a Cheredigion a'r llall Ffordd y Gogledd ar y cyd gyda Chynghorau Lleol Gogledd Cymru.
- 5.5.9 Pwrpas y **Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig** yw sicrhau adnoddau diogel o ansawdd yn ein parciau gwledig, ein harbyrau, ein marinas ac ar draethau Gwynedd er mwyn creu atyniadau hamdden i bobl leol ac ymwelwyr.
- 5.5.10 Mae gwaith yn parhau ar reolaeth yr Hadan Pwllheli, bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet maes o law.
- 5.5.11 Rydw i yn awyddus i weld blaen gynllunio o fewn y Gwasanaeth Morwrol er mwyn cael mwy o bobl ifanc i mewn i'r maes, rydw i yn gweld cyfle i ymchwilio i gyfleon megis prentisiaethau. Bydd Adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar y mater pan yn amserol.
- 5.5.12 Mae'n siomedig i adrodd mai dim ond 6 traeth baner Las Rhyngwladol sydd yng Ngwynedd bellach, gan i Aberdaron a Tywyn golli ei baner oherwydd nad ydi ansawdd dŵr ymdrochi wedi cyrraedd y safon angenrheidiol yn 2018.
- 5.5.13 Pwrpas y **Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth** yw sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddysgu ac ennill sgiliau, darllen a mwynhau. Mae'n galonogol iawn fod 99% o ddefnyddwyr yn fodlon gyda'r gwasanaeth a dderbynnir.
- 5.5.14 Mae cwmni wedi ei benodi er mwyn cwblhau'r gwaith o adnewyddu silffoedd Storfa Llyfrgell Caernarfon, anelir i gwblhau'r gwaith cyn diwedd Tachwedd 2019.
- 5.5.15 Yn dilyn cais llwyddiannus am grant Trawsffurfio Llyfrgelloedd trwy MALD am £120,000, bydd gwaith yn cael ei wneud i wella cyfleusterau ac adnoddau Llyfrgell Pwllheli.
- 5.5.16 Cynhaliwyd Clwb Codio i Blant yn Llyfrgell Pwllheli mewn cydweithrediad gyda Choleg Meirion Dwyfor, lle gwirfoddolodd nifer o fyfyrwyr y coleg i gefnogi plant gyda'u sgiliau codio.
- 5.5.17 Mae'r **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau** yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar gasgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef: Storiol ac Amgueddfa Lloyd George.

# CYNGOR GWYNEDD

- 5.5.18 Mae Cyfeillion Amgueddfa Lloyd George wedi cydweithio gyda Amgueddfa Lloyd George er mwyn comisiynu Cydlynnydd. Mae materion cyfreithiol wedi codi gyda Amgueddfa Lloyd George, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth o ran rôl y Cyngor fel Ymddiriedolwr.
- 5.5.19 Rydw i yn pryderu am sefyllfa ariannol Storiell yn dilyn i arian y Loteri ddod i ben. Roedd gorwariant o £72k gan Storiell ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2018/19, oedd yn gyfuniad o orwariant staff a diffyg incwm. Rwyf wedi gofyn i swyddogion ail edrych ar Gynllun Busnes Storiell i'r dyfodol.
- 5.5.20 Mae'r broses o sefydlu a chofrestru Ymddiriedolaeth Ddatblygol Storiell wedi cychwyn, bydd gwaith cychwynnol yn cychwyn yn fuan er mwyn gwneud cais CDL ac edrych ar yr elfennau busnes, codi arian yn ogystal a'r elfennau dysgu a chymunedol.
- 5.5.21 Ers i Neuadd Buddug gau, mae'r offer digidol wedi ei drosglwyddo i Theatr Derek Williams ar safle Ysgol Godre'r Berwyn, er mwyn i'r grŵp cymunedol ddarparu gwasanaethau theatr a sinema yno. Mae Cydlynnydd Cymunedol wedi ei phenodi, ac Cyfeillion Theatr Derek Williams wedi ei sefydlu. Dyma gychwyn ar gyfnod newydd i'r celfyddydau yn y Bala.
- 5.5.22 Mae'r gwasanaeth yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda'r Gwasanaeth Llyfrgell a theatr/sinema i edrych ar y weledigaeth ar gyfer Neuadd Dwyfor.
- 5.5.23 Bydd y Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau yn ogystal a rhai gwasanaethau eraill yn adolygu pwrpas a mesuryddion wrth i adolygiadau Ffordd Gwynedd a newidiadau gymryd lle yn sgil arbedion / targedau incwm ac ail-strwythuro.
- 5.5.24 Pwrpas y **Gwasanaeth Archifau** yw gwarchod ein cofnodion cyhoeddus a sicrhau fod gan bobl fynediad atynt, drwy ddarparu dau Archifdy yng Ngwynedd.
- 5.5.25 Mae disgrifiadau casgliad y Gwasanaeth Archifau bellach ar gael ar *Archives Hub*, ac hyn wedi denu nifer o ymholiadau.
- 5.5.26 Yn dilyn trafodaethau dros rai blynyddoedd gyda Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr ac Archifdai Gogledd Cymru, mae trefniadau ar droed i gychwyn trosglwyddo dogfennau iechyd er mwyn cydymffurfio gyda dyletswyddau statudol.
- 5.5.27 Mae'r Swyddog Addysg wedi cynnal sesiynau yn Ysgol Y Felinheli ac Ysgol Maenofferen fel rhan o brosiect LleChi er mwyn dangos deunydd chwarelyddol a fydd yn cael ei ddefnyddio i ysbrydoli'r plant i greu gwaith celf.
- 5.5.28 Rydym yn rhagweld cyfleon yn codi o ystyried y cwricwlwm newydd a rôl posibl i'r Swyddogion Addysg Archifau ac Amgueddfeydd,

# CYNGOR GWYNEDD

- 5.5.29 Mae'r **Gwasanaeth Cefnogi Cymunedau** yn cefnogi pobl a mentrau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio. Bydd y gwasanaeth ar ei newydd wedd yn cael ei hyrwyddo ar draws Gwynedd dros y misoedd nesaf.
- 5.5.30 Mae cronfa Cist Gwynedd yn werthfawr i grwpiau gwirfoddol y Sir, mae'r rownd cyntaf wedi chynnal a'r arian i gyd wedi ddyrannu, sy'n adlewyrchu'r galw am grantiau bychan i gefnogi cymunedau a'r trydydd sector.
- 5.5.31 Mae'r **Gwasanaeth Chwaraeon am Oes** yn cynnig ystod o weithgareddau corfforol cynhwysol. Mae'r rhaglen Llysgenhadon Uwchradd wedi dirwyn i ben am eleni, ond mae'r Llysgenhadon sydd wedi cymhwyso yn cael cyfleoedd i arwain sesiynau a bod yn rhan o ddiwyddiadau ar hyn a lled Gwynedd.
- 5.5.32 Mae gwaith yn cael ei wneud i dargedu cyfranogiad grwpiau penodol, trefnwyd diwrnod blasu i ferched yn unig fel rhan o gynllun GGG fel rhan o Slalom Gogledd Cymru (rhan o lwybr talent canŵa Cymru), ac o ganlyniad mae'r sesiynau wythnosol yn Llanberis yn llawn, gyda'r bwriad o gychwyn sesiynau ychwanegol.
- 5.5.33 Mae 26 yn mynychu sesiwn Ffitrwydd Teulu Actif yn rheolaidd ar nos Fawrth yn Maesgeirchen. Drwy gynllun Playmakers a DIT, a gyda cyd weithrediad swyddog Tîm Chwaraeon am Oes a Swyddog Datblygu Anabledd mae 350 o blant wedi derbyn hyfforddiant, sydd yn ehangu ar y ddarpariaeth gweithgaredd corfforol amser cinio mewn ysgolion.
- 5.5.34 Roedd Her Eryri 2019 yn lwyddiant mawr, gyda cystadleuaeth Awyr Agored dau ddiwrnod i golegau addysg bellach Cymru yn cael ei gynnal yn Llanberis a'i arwain gan Swyddog Datblygu Awyr Agored Gwynedd.
- 5.5.35 Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi gosod cytundeb i **Gwmni Byw'n Iach** i reoli'r Canolfannau Byw'n Iach o 1af o Ebrill 2019. Bydd y Cyngor yn cyfarfod efo'r cwmni yn ystod mis Gorffennaf er mwyn monitro cynnydd chwarter 1

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

- 6.1 Mae 5 o gynlluniau arbedion 2019/20 unai wedi ei gwireddu neu ar drac i'w gwireddu'n amserol cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
- 6.2 Mae'r gorchymyn parcio yn cael ei gyflwyno i nifer o safleoedd ar draws Adrannau'r Cyngor, gan gynnwys y 3 cynllun parcio sef *Cysoni ffioedd parcio drwy gyflwyno ffioedd parcio i safleoedd newydd (e.e. ardal y Glyn), Sefydlu ffioedd parcio yn Dinas Dinlle a chynyddu ffioedd lansio ac hefyd Adolygu ffioedd a threfniadau yn Storiel*. Mae gwaith rhagbaratoi yn cael ei wneud ar hyn o bryd o safbwynt cynigion i ymgorffori nifer o safleoedd newydd i mewn i Orchymyn Parcio Gwynedd. Mae bwriad hefyd i ddiweddarau strwythur ffioedd y Cyngor i gyd-fynd efo'r gwaith ac hefyd mae cais wedi ei wneud i ymgorffori agweddau ychwanegol (e.e. cardiau i bobl lleol).

# CYNGOR GWYNEDD

- 6.3 Bydd y cynllun i gynyddu *ffioedd lansio ar hyd traethau Gwynedd* yn cael ei oedi oherwydd yr angen cael cynllun rheoli risgiau diogelwch i staff oherwydd fod y risg o ymddygiad treisgar yn cynyddu.
- 6.4 O ran cynllun *Neuadd Dwyfor* rydym yn gweld risgiau sylweddol i gyflawni'r arbedion. Mae'r adran yn datblygu achos busnes ac fydd angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol i wireddu'r arbedion. Yn ogystal fydd angen dod o hyd i gyllidwyr megis Cyngor Celfyddydau, Croeso Cymru ac eraill. Byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth gyda'r manylion.
- 6.5 Bydd rhaid rhoi cyfle i'r Cwmni Hamdden newydd sefydlu cyn adnabod cyfleon i symud y statws i felyn neu wyrdd ar y cynllun i *Leihau'r sybsidi i'r Cwmni Hamdden* newydd.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

- 7.1 Dim i'w nodi

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1 Barn y Swyddogion Statudol

i. **Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a phriodoldeb.

ii. **Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa'r Adran Economi a Chymuned o ran gwireddu'r cynlluniau arbedion, gyda pump cynllun arbedion 2019/20 eisioes wedi eu gwireddu neu ar drac i wireddu'n amserol, a'r risg sydd ynghlwm â'r cynlluniau eraill wedi'i nodi yn rhan 6 o'r adroddiad. Bydd swyddogion Cyllid yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet cyfrifol i fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau yma, a byddwn mewn lle i adrodd ymhellach ar y cynnydd yn dilyn yr adolygiad cyllidol nesaf.

Rydym eisioes wedi amlygu pryder am sefyllfa ariannol 'Storiol' yn ein adroddiad 'Cyfrifon Terfynol 2018/19 – Alldro Refeniw' aeth i'r Cabinet 21/6/19, gyda 'Storiol' yn gorwario £72k ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 2018/19. Mae'n hanfodol fod yr Adran Economi a Chymuned yn cymryd camau priodol i reoli'r sefyllfa yma.

### 8.2 Barn yr Aelod Lleol:

- 8.2.1 Ddim yn fater lleol.

### 8.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad

- 8.3.1 Dim i'w nodi

# CYNGOR GWYNEDD



---


## Atodiadau:

Atodiad 1      Mesurau Adran Economi & Chymuned (Datblygu'r Economi)


# MESURAU AELOD CABINET DATBLYGU'R ECONOMI

(hyd at ddiwedd Chwarter 1 2019/20)

## Mesurau Maes



**SYLWADAU: 59% (44) yn deillio o weithgaredd Twristiaeth a Marchnata**



**SYLWADAU: 7 swydd wedi ei greu gan fentrau yn derbyn cefnogaeth yn Ch.1 gyda pump ohonynt yn swyddi gwerth uchel.**

**Mesurau Gwasanaeth****Gwasanaeth Cefnogi Busnes**

Mesurydd	Perfformiad 2017/18	Perfformiad 2018/19	Canlyniad Ch. 1	Sylwadau
Nifer o ymholiadau busnes a weithredir arnynt gan yr Uned.	220	202	26	Nifer ymholiadau busnes wedi gostwng wrth gymharu â blynyddoedd blaenorol oherwydd diffyg cynlluniau cymorth ariannol – ymgyrch marchnata i godi ymwybyddiaeth o'r Cronfeydd Benthyciadau Canol Trefi a hefyd cynllun grant newydd Canol Dinas Bangor a'r Pecyn Cymorth i Fentro.
Gofod diwydiannol / menter y Cyngor sy'n llawn	94%	96%	94%	Canran wedi gostwng rhywfaint yn ystod y chwarter cyntaf. Gwaith marchnata a gosod yr unedau gwag ar y gweill.

**Gwasanaeth Twristiaeth a Marchnata**

Mesurydd	Perfformiad 2017/18	Perfformiad 19/20	Canlyniad Ch. 1	Sylwadau
Ymweliadau a gwefan Eryri Mynyddoedd a Mor	972,831	1,011,854	263,486 (+ 9.91%)	

**Gwasanaeth Amgueddfeydd a Chelfyddydau**

Mesurydd	Perfformiad 2017/18	Perfformiad 19/20	Canlyniad Ch. 1	Sylwadau
Nifer sy'n defnyddio'r amgueddfeydd a'r orielau	62,788	59,941	9,595	



## Gwasanaeth Archifau

Mesurydd	Perfformiad 2017/18	Perfformiad 18/19	Canlyniad Ch. 1	Sylwadau
Nifer sy'n denfyddio'r Gwasanaeth	-	28,478	5,979	
Canran Bodlonrwydd Cwsmer	96%	94%	90%	Hyd at Mehefin 14, 281 o bobl wedi cwblhau'r slipiau:  <i>"Mae'r staff bob amser yn gyfeillgar a chymwynasgar. Trueni nad yw'r Archifdy ar agor 5 diwrnod yr wythnos"</i>

## Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mesurydd	Perfformiad 2017/18	Perfformiad 18/19	Canlyniad Ch. 1	Sylwadau
Nifer benthyciadau eitemau	473,255	465,479	66,315	Tuedd yn dangos lleihad mewn benthycyn yn gyffredinol – hefyd yn wir o'i gymharu ar draws y Gogledd.
Nifer ymweliadau	346,567	358,904	5,797	Ffigwr yn cymharu'n dda ac yn welliant ar ffigyrau cyfatebol ymweliadau Chwarter 1 yn 2018/19 (5,386)

# Eitem 11

## CABINET CYNGOR GWYNEDD

### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad:</b>	16 Gorffennaf 2019
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Cyllid
<b>Pwrpas:</b>	Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cynghorydd Ioan Thomas
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Dafydd Edwards, Pennaeth Cyllid

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Cyllid. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r hyn sydd wedi digwydd yn erbyn addewidion Cynllun y Cyngor, lle mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Mae'r materion a nodir yn yr adroddiad hwn eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfod o dîm rheoli'r Adran Cyllid, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, sy'n ymgymryd â'r swyddogaeth graffu yn y maes hwn.
- 1.3 Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda pherfformiad y prosiectau a'r mesurau perfformiad yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

#### 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

#### 3. PARHAD O WAITH AR BROSIECTAU CYNLLUN CYNGOR GWYNEDD 2017/18

- 3.1 Roedd y ddau brosiect isod yn flaenoriaeth o fewn y Cynllun uchod a ddaeth i ben fis Mawrth 2018. Mae'r gwaith o weithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn waith parhaus ac felly byddaf yn parhau i adrodd ar y gwaith hwnnw hyd nes y bydd Strategaeth newydd yn cael ei mabwysiadu. Mae amserlen gweithredu'r prosiect System Rheoli Dogfennau a Chofnodion Electronig (EDRMS) wedi llithro ers cyhoeddi Cynllun Cyngor Gwynedd 2017/18, ac felly rwyf hefyd am barhau i adrodd ar y gwaith hyd nes y bydd wedi ei orffen.

**Cyngor Effeithiol ac Effeithlon**

**C6 - Strategaeth Technoleg Gwybodaeth (TG)**

Tud. 106

**Cyswllt:**  
01286 679868  
01286 679490  
cabinet@gwynedd.llyw.cymru



- 3.2 Gydag oes y Strategaeth Technoleg Gwybodaeth bresennol yn dod i ben, rydym wedi cychwyn trafodaethau mewnol er mwyn cynllunio Strategaeth newydd. Pan fydd hi'n aeddfed, byddaf yn dod â hi at sylw'r Cabinet am drafodaeth.

Mae swyddogion yr Adran yn cydweithio â swyddogion yr Adran Addysg i ddatblygu Strategaeth newydd fydd yn canolbwyntio ar ddarparu'r gwasanaeth cefnogol TG orau i ysgolion Gwynedd.

### **C7 System rheoli dogfennau a chofnodion electronig (EDRMS)**

- 3.6 Mae'r gwaith o ledaenu defnydd y system i adrannau'r Cyngor yn agosáu at gyrraedd ei derfyn, gyda dim ond 5 fîm ar ôl o'r holl wasanaethau yn y Cyngor yn aros i fudo. Rhaglennwyd y gwaith i'w gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf 2019. Er bu trosiant yn aelodau'r fîm prosiect, mae gwaith datblygol ar y system yn parhau gyda golwg ar wneud y mwyaf o'r buddsoddiad yn y system. 'Rydym wedi canfod mai'r gwasanaethau sydd yn elwa fwyaf o iGwynedd yw'r gwasanaethau sydd wedi ei ddatblygu ymhellach, felly byddwn yn annog gwasanaethau i ddatblygu eu defnydd o'r system. Ar yr un pryd, byddwn yn ofalus i beidio ag ychwanegu prosesau diangen i lif gwaith gwasanaethau'r Cyngor.

## **4. PERFFORMIAD**

Mae **Atodiad 1** yn adrodd yn llawn ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy maes cyfrifoldeb.

- 4.1 **Pwrpas y Gwasanaeth Risg ac Yswiriant** yw amddiffyn buddiannau trethdalwyr trwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau. Rwyf wedi herio perfformiad y gwasanaeth ac rwy'n fodlon gyda'r perfformiad gyda 81% o hawliadau atebolrwydd cyhoeddus yn cael eu hamddiffyn yn llwyddiannus gan yr uned, a 89% gan yr yswirwyr, yn y cyfnod ers yr adroddiad perfformiad diwethaf. Hoffwn nodi fod gwaith y gwasanaeth yma yn cyflawni rôl bwysig er mwyn sicrhau fod trefniadau'r Cyngor yn gadarn er mwyn ein galluogi i isafu digwyddiadau niweidiol. Wrth amddiffyn hawliadau mae'r gwasanaeth yn craffu ar y camau a gymerwyd gan y gwasanaeth y gwnaed yr hawliad yn ei erbyn, gan roi adborth er mwyn gwella.
- 4.2 Mae'r **Gwasanaeth Archwilio Mewnol** y rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor. Ar ddechrau 2019/20 mae'r gwasanaeth wedi canolbwyntio eu hadnoddau ar gyflawni archwiliadau o gyfrifon 70 o gynghorau cymuned a thref. Golyga hynny mai dim ond 3 archwiliad a gyflawnwyd gan y gwasanaeth yn yr un cyfnod, ond mae hynny'n unol a'r proffil disgwylidig. Yr archwiliadau o gwblhawyd oedd archwiliadau o gyllidebau cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr mae'r Cyngor yn awdurdod arweiniol neu letya arnynt. Rwy'n falch o nodi mai barn sicrwydd 'uchel' a dderbyniwyd gan y tri.
- 4.3 Pwrpas y **Gwasanaeth Cyflogau** yw talu staff yn gywir ac ar amser, a hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEM (HMRC). Yn unol â'u perfformiad arferol, cyflwynwyd 100% o daliadau'n gywir ac o fewn y gofyniad amser i gyrff allanol. Er bod camgymeriad dynol ym Mawrth 2019 wedi achosi 878 o achosion a arweiniodd at addasiadau pellach yn y cyflog, 'roedd Ebrill a Mai wedi dychwelyd i'w lefel arferol, sef (37 a 41, yn eu trefn). Gofynnais a oedd hi'n bosib i'r gwasanaeth gyrraedd sefyllfa ble na fyddai'r un achos o'r fath yn codi. Mewn ymateb nododd y gwasanaeth nad oedd hynny yn amhosib, ond mai gwallau dynol oedd yn tueddu i erwyn at eiddo addasiadau. 'Roedd y gwasanaeth yn

gweithio ar leihau'r gyfradd o wallau oedd o fewn ei reolaeth, ond mai gwallau mewn rhannau eraill o'r Cyngor, neu ddiffyg prydlondeb cyflwyno gwybodaeth oedd yn achosi at weddill yr achosion. Yr ateb yn y pen draw fyddai i leihau ymyrraeth ddynol o fewn y system.

- 4.4 Mae'r **Gwasanaeth Taliadau Credydwyr** yn sicrhau fod credydwyr y Cyngor yn cael eu talu yn gywir ac amserol. Nodir fod gostyngiad i'w weld yn y nifer o addasiadau i daliadau blaenorol gan y Cyngor o 8 yng nghyfnod 2, 2018/19 i 1 yng nghyfnod 3, ac 1 yng nghyfnod 1 2019/10. Nododd y gwasanaeth tra bod y nifer o addasiadau wedi gostwng, 'roedd y risg o dalu'r un anfoneb ddwywaith wedi cynyddu wrth i fwy a mwy o gyflenwyr ac adrannau a gwasanaethu'r cyngor weithredu'n ddigidol. Fodd bynnag, mae gan y gwasanaeth drefn mewn lle i adnabod unrhyw ddyblygiadau er mwyn sicrhau nad yw anfonebau yn cael eu talu ddwywaith.
- 4.5 Mae perfformiad y Cyngor ar fesur 'canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod' wedi cyrraedd ei lefel uchaf ers 2015/16 gyda 92% o anfonebau a dderbyniwyd gan y cyngor wedi eu talu o fewn 30 diwrnod. O ran cyflenwyr lleol, 'roedd 95% o'u hanfonebau wedi eu talu o fewn 30 diwrnod.
- 4.6 Mae'r **Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth** yn cefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel.
- 4.7 Mae'r mesurau perfformiad yn dangos perfformiad cyson a chanran bodlonrwydd uchel ar draws yr holl unedau.
- 4.8 Yn dilyn y trafferthion a brofwyd yn haf 2018 bu gwaith uwchraddio yn cael ei wneud yn ein Canolfannau Data er mwyn cryfhau gwydnwch systemau'r Cyngor i'r dyfodol. Mae'r gwasanaeth wedi cymryd mantais o'r gwaith angenrheidiol hwn er mwyn uwchraddio offer sydd yn dod i ddiwedd ei oes, a defnyddio'r gyllideb sydd ar gael yn ddoeth. Mae'r agwedd yma wedi arwain at wella'r ddarpariaeth a'i gwydnwch heb achosi costau uwch i'r Cyngor.
- 4.9 Un agwedd lle mae yna risg gweddilliol heb ei gyfarch yw'r perygl o doriad trydan lle mai'r ateb fyddai cael "generator" penodol yn barod mewn achlysuron o'r fath. Yn wyneb y gost sylweddol o wneud hynny a'r ffaith mai anaml y bydd yna doriad yn y cyflenwad trydan rydym yn awgrymu y dylem fyw gyda'r risg yma.
- 4.10 Mae wedi dod yn gynyddol amlwg mai anniddigrwydd gyda'r amser mae'n ei gymryd i gwblhau prosiectau sydd wrth wraidd y rhan helaeth o adborth negyddol sy'n cael ei dderbyn gan y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Mae'r Gwasanaeth yn gorfod gwneud defnydd effeithiol o adnoddau prin, gan arwain at flaenoriaethu eu gwaith yn llym. Bu i'r Gwasanaeth benodi prentisiaid yn ddiweddar, fydd yn eu tro yn cynyddu capasiti'r gwasanaeth i ddarparu prosiectau fydd yn cynnig buddion i bobl Gwynedd. Ar ben hynny, mae'r Cabinet wrth gwrs wedi cytuno i ychwanegu at yr adnodd drwy ddarparu cyllid ar gyfer swyddi ychwanegol ond 'rydym yn cael trafferthion dod o hyd i ymgeiswyr addas. Mae'r gwasanaeth wrthi ar hyn o bryd yn edrych am ffyrdd dychmygus o lenwi'r swyddi yma.
- 4.11 Mae'r **Gwasanaeth Pensiynau** yn gweinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 o gyflogwyr er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir. O ran mesur **Cyfartaledd nifer y dyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif (CD9.03)** bu lleihad yng nghyfartaledd yr amser ar ddechrau 2019/20 o'i gymharu â diwedd 2018/19 (4.1

diwrnod gwaith o'i gymharu â 4.64 diwrnod gwaith). Mae hyn yn parhau yn uwch na'r 3.5 diwrnod a gofnodwyd yn chwarter cyntaf 2018/19, ond wedi ei gyflawni eleni ar adeg prysuraf y prisiad teirblynyddol.

- 4.12 Mae'r Gwasanaeth hefyd yn parhau i weithio i hyrwyddo darpariaeth hunanwasanaeth, ac erbyn hyn mae dros 10,000 o ddefnyddwyr wedi mewngofnodi ar y gwasanaeth Pensiwn Ar-lein.
- 4.13 Pwrpas y **Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg** yw llunio cyllidebau, cadw cyfrifon trefnus gan fonitro'r sefyllfa ariannol a darparu cyngor ariannol i gynorthwyo gwasanaethau i fod yn effeithiol ac effeithlon. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 llwyddodd y gwasanaeth i gau cyfrifon a chwblhau'r datganiad o'r cyfrifon erbyn Mai 31ain, yn barod i'w cyflwyno i'r archwilwyr, mis yn gynt na mewn blynyddoedd blaenorol gan baratoi at yr amserlen fydd yn statudol o 2020/21 ymlaen. Er eu bod wedi llwyddo yn y dasg, mae'r gwasanaeth wedi adnabod cyfleoedd i wella prosesau er mwyn gwneud y gwaith yn fwy effeithlon i'r dyfodol. Hyderaf hefyd bydd cau cyfrifon yn gynt yn eu galluogi i roi mwy o gymorth a chyngor i adrannau a gwasanaethau'r Cyngor.
- 4.14 Pwrpas y **Gwasanaeth Incwm** yw prosesu incwm a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, wrth ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr.
- 4.15 Nodir fod **Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeiriwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill) CD7.02** wedi parhau i gynyddu mewn perthynas â diwedd 2018/19, ond yn well o gymharu gyda'r un cyfnod ar ddechrau 2018/19. Bellach mae cyfanswm gwerth y dyledion dros 6 mis yn £961,908. Nododd y Gwasanaeth fod dyled sylweddol i'r Cyngor gan y Bwrdd lechyd, a bod y Gwasanaeth parhau i weithio gyda swyddogion cyllid y Bwrdd lechyd er mwyn ceisio darganfod ffordd ymlaen i ddatrys y broblem.
- 4.16 Pwrpas y **Gwasanaeth Budd-daliadau** yw prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn brydlon a chywir er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau treth Cyngor. Nodir fod y **Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dal newydd (CD12.03)** wedi gwella o 21.14 diwrnod yn chwarter 2 2018/19, i 17.91 diwrnod yn y cyfnod diwethaf.
- 4.17 Yn Rhagfyr 2018, daeth Credyd Cynhwysol llawn yn weithredol ar draws Gwynedd gyfan, sydd wedi lleihau nifer y ceisiadau newydd am fudd-dal tai, ond cynyddu'r ohebiaeth a dderbynnir gan y DWP. Bu i'r gwasanaeth fanteisio ar y newid yn eu trefniadau gwaith i ganolbwyntio ar geisiadau Budd-dal Tai a Gostyngiadau Treth Cyngor, gan achosi i'r amser oedd ceisiadau yn cymryd i'w prosesu ostwng.
- 4.18 Mae'r gwasanaeth yn cadw llygad ar ansawdd eu gwaith trwy fesur **Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol (CD12.05)**. Dengys y mesur yma fod camgymeriad wedi ei ddarganfod ym 5% o'r achosion yn y sampl. Noda'r gwasanaeth nad oes patrwm penodol i'r camgymeriadau a'u bod yn monitro'r camgymeriadau a ganfyddir gan ddarparu hyfforddiant pwrpasol er mwyn rheoli'r sefyllfa. Mae'n ymddangos fod perfformiad y gwasanaeth ar y mesur yma wedi sefydlogi ar oddeutu 5%, felly 'rydw i wedi gofyn iddynt ymchwilio mewn i effaith y gyfradd yma o gamgymeriadau er mwyn medru sefydlu a ydynt yn gamgymeriadau fyddai'n effeithio ar daliadau unigolion ynteu ai camgymeriadau technegol ydynt. Byddaf yn adrodd ar hynny yn y i'r dyfodol.

- 4.19 Pwrpas y **Gwasanaeth Trethi** yw casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn gydymdeimladwy i amgylchiadau unigolion. Yn ddiweddar mae'r gwasanaeth wedi bod yn cael trafferth ymdopi gyda'r nifer o gyfathrebiadau sy'n eu cyrraedd. Mae nifer uchel o e-byst a llythyrau yn eu cyrraedd gan greu ôl-groniad, gyda'r ôl-groniad yma yn ei dro yn arwain ar nifer uwch o alwadau ffôn, a chwsmeriaid anhapus. Ar gyfartaledd 'roedd cwsmeriaid yn aros am fwy na 5 munud cyn i'w galwad ffôn gael ei ateb, gyda dros 2000 o alwadau y mis yn cael eu methu'n gyfan gwbl. Dylid nodi fod misoedd Mawrth ac Ebrill yn brysur iawn i'r gwasanaeth. Y perygl yw ein bod wedi mynd rhy bell gyda thoriadau yn y maes yma ac fe ddylem dalu sylw i hyn er mwyn deall beth sy'n digwydd yma. Mae'r Uned yn edrych i symud i hunan wasanaeth yn y dyfodol agos a'r gobaiith yw y bydd hynny yn ysgafnhau'r baich galwadau ar yr Uned. Credaf y dylid aros i hynny ddigwydd er mwyn gweld beth yw'r sefyllfa ac yna ail ymweld â'r sefyllfa bryd hynny.

## **5. SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION**

- 5.1 Mae'r adran wedi llwyddo i wireddu'r mwyafrif o gynlluniau arbedion 2019/20. Mae cynllun ar waith i symud slipiau cyflog i drefn electronig sydd eto i'w gwblhau, ond disgwylir iddo gael ei gyflawni yn llawn ac yn amserol yn unol â'r bwriad.

## **6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

- 6.1 Dim i'w nodi.

## **7. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

### **7.1 Barn y Swyddogion Statudol:**

#### **i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a phriodoldeb

#### **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Rwy'n cadarnhau cywirdeb cynnwys yr adroddiad, a byddaf yn cefnogi'r Aelod Cabinet i gyflawni'r amcanion perthnasol.

### **7.2 Barn yr Aelod Lleol:**

Ddim yn fater lleol.

### **7.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

Dim i'w nodi.

---

## **Atodiadau**

### **Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad**

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID  
2019.20**

**Gwasanaeth Risg ac Yswiriant - Mesurau Cyflawni (Chwarterol)**

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan  
Rheolwr Cyfrifol: Gwyn Varney

Pwrpas y Gwasanaeth:

Cefnogi adrannau'r Cyngor wrth iddynt asesu'r bygythiadau a chyfleon all eu hwynebu wrth ddarparu eu gwasanaethau a blaenoriaethu eu gweithgareddau ar sail yr asesiad. Amddiffyn buddiannau trethdalwyr drwy sicrhau trefniadau yswiriant priodol ac ymdrin â hawliadau

**Cyfarch Risg (2019/20)**

Chwarter 1

Yn ystod y chwarter cyntaf o 2019/20 rydym wedi cynghori Gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor yn rheolaidd ar faterion fel gwarchodaeth yswiriant cyrff/cwmnïau allanol. Yn ogystal â hyn, rydym hefyd wedi cynorthwyo efo llunio gohebiaeth ar y cyd gyda rhai o wasanaethau'r Cyngor i drigolion Gwynedd ar faterion lle does ddim hawliad ffurfiol wedi ei wneud yn erbyn y Cyngor eto, ond mae posibilrwydd o hawliad ddilyn yn y dyfodol.


Rydym hefyd wedi cynghori ar bryderon staff efo gwrthdaro rhwng gwaith ac yswiriant personol.

Mae gwaith yn parhau ar y cyd efo'r Gwasanaeth Eiddo er mwyn cwrrd â gofynion ein hyswiriwr eiddo. Mae hyn yn cynnwys ar gyfer adeiladau newydd cyn i ofynion mae modd eu rhagweld godi.

Mae gwaith tuag at ddatblygu system Cofrestr Risg newydd yn seiliedig ar dechnoleg Sharepoint wedi symud yn ei flaen. Mae'r Pennaeth Cynorthwyol a'r Cydlynnydd Risg wedi ymweld â nifer o Adrannau i weithio ymhellach tuag at symud i'r system newydd.

### Canran o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a Wadwyd Gan yr Uned

Tud. 112




13 hawliad allan o 16 wedi ei amddiffyn yn llwyddianus. O'r 3 sydd wedi eu setlo nid oes unrhyw agweddau cyffredin.

1. Difrod i gerbyd wrth i swyddogion traffig ei dynnu.
2. Difrod i gerbyd oherwydd twll yn y ffordd.
3. Difrod i gerbyd oherwydd fod arwydd ar safle gwaith dan reolaeth y Cyngor heb ei ddiogelu'n ddigonol.



### Canran o Hawliadau Atebolrwydd Cyhoeddus a Wadwyd Gan yr Yswirwyr



17 hawliad allan o 19 wedi ei amddiffyn yn llwyddiannus. O'r 2 sydd wedi eu setlo nid oes unrhyw agweddau cyffredin.

1. Difrod i gerbyd lle'r oedd diffyg rhybudd digonol o gynllun ffordd newydd.
2. Anaf i ddisgybl mewn uned addysg.

## Archwilio Mewnol



Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan

Rheolwr Cyfrifol: Luned F Jones

### Pwrpas y Gwasanaeth:

**Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.**

### Perfformiad:

Yn ystod wythnosau cyntaf blwyddyn ariannol 2019/20, mae Archwilio Mewnol wedi canolbwyntio'r rhan fwyaf o'n hadnoddau ar ein gwaith allanol yn cwblhau gwaith Archwilio Mewnol i'r cynghorau cymuned, fel bod modd iddynt hwy ystyried y canlyniadau a pharatoi eu cyfrifon erbyn y dyddiad statudol (30 Mehefin). Mae'r gwasanaeth wedi cael ei benodi i fod yn archwilwyr mewnol ar 70 o gynghorau cymuned eleni (60 yng Ngwynedd ac 10 ar Ynys Môn). Erbyn 19 Mehefin, roedd adroddiad terfynol 59 allan o'r 70 wedi cael ei ryddhau'n derfynol.

Canlyniad hyn yw mai 3 archwiliad o gynllun archwilio 2019/20 Cyngor Gwynedd sydd wedi cael eu cwblhau, allan o 65 archwiliad yn y cynllun addasedig. Mae hyn yn golygu felly mai **Canran yr archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd unai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau** (dangosydd CD2.03) ar 19 Mehefin 2019 yw **4.6%**. Er fod hyn yn isel, mae'n unol â'r proffil disgwylidig oherwydd y gwaith ar y cynghorau cymuned, felly nid yw hyn yn achos pryder ar hyn o bryd.

Y 3 archwiliad a gwblhawyd oedd adolygiad o gyfrifon y cydbwyllgorau ac awdurdodau harbwr "bychain" y mae Cyngor Gwynedd yn awdurdod arweiniol / lletya arnynt, sef:

- Cyfrifon Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
- Cyfrifon Harbyrau
- Cyfrifon Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd.

Derbyniodd pob un o'r uchod lefel sicrwydd "Uchel", sy'n golygu fod **100% o'r archwiliadau mewnol wedi derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well** (Mesur Cyflawni CD2.09), ond cofier mai tri archwiliad yn unig mae hyn yn ei gynrychioli.

Cyflwynwyd **Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol** ar gyfer 2018/19 i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 13 Mehefin. Yno, adroddwyd gan y Rheolwr Archwilio, **"Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2018/19, yn fy marn i, mae gan Gyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyfiawnhad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i gynnal a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod y camau gweithredu cytunedig i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol."**

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID  
2019.20**

**Gwasanaeth Cyflogau - Mesurau Cyflawni**

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan  
Rheolwr Cyfrifol: Martin Morris


Pwrpas y Gwasanaeth:

I dalu staff yn gywir ac ar amser, ac hefyd cadw cyfrifon priodol ar gyfer talu cyrff allanol fel CThEM (HMRC)


Sicrhau taliadau cywir o fewn y gofyniad amser i cyrff allanol (fel CTheM)

Yn unol ag perfformiad y chwarteri blaenorol, llwyddwyd i sicrhau 100% o daliadau cywir o fewn y gofyniad amser i gyrrff allanol (fel CTheM).

## CD8.07 - Nifer achosion sydd yn arwain at addasiadau pellach yn y cyflog.



# CD8.08 - Nifer gweithwyr sydd yn cysylltu ynglyn ag unrhyw diffyg yn y broses talu cyflogau.



**Gwasanaeth Taliadau Credydwy - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans  
Arweinydd Tim Cyfrifol: Christopher Parry

Pwrpas y Gwasanaeth:

Talu credydwy y Cyngor yn gywir ac yn amserol

Cyf.	Mesur Cyflawni	Sylwadau Cyfnod 1	Cyf 1 19/20	Cyf 3 18/19	Cyf 2 18/19	Cyf 1 18/19	Ch1 17/18	Ch1 16/17
CD6.01	Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor)		92%	89%	88%	91%	89%	89%
CD6.02	Canran yr anfonebau a dalwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor)		95%	92%	91%	93%	92%	92%
CD6.03	Tud. 118 Addasiad i daliadau blaenorol gan y Cyngor	<p>Dim ond un addasiad yn ystod y cyfnod cyntaf (Ebrill a Mai) sydd yn gyson gyda cyfnod 3 2018/19 ac yn ostygiad o'r niferoedd a welwyd mewn cyfnodau blaenorol. Rheswm am yr addasiad yw fod cyflenwr anghywir wedi ei dalu oedd efo enw a chyfeiriad tebyg.</p> <p>Problemau staffio a welwyd yn ystod 2018/19 bellach wedi eu datrys ac felly wedi cael effaith cadarnhaol ar yr ystadegau.</p> <p>Cynnydd yn y tueddiad o daliadau dyblyg wrth symud i drefn mwy electroneg a derbyn anfonebau gan gwmnïau drwy E-byst. Trefn mewn lle i adnabod unrhyw ddyblygiad cyn talu cyflenwyr, felly nid yw wedi arwain at dalu ddwy waith.</p>	1	1	8	4	1	5
	Adolygu Systemau Mewnol	<p>- Cynnydd wedi bod yn y nifer o gyflenwyr sydd yn cael eu talu drwy BACS i 95% erbyn 2019/20 (94% yn 2018/19, 93% yn 2017/18) sydd yn 99% o ran gwerth, gyda'r Uned yn ymgeisio'n barhaus i gynyddu niferoedd.</p> <p>- Ymgyrch dros yr haf i gynyddu y niferoedd sydd yn derbyn eu nodiadau talu drwy ebost yn hytrach na trwy'r post.</p> <p>- Yr Uned Taliadau yn derbyn mwy o wybodaeth gan wasanaethau yn electroneg bellach, gan ei lwytho i mewn i'r system daliadau, gan gynnwys anfonebau ysgolion uwchradd, bwydydd ysgolion, praeseptau, grant gofal plant 30 awr, taliadau grant ysgolion meithrin, a Thelnet Llyfrgelloedd ayyb.</p> <p>- Wedi cydweithio efo swyddogion Prifffordd yn ddiweddar i symud o drefn bapur i drefn electroneg, ac i bosibiliadau fod yr Uned Eiddo yn ceisio symud biliau Dŵr i un bil ar gyfer y Cyngor i gyd. Rydym eisioes mewn trafodaethau efo'r Uned Gaffael o ran y drefn Ffordd Gwynedd a'r oblygiadau o ran talu cyflenwyr y Cyngor.</p> <p>- Trefniadau ar wahân wedi eu sefydlu ar gyfer talu cyflenwyr cwmni Byw'n Iach newydd, gan symud i ffwrdd o drefn talu gyda sieciau gyda trefn BACS i'w ddefnyddio ar gyfer 100% o'u taliadau.</p> <p>- Datblygiad diweddar mewn meddalwedd yn golygu fod modd uwchlwytho delwedd electroneg anfonebau i mewn i'r system daliadau, sydd yn cyflymu'r broses.</p>						


Cyfnod 1: Ebrill a Mai

Cyfnod 2: Mehefin, Gorffennaf, Awst, Medi, Hydref

Cyfnod 3: Tachwedd, Rhagfyr, Ionawr, Chwefor, Mawrth

## CD6.01 Canran anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor)


Yn gyffredinol, y tueddiad yn parhau ar ei fyny yng nghyfnod 1 2019/20, perfformiad adrannau Addysg a Prifffyrdd a Bwrdeistrefol yn cynorthwyo i wella perfformiad y Cyngor yn ei gyfanrwydd.



## CD6.02 Canran yr anfonebau a dalwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod (ar draws y Cyngor)

Cyflenwyr lleol wedi cael eu talu yn gynt na chyflenwyr eraill y Cyngor, gyda pherfformiad talu cyfnod 1 (Ebrill a Mai) ar ei fyny, ac yn uwch na mewn blynyddoedd blaenorol.

Tud. 120





## MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID

### Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

Uwch Reolwr Cyfrifol : Huw Ynyr  
 Rheolwr Cyfrifol: Bryn Goodman Jones

#### Pwrpas y Gwasanaeth:

I gefnogi a rhoi'r gallu i holl wasanaethau'r Cyngor allu wasanaethu dinasyddion Gwynedd mewn ffordd effeithiol, hyblyg a diogel.  
 (Isadeiledd TG) Datblygu a chefnogi isadeiledd y Cyngor i ddarparu llwyfan gwydn a diogel i gynnal gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor.

#### Chwarterol

Cyf.	Mesur Cyflawni	Sylwadau	Ch1 19/20
TG06	Nifer o ddigwyddiadau a gofnodwyd gyda'r Ddesg Gymorth	Adolygu hwn efo'r system newydd	5018
TG07	Nifer o ddigwyddiadau a gaewyd gan y Ddesg Gymorth	Canran yn llai na chwarteri cynt, effaith adnewyddion, uwchraddio (Win7 a Thin Client)	4560
BGJ	Nifer o alwadau ddaru cael eu cau ar '1st contact'	Cyswilt cyntaf defnyddiwr (newydd gychwyn adrodd ar hyn felly pawb ddim yn cofnodi hyn yn gywir.)	773.0
BGJ	Nifer o ebyst ddaru creu galwad yn awtomatig		2849
TG10	Nifer o alwadau ffôn a dderbyniwyd gan y Ddesg Gymorth	Nifer y galwadau yn weddol safonol i'r arfer.	4266
BGJ	Wedi gadael adborth	Wedi gwella o chwarteri cynt	168
	5 allan o 5		166
	4 allan o 5		1
	3 allan o 5		1
BGJ	Nifer wedi gadael llaio na 3 allan o 5		0
BGJ	Nifer wedi derbyn yr ebost/Galwad		1
BGJ	Newidiadau wedi ei greu/cofnodi gan Staff isadeiledd TG		139

## Gwasanaeth cefnogol TG (isadeiledd)

System cofnodi galwadau newydd wedi ei sefydlu ers ychydig dros 2 fis bellach. Staff TG (a'r adrannau) a staff yn dechrau gweld buddion ohono ond dal gwaith i'w wneud i hyfforddi pawb ar y meddylfryd a'r opsiynau newydd. Byddaf yn hysbysu staff yn fuan o'r hyn all wneud gyda'r elfen hunanwasanaeth ond efallai yn syniad amseru hyn i gyd fynd a lansio'r Fewnrwyd TG.

Mae staff TG nawr yn cofnodi newidiadau hefyd. Mae 139 o rhain wedi eu cofnodi a 120 wedi eu cwblhau. Mae hyn yn rhoi gwell gweledigaeth o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan staff sydd ddim yn deillio o alwad gan defnyddiwr. Llauer o waith yn digwydd heb ei gofnodi yn unman. Mae hyn yn hwyluso darganfod trafferthion sy'n deillio o waith a hefyd os angen, cymeradwyaeth am y gwaithgan reolwr. Y gobaith ydi fydd rhain yn cynyddu fel mae pawb yn dechrau dallt y broses newydd.

Mae'r nifer o gysylltiadau gyda'r ddesg gymorth Ch1 yn edrych yn llai na'r arfer ond mae nifer o wythnosau yn llai wedi ei mesur felly anodd bod yn sicr o hyn (system newydd wedi sefydlu 15/4/19 ac adroddiadau atodol 19/06/19). Byddaf yn cadw golwg ar hyn ac yn adrodd unrhyw welliannau.

- Nifer o gysylltiadau ffôn i TG – **8,016** (ond 244 wedi dadgysylltu yn y cyfnod)
  - Drwy rif Desg Gymorth 32114 = 4266
  - Uniongyrchol i staff isadeiledd = 3750

Byddaf yn adrodd yn y chwarter 2 '19 ar –

- Cyfartaledd amser i gau alwad TG i :-
  - Desg gymorth
  - Ail reng isadeiledd
- Bodlonrwydd
- Nifer o geisiadau/cysylltiadau
- Galwadau sy'n cael eu cau ar gysylltiad cyntaf y defnyddiwr.

## Gwaith Chwarter 1 a 2 '19

Gwaith wedi cychwyn ar sefydlu amgylchedd 365 newydd y Cyngor. Trwyddedau yn dod yn fyw ar 1af o Orffennaf a gwaith i fudo pobl i fod i gychwyn 2-3 wythnos o Orffennaf. Y gobaith ydi trosglwyddo defnyddwyr mewn grwpiau gyda'r gobaith fydd y gwaith wedi ei gwblhau i'r 2,500 oddi fewn 6 -8 wythnos. Ni ddylai hyn cael effaith ar y staff a'u gallu i ddefnyddio systemau cyfrifiadurol, hyn yn ddibynnol fod y gwaith profi wedi bod yn drwyadl. Unwaith bydd y gwaith wedi ei gwblhau byddwn gyda'r gallu i gynnig llauer mwy o becynnau sydd yn rhan o'r trwyddedau newydd e.e. Rhannu'n allanol, mynediad o bell o unrhyw ddyfais, hawl di gost (tu allan i gostau trwydded MS) i dderbyn e-bost a.y.b. ar ffon bersonol..... Angen trafod hyn gyda gwasanaeth diogelu data er mwyn sicrhau fod eu rheolau nhw yn cael ei ddilyn i leihau risg i'r data.

Mi fydd yr uchod yn cael effaith ar gyfrifoldebau a dyletswyddau fy staff, ddim ei fod yn lleihau ond achos o natur y system/trwyddedau mae hyn yn angenrheidiol.

Gwaith i waredu Windows 7 a dyfeisiadau Thin client dal i barhau. Yn y 3 ¼ diwethaf mae'r ffigwr Windows 7 wedi gostwng o bron i 1000 i gyn lleied â 200 erbyn hyn. O safbwynt y Thin client, mae dros 600 erbyn hyn wedi ei newid am PC neu Liniadur. Mae'r gwaith yma yn cael effaith mawr ar waith ac ystadegau'r ddesg gymorth.

## TG - Isadeiledd

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol – Huw Ynyr  
Rheolwr Cyfrifol – Gwyn Jones

### Pwrpas y Gwasanaeth

Datblygu a chefnogi isadeiledd y Cyngor i ddarparu llwyfan gwydn a diogel i gynnal gwasanaethau technoleg gwybodaeth y Cyngor.

### Perfformiad Chwarter 1 2019-20

	<b>Ebrill 2019</b>	<b>Mai 2019</b>	<b>Meh 2019</b>
<b>Rhwydwaith Craidd</b>	99.99%	99.99%	
<b>Systemau Cyllid</b>	100.00%	99.95%	

Mae'r cyflwr y rhwydwaith craidd yn parhau i'r safon.

Amlygir oedd problem yn ystod mis Mai (15/05/19), sydd yn cael ei ddangos yn argaeledd "Systemau Cyllid" uchod, lle oedd tân bychain o fewn yr ystafell cyfrifiadur wedi achosi colled trydan. Roedd staff TG oedd ar alwad yn ogystal â thrydanwr ar safle erbyn 07:00, gyda'r systemau wedi eu adfer erbyn tua 09:00.

### Prosiectau ar waith

- Mae'r gwaith adeiladu gwytnwch yn y systemau yn parhau ar y cyd efo Dell/EMC.
- Tendr yn agored ar gyfer adnewyddu Wal-Dân (Firewall) corfforaethol y Cyngor, yn ogystal a gosod un newydd yn ein ail canolfan ddata.
- Prosiect uwchraddio meddalwedd y system ffôn wedi cychwyn, disgwyl cwblhau q2, efo gwelliannau i'r systemau ac ymestyn i ysgolion ychwanegol.
- Gosod rhwydwaith a system TCC newydd y Cyngor ar y cyd efo Priffyrdd a Bwrdeistrefol, drwy cwmni "CCTV Systems". Prosiect i'w gwblhau Q4. Arbedion sylweddol, gan gynnwys dros £44k costau cylched pwrpasol wrth ddefnyddio rhwydwaith di-wifr newydd a cysylltiadau rhwydwaith presennol.
- Gwybodaeth diogelwch wedi ei rannu efo staff, gan gynnwys fideos hyfforddi. Potensial colled data wedi ei amlygu yn ddiweddar, angen edrych ar gwella'n ffyrdd o hyrwyddo'r gwybodaeth pwysig yma.

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID  
2019.20**

**Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth (Datblygu a Chynnal a Chadw) - Mesurau Cyflawni**

Rheolwyr Cyfrifol: Rhodri Fretwell ac Elfyn Evans

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol: Huw Ynyr

Pwrpasau'r Gwasanaeth:

(Datblygu) Cydweithio a'n cwsmeriaid i ddatblygu ac esblygu datrysiadau arloesol mewn ymateb i anghenion busnes

(Cynnal a Chadw) Cynnal a chadw amrediad o systemau a datrysiadau technegol i'w cadw'n weithredol, effeithlon a chyfredol

Cyf.	Mesur Cyflawni	Sylwadau Chwarter 1 2019/20	Ch4 18/19	Ch2 18/19	Ch1 18/19	Ch1 17/18
TG15 Tud. 124	<p>Arolwg barn datblygu: "<b>A oeddech yn hapus gyda'r cynigion, datrysiad ar gwasanaeth yn gyffredinol a dderbyniwyd gan yr uned datblygu?</b>".</p> <p>1 – Oeddwn, nid oes gennyf welliant i'w gynnig 2 – Oeddwn, ond credaf bod lle i wella 3 - Nac oeddwn</p>	<p>15 prosiect wedi derbyn adborth.</p> <p>1. Hapus, dim gwelliant 94% 2. Hapus, lle i wella 6% 3. Dim yn hapus 0%</p> <p>Nodwyd fod yno le i wella ar y gwaith datblygu'r wefan gorfforaethol oherwydd y diffyg cynnydd yn y rhaglen waith.</p> <p>Mae hyn yn deillio o golli aelod o'r tîm yn ddiweddar ac rydym yn y broses o ddarganfod rhywun i lenwi'r swydd.</p>	<p>1. Hapus, dim gwelliant 94% 2. Hapus, lle i wella 6% 3. Dim yn hapus 0%</p>	<p>1. Hapus, dim gwelliant 74% 2. Hapus, lle i wella 26% 3. Dim yn hapus 0%</p>	<p>1. Hapus, dim gwelliant 84% 2. Hapus, lle i wella 16% 3. Dim yn hapus 0%</p>	<p>1. Hapus, dim gwelliant 75% 2. Hapus, lle i wella - 25% 3. Dim yn hapus 0%</p>

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID  
2019.20**

**Gwasanaeth Pensiynau - Mesurau Cyflawni**

Pennaeth Cyfrifol : Dafydd L Edwards

Rheolwr Cyfrifol: Nick Hopkins


Pwrpas y Gwasanaeth:

I weinyddu'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ar ran dros 40 cyflogwr gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn cyfrifo a thalu pensiynau yn brydlon a chywir.

<b>Cyf.</b>	<b>Mesur Cyflawni</b>	<b>Sylwadau Chwarter 1</b>	<b>Ch 1 19/20</b>	<b>Ch 4 18/19</b>	<b>Ch 3 18/19</b>	<b>Ch 2 18/19</b>	<b>Ch 1 18/19</b>	<b>Ch 1 17/18</b>	<b>Ch 1 16/17</b>
CD9.03	Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - amcangyfrif.		4.10	4.64	4.40	4.20	3.50	7.40	7.40
CD9.04	Cyfartaledd nifer y ddyddiau gwaith a gymerwyd i anfon llythyr yn hysbysu gwerth buddion ymddeol - gwir werth.		1.50	2.03	1.00	1.80	2.10	3.00	3.30
CD9.05	Cyfartaledd nifer o ddyddiau gwaith a gymerwyd i gyflawni cyfrifiadau a thaliadau dibynyddion yn dilyn marwolaeth aelod o'r cynllun.		5.94	6.89	8.73	9.10	6.70	9.30	12.25


### Gwallau Mewnol

Tud. 126



### Mewngofnodiad Cyntaf Pensiwn Ar-lein ers Mehefin 2018

Tud. 127



**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID  
2019.20**

**Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg - Mesurau Cyflawni Blynyddol**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans  
Arweinydd Tim Cyfrifol: Sian Pugh

Pwrpas y Gwasanaeth:

Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon

<b>Cyf.</b>	<b>Mesur Cyflawni</b>	<b>Sylwadau Cyfnod 1 2019/20</b>
CD5.01	Llwyddiant i gadw o fewn y gyllideb	<p>Adroddwyd ar sefyllfa diwedd y flwyddyn 2018/19 yn ystod y cyfnod cyntaf o 2019/20 gan adrodd i'r Cabinet 21/5/19 ac yna i'r Pwyllgor Archwilio 13/06/19. Er fod yr Adran Plant yn gorwario (£1.6m), Priffyrdd a Bwrdeistrefol (£618k), Economi a Chymuned (£185k) ac Addysg (£116k), drwy ddefnyddio'r tanwariant un-tro ar benawdau Corfforaethol ac hefyd gan yr Adran Amgylchedd i gynorthwyo i leddfu'r gorwariant, llwyddwyd i gyllido cyfanswm y gwariant yn unol â'r bwriad am 2018/19, gan ddefnyddio £1.5m o gronfeydd i ariannu bidiau un-tro a pheidio gwneud unrhyw ddefnydd o falansau cyffredinol y Cyngor.</p> <p>Yn unol â'r drefn newydd o adrodd, bydd adroddiad adolygiad yn cael ei baratoi ar gyfer sefyllfa diwedd Awst, diwedd Tachwedd ac yna ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Y newid yn y drefn adrodd wedi ein cynorthwyo i gydymffurfio efo'r gofynion newydd i gau'r cyfrifon fis yn gynt oedd yn gryn her.</p>



**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID  
2019.20**

**Gwasanaeth Cyllid a Chyfrifeg - Mesurau Cyflawni**

Uwch Reolwr Cyfrifol : Ffion Madog Evans  
Arweinydd Tim Cyfrifol: Sian Pugh

Pwrpas y Gwasanaeth:

Darparu gwasanaeth cyllid a chyfrifeg, a chynorthwyo a chefnogi gwasanaethau i fod yn effeithiol ac yn effeithlon

Iud. 129

Cyf.	Mesur Cyflawni	Sylwadau Cyfnod 1 2019/20
CD5.3	Monitro ariannol gan gynnwys cynhyrchu adroddiadau i'r Rheolwyr Cyllidebau, Tim Rheoli Corfforaethol, Aelodau Cabinet, Cabinet a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, ynghyd â monitro perfformiad cynlluniau arbedion a thoriadau y Cyngor.	<ul style="list-style-type: none"> <li>· Adroddwyd ar sefyllfa diwedd y flwyddyn ariannol refeniw, cyfalaf a'r arbedion i'r Cabinet 21/05/19 ac i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu 13/06/19.</li> <li>· Adroddiadau misol o wariant yn erbyn y gyllideb yn cael eu gyrru i reolwyr cyllidebau.</li> <li>· Y gwaith o fonitro arbedion yn digwydd yn barhaus, gyda adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r timau rheoli adrannol ac i gyfarfodydd herio perfformiad adrannol ac yn cael eu hymgorffori yn adroddiadau Aelodau Cabinet. Adroddiadau arbedion wedi eu cwblhau ar gyfer y cylch Mis Mehefin o'r cyfarfodydd herio sydd yn cynnwys asesiad o wireddu y cynlluniau arbedion newydd 2019/20 ymlaen. Rhagwelir fod risg i gyflawni nifer o'r cynlluniau arbedion newydd ar gyfer 2019/20 ymlaen.</li> <li>· Byddwn yn adrodd ar sefyllfa ddiwedd Awst, Tachwedd a Mawrth o ran yr adolygiadau ariannol.</li> </ul>
CD5.04	Llunio a dosbarthu Cyllideb y Cyngor yn flynyddol ac yn unol â'r amserlen benodol a phenodedig i gyrraedd y camau allweddol angenrheidiol	<ul style="list-style-type: none"> <li>· Gwaith eisioes wedi cychwyn ar daflunio Strategaeth Ariannol 2020/21 gan edrych ar wahanol benawdau chwyddiant, pwysau ar wasanaethau, cyfraddau Treth y Cyngor, arbedion ac ystyriaethau eraill y gyllideb.</li> <li>· Bydd y gwaith manwl o edrych ar strwythurau staffio a phwyntiau cyflog ayyb yn cychwyn yn fuan, sydd yn unol a'r drefn flynyddol i sefydlu cyllideb y flwyddyn sydd i ddod.</li> </ul>
CD5.5	Cwblhad o'r Cyfrifion Terfynol (Cyfrifon Gwynedd, 2 Cyd-Bwyllgor a'r 4 Harbwr) a'r gofynion perthnasol i gynhyrchu Datganiad o'r Cyfrifon Drafft a sicrhau cymeradwyaeth o'r Datganiad o'r Cyfrifon terfynol.	<ul style="list-style-type: none"> <li>· Cyfrifon Gwynedd, Cyd-Bwyllgorau, Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru a'r Harbyrau wedi eu cwblhau yn gynt ar gyfer 2018/19, gan eu cwblhau a'u cyflwyno i'r Archwilywyr cyn 31 Mai 2019. Y dyddiad yma ddim yn statudol tan 2020/21 ymlaen, ond wedi llwyddo i'w wireddu. Hyn i'w gymharu gyda 30 Mehefin mewn blynyddoedd blaenorol.</li> <li>· Y camau oedd wedi ei gweithredu i geisio ymateb i'r her wedi bod yn llwyddiannus, ond gwaith pellach i'w wneud yn ystod y flwyddyn i geisio gwella a chyflymu ein prosesau ac adnabod a goroesi rhwystrau ar gyfer cyfrifon 2019/20. Bydd oblygiadau cyfrifon grwp yn ofyniad ychwanegol ar y Cyngor o 2019/20 ymlaen.</li> <li>· Dychweliad 'Whole of Government Accounts' 2018/19 yn y broses o gael ei gwblhau fydd yn golygu ein bod yn adrodd yn gynt i Lywodraeth Cymru.</li> <li>· Dychweliadau alldro refeniw a chyfalaf 2018/19 i Lywodraeth Cymru yn y broses o gael eu cwblhau gan y Cyfrifwyr.</li> </ul>

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID  
2019.20**

**Gwasanaeth Incwm - Mesurau Cyflawni**

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan  
Rheolwr Cyfrifol: Stephen Williams

Pwrpas y Gwasanaeth:

Prosesu incwm amrywiol a chasglu dyledion y Cyngor yn brydlon ac effeithlon er mwyn uchafu incwm, tra'n ystyried anghenion yr adrannau a gweithredu'n sensitif i amgylchiadau ariannol dyledwyr


Tud. 130

Cyf.	Mesur Cyflawni	Sylwadau Chwarter 1	Ch 1 19/20	Ch 4 18/19	Ch 3 18/19	Ch 2 18/19	Ch 1 18/19	Ch 1 17/18	Ch 1 16/17
CD7.02	Gwerth holl ddyledion amrywiol dros 6 mis oed (ac eithrio taliadau gohiriedig a dyledion a gyfeirwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill).	Mae'r perfformiad yn well na'r hyn a adroddwyd ar gyfer chwarter 1 18/19 ond wedi gwaethygu mewn cymhariaeth a'r chwarter blaenorol. Mae'r ffaith fod rai o anfonebau i'r Bwrdd Iechyd wedi llithro i'r categori > 6 mis wedi cyfrannu at y dirywiad.	961,908	866,188	1,043,638	1,089,822	1,062,319	937,535	925,294
CD7.05	Cyfradd casglu dyledion amrywiol o fewn y chwarter – Gwerth.	Mae'r perfformiad yn well na'r hyn a adroddwyd ar gyfer chwarter 1 18/19.	89.84%	88.86%	86.22%	84.25%	86.47%	81.97%	85.05%
CD7.06	Canran o ddyledion ble daethpwyd i gytundeb talu gyda'r dyledwr.	Mae'r canran yn uwch na'r cyfnodau blaenorol gan fod anfonebau Hafan /Harbwr Pwllheli yn cael eu codi ar y sistem Gorfforaethol erbyn hyn ac mae cynnydd yn y nifer o gytundebau talu. Mae'r ffigwr is o 5.96% yn cynrychioli cytundebau sydd yn mynd tu hwnt i 2019/2020.	16.55% /5.96%	14.03%	8.19%	6.98%	6.35%	14.67%	12.88%

## Monitro Perfformiad – Incwm (fel ar 31, Mai 2019)

(Dyledion Amrywiol Dros 6 mis oed ac eithrio dyledion â gyfeirwyd am weithrediad pellach i wasanaethau eraill)

Tud. 131



**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID  
2019/20**


**Gwasanaeth Budd-daliadau - Mesurau Cyflawni**

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan  
Rheolwr Cyfrifol: Dylan Griffith

Pwrpas y Gwasanaeth:


Prosesu ceisiadau Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiad Treth Cyngor yn brydlon a chywir, er mwyn rhoi cymorth i ddinasyddion Gwynedd i dalu eu rhenti a biliau Treth Cyngor

Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu cais budd-dâl newydd (nifer o ddyddiau) (CD12.03)




Ers i CAB dderbyn y gontract Cefnogaeth Ariannol a Digidol ar gyfer cwsmeriaid Credyd Cynhwysol, mae'r staff Budd-dal wedi cael mwy o amser i ganolbwyntio ar faterion Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth Cyngor. Mae hyn yn ei dro wedi galluogi'r tîm i leihau'r dyddiau gymerir i brosesu ceisiadau newydd. Mae yna hefyd ostyngiad yn y niferoedd o geisiadau newydd i'w cymharu efo Chwarter 1 2018/19 (lawr o 960 i 727) sy'n cael eu cyflwyno gan fod Gwynedd bellach yn ardal Credyd Cynhwysol Gwasanaeth Llawn.

Cyfartaledd amser a gymerwyd i brosesu hysbysiad newid mewn amgylchiadau (budd-dâl) (dyddiau) (CD12.04)



Yr un rhesymau â CD12.03 yn berthnasol ar gyfer ffigwr newid mewn amgylchiadau Ch1 19/20. Er fod y ffigwr (5.76) yn dangos cynnydd yn erbyn Ch4 2018/19 (4.11), mae'r ffigwr yn cymharu'n debyg yn erbyn Ch1 2018/19 (5.19) & Ch1 2017/18 (6.53).

Canran yr achosion mewn sampl a ddewiswyd ar hap lle bu rhaid addasu'r cyfrifiad yn dilyn gwiriad mewnol (CD12.05)



## Trethi

Pennaeth Cynorthwyol Cyfrifol : Dewi A Morgan

Rheolwr Cyfrifol: E Bleddyn Jones

### Pwrpas y Gwasanaeth:

**Casglu trethi yn brydlon ac effeithlon, gan geisio bod yn hyblyg a chydymdeimladol i amgylchiadau unigolion.**

### Perfformiad:

Roedd blwyddyn ariannol 2018/19 yn un heriol arall i'r Gwasanaeth Trethi, wrth i effaith cyflwyno'r Premiwm Treth Cyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor barhau i gael ei deimlo, ac wrth i'r strwythur staffio newydd ddechrau sefydlogi.

Mae'r tabl isod yn dangos lle rydym wedi bod ar ddiwedd pob mis eleni ac yn y chwe mlynedd ddiwethaf wrth gasglu Treth Cyngor:

	2013/2014	2014/2015	2015/2016	2016/2017	2017/2018	2018/2019	2019/2020
<b>Ebrill</b>	11.88%	11.86%	11.83%	11.66%	11.61%	11.48%	11.52%
<b>Mai</b>	21.46%	21.38%	21.21%	21.10%	21.09%	20.82%	20.83%
<b>Mehefin</b>	30.49%	30.55%	30.53%	30.60%	30.42%	30.03%	
<b>Gorffennaf</b>	39.64%	39.97%	39.80%	39.71%	39.64%	39.13%	
<b>Awst</b>	48.71%	49.00%	48.81%	48.85%	48.74%	48.24%	
<b>Medi</b>	57.96%	58.12%	58.15%	58.06%	57.80%	57.16%	
<b>Hydref</b>	67.23%	67.50%	67.40%	67.19%	67.06%	66.37%	
<b>Tachwedd</b>	76.38%	76.39%	76.63%	76.47%	76.21%	75.58%	
<b>Rhagfyr</b>	85.40%	85.52%	85.73%	85.30%	85.11%	84.61%	
<b>Ionawr</b>	94.36%	94.29%	94.87%	94.30%	94.19%	93.64%	
<b>Chwefror</b>	96.10%	95.79%	95.99%	96.08%	95.83%	95.47%	
<b>Mawrth</b>	96.98%	97.20%	97.29%	97.35%	97.13%	96.65%	

**Tabl 1: Cyfradd Casglu Treth Cyngor**

Gwelir o'r tabl fod cyfradd casglu hyd at ddiwedd Mai eleni yn gymharol gyda 2018/19, ond yn parhau'n is nag yr oedd yn y blynnyddoedd blaenorol.

Yn yr un modd, mae Tabl 2 yn dangos cyfraddau casglu Ardrethi Annomestig:




	2013/2014	2014/2015	2015/2016	2016/2017	2017/2018	2018/2019	2019/2020
Ebrill	11.69%	10.19%	11.99%	10.33%	9.54%	9.76%	10.06%
Mai	21.55%	19.82%	19.54%	19.26%	19.15%	19.18%	20.38%
Mehefin	28.99%	28.64%	28.76%	29.52%	27.35%	28.42%	
Gorffennaf	37.92%	37.30%	37.16%	37.20%	37.05%	44.89%	
Awst	46.14%	45.36%	45.27%	45.37%	45.84%	53.29%	
Medi	63.92%	62.98%	63.60%	62.80%	62.44%	62.52%	
Hydref	72.53%	71.60%	71.48%	70.89%	70.45%	71.29%	
Tachwedd	80.38%	79.48%	79.55%	80.65%	79.08%	79.39%	
Rhagfyr	88.71%	87.57%	87.90%	87.31%	87.07%	87.96%	
Ionawr	96.31%	95.19%	94.96%	95.14%	94.68%	95.25%	
Chwefror	97.22%	96.90%	96.72%	96.55%	96.90%	96.57%	
Mawrth	97.79%	98.19%	98.13%	97.91%	98.54%	98.08%	


Tabl 2: Cyfradd Casglu Ardrethi Annomestig

Gwelir fod hwn yn fwy calonogol – am y tro cyntaf ers 2013/14, mae'r gwasanaeth wedi casglu dros 20% o'r debyd blynyddol erbyn diwedd Mai. Mae hyn yn welliant arwyddocaol ar y blynyddoedd diweddar.

#### Galwadau ffôn

Mae delio gyda cyfaint y galwadau ffôn a dderbynnir yn parhau i fod yn bryder. Rydym wedi buddsoddi mewn meddalwedd monitro, ond byddwn yn parhau i ystyried yr opsiynau sydd ar gael i ymdrin â'r mater ymhellach. Mae cyfnod mis Mawrth ac Ebrill bob amser yn brysurach oherwydd dyma'r cyfnod bilio blynyddol wrth gwrs, ond gwelir isod nad yw nifer y galwadau a gollir, na'r cyfartaledd amser cyn cael ateb, yn cwrdd â'n disgwyliadau ar hyn o bryd.





Serch hyn, rydym yn llwyr ymwybodol fod y graffau uchod yn arddangos yr her sydd yn bodoli i gynnal lefel dderbyniol er mwyn ymdrin â galwadau ffôn. Rhaid bod yn ymwybodol hefyd fod mentrau i adolygu cyfrifon Treth Cyngor er mwyn sicrhau fod pawb yn talu'r swm cywir (e.e. adolygu disgowntau person sengl) o bosib am gynyddu nifer y galwadau, nid eu lleihau.

#### Egwyddorion “nyj”

Ers 2 flynedd, mae'r gwasanaeth wedi edrych ar ddefnyddio egwyddorion “nyj” i weld os gellir cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau casglu Treth Cyngor, yn enwedig benodol ceisio symud trethdalwyr i dalu trwy ddebyd uniongyrchol yn hytrach na thrwy ffyrdd eraill.

**MONITRO PERFFORMIAD ADRAN CYLLID  
2019-20**

**Gwasanaeth Buddsoddi a Rheolaeth Trysorlys - Mesurau Cyflawni**

Pennaeth: Dafydd L Edwards  
Rheolwr Cyfrifol: Caroline L Roberts

Pwrpas y Gwasanaeth:

Uchafu budd o fuddsoddi'r Gronfa Bensiwn, a chadw cyfrifon priodol;  
Buddsoddi llif arian y Cyngor yn sâff, gyda llôg derbyniol;  
Rheoli benthyciadau hir-dymor

1 ud. 139

Cyf.	Mesur Cyflawni	Sylwadau Chwarter 1	Ch1 19/20	Ch4 18/19	Ch3 18/19	Ch2 18/19	Ch1 18/19	Ch1 17/18	Ch1 16/17
CD13.05	Cronfa Bensiwn - Perfformiad buddsoddi'r rheolwyr portffolio o'i gymharu â'r meincnod penodol a osodwyd ar eu cyfer.	Ystadegau ddim ar gael ar gyfer y cyfnod dan sylw, gan derbynnir yr ystadegau perfformiad wedi diwedd y chwarter gan ein ymgynghorwyr buddsoddi.		1.90	-0.30	0.70	0.70	+1.1	+0.4
CD13.06	Diogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau - dadansoddiad chwarterol gan Arlingclose o'r sgôr credyd (1 ydi'r gorau, sef statws credyd AAA, 2 ydi AA+, 3 ydi AA, 4 ydi AA-, 5 ydi A+, 6 ydi A, 7 ydi A-).			4.96	5.19	4.21	3.85	3.30	3.43
CD13.07	Incwm llog ar adnau arian mewn banciau i'w mesur yn erbyn cyfradd 7 diwrnod LIBID heb ei compowndio			1.09	0.62	0.65	0.61	0.43	0.66

# Eitem 12

## CABINET CYNGOR GWYNEDD

### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

#### 1 CYFLWYNIAD

<b>Dyddiad:</b>	16eg Gorffennaf 2019
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad Aelod Cabinet Amgylchedd
<b>Pwrpas:</b>	Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cynghorydd Gareth Griffith
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Amgylchedd

- 1.1 Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel Aelod Cabinet Amgylchedd. Bydd hyn yn cynnwys adrodd ar le mae'r mesurau perfformiad arni a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2 Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu gennyf mewn cyfarfodydd o'r Tîm Rheoli a gynhaliwyd yn benodol at y pwrpas sydd hefyd yn cynnwys 2 gynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu perthnasol.
- 1.3 Ar y cyfan, rwy'n hapus gyda pherfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt neu fod camau priodol wedi eu cymryd er mwyn gwella perfformiad.

#### 2 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

- 2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

**3 PERFFORMIAD** Mae **Atodiad 1** yn adrodd ar y mesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio. Mae'r **Gwasanaeth Cynllunio** yn gyfrifol am hwyluso a rheoli datblygiadau er budd cymunedau, yr economi a'r amgylchedd.

- 3.3 Mae'r mesur **Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau cynllunio ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu (C2)** yn dangos yn glir y gwahaniaeth rhwng yr amser a gymerir i benderfynu ceisiadau gan Swyddogion, o'i gymharu â cheisiadau sy'n cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Yn y cyfnod diweddar gwelir gwahaniaeth mawr rhwng yr amser a gymerwyd i benderfynu ceisiadau yn y Pwyllgor, gan fynd o 378 diwrnod ar gyfer Ebrill 2019, i 79 diwrnod ym Mai 2019. Fel arfer, mae penderfyniadau yn cael eu penderfynu ynghynt gan swyddogion na'r Pwyllgor oherwydd natur fwy cymhleth neu gynhennus ceisiadau sy'n cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor, ond ym Mai 'roedd y Pwyllgor yn dod i benderfyniad yn gynt na'r swyddogion. 'Roedd nifer o ffactorau ynghlwm a'r sefyllfa yma, gan gynnwys bod swyddogion yn aros am benderfyniadau ar apeladau cynllunio er mwyn rhoi arweiniad ar geisiadau tebyg. 'Roedd hefyd angen aros i ganllawiau cynllunio atodol gael eu mabwysiadu er mwyn rhoi cig ar esgyrn y polisiâu a fabwysiadwyd fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Er bod perfformiad swyddogion

cynllunio wedi dirywio yn ddiweddar, dylid nodi fod 76% o'r ceisiadau gael eu penderfynu o fewn yr amser statudol, gan amlygu mai nifer fechan o geisiadau mewn gwirionedd sydd wedi arwain at y dirywiad yn eu perfformiad.

- 3.4 Dylid nodi ar y cyfan fod Pobl Gwynedd yn gyffredinol fodlon gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y Gwasanaeth Cynllunio. Fodd bynnag mae wedi cael ei nodi yn gyson fod eu cwsmeriaid yn anfodlon gyda'r trefniadau cysylltu â'r gwasanaeth. Mae hyn yn thema sydd hefyd wedi dod i'r amlwg yn adolygiad Ffordd Gwynedd y gwasanaeth ac y bydd yn derbyn sylw o'r herwydd.
- 3.5 Mae'r dasg o fesur gwaith ym maes gorfodaeth cynllunio mewn ffordd ystyrlon yn parhau. Bellach mae'r gwasanaeth wedi bod yn categoreiddio achosion er mwyn eu blaenoriaethu. Y bwriad wrth flaenoriaethu yw sicrhau fod yr achosion mwyaf difrifol yn cael eu datrys gan newid y ffocws i'r hyn sy'n bwysig i bobol Gwynedd yn hytrach na datrys nifer uchel o achosion hawdd yn gyflym. Hyd yma yn 2019-20 mae'r gweasant wedi ymchwilio mewn i 11% o'r achosion sydd yn agored. Dylid cofio, fodd bynnag bod natur gwaith Gorfodaeth Cynllunio yn araf oherwydd y gofynion cyfreithiol sydd o gwmpas y broses.
- 3.6 Wedi mabwysiadu'r Wedi mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn haf 2017, mae'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi bod yn gweithio'n galed i ddatblygu a mabwysiadu canllawiau cynllunio atodol er mwyn rhoi cig ar esgryn y polisiâu Cynllunio. Mabwysiadwyd dau ganllaw cynllunio atodol ym Mawrth 2019, ac un ym mis Ebrill. Mae canllawiau cynllunio eraill yn agos i'w cwblhau a'u mabwysiadu, ond bod penderfyniadau apeliadau diweddar wedi achosi ailystyried rhai agweddau o'r canllaw.
- 3.7 Pwrpas **Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd** yw cefnogi busnesau a gwarchod safonau iechyd cyhoeddus ac amgylcheddol a safonau masnach ar gyfer y cyhoedd a sicrhau fod gweithgareddau trwyddedig yn cael ei ddarparu mewn ffordd sydd yn gwarchod y cyhoedd ac yn cefnogi busnesau. Mae mesur **Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd (G6)** yn nodi fod 99.15% o'r sefydliadau bwyd yn cydymffurfio, gyda dim ond 0.85% yn methu sef 18 busnes allan o 2124. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda'r busnesau sydd yn methu i gywiro'r sefyllfa.
- 3.8 Mae'r mesurau ar gyfer **canran y sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiadau Hylendid Bwyd (G8) a Safonau Bwyd (G9)**, yn dangos fod y gwasanaeth yn parhau i fod yn methu cyflawni arolygiadau Hylendid Bwyd a Safonau bwyd yn unol â'u rhaglen. Ar ddiwedd y cyfnod diwethaf 'roedd 8.55% o archwiliadau Hylendid Bwyd, a 36.24% o'r archwiliadau Safonau Bwyd oedd wedi eu rhaglennu heb eu cwblhau. Mae hyn cynnwys ôl-gronid o archwiliadau sydd dros ben ers 2018/19.
- 3.9 Wedi i mi herio eu perfformiad nododd y Gwasanaeth fod dechrau'r flwyddyn yn draddodiadol yn gyfnod o gofnodi a thacluso ar ôl y flwyddyn flaenorol. Disgwylir i'r gwasanaeth wella eu perfformiad mewn perthynas â'r rhaglen yn y cyfnod nesaf, gan ymweld â nifer o fusnesau tymhorol. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn mwy o adnoddau yn ddiweddar er mwyn eu cynorthwyo i ymdopi gyda'u llwyth gwaith. 'Rydw i wedi gofyn iddynt adrodd ar eu cynnydd mewn perthynas â'r addewidion a wnaethpwyd i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn y cyfarfod herio perfformiad nesaf.
- 3.10 Dengys y wybodaeth ynghylch **Cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu cais trwydded tacsï (G7)** fod eu perfformiad o ran prosesu trwyddedau cerbydau a

chwmniau yn parhau o few 2 ddiwrnod ar gyfartaledd. Mae'r perfformiad wrth brosesu trwyddedau gyrwyr wedi aros yn sefydlog ar y cyfan, gan ostwng o 28 diwrnod i 18.22 diwrnod cyn dychwelyd i 25.69 diwrnod. Mae nifer o drwyddedau gyrwyr tacsis wedi cael eu hadnewyddu yn ddiweddar gan fod nifer o yrwyr wedi dod i ddiwedd cylch tair blynedd. Golyga hynny fod nifer uchel o geisiadau wedi eu prosesu yn gyflym gan ddod a'r cyfartaledd i lawr.

- 3.11 Mae'r **Gwasanaeth Eiddo** yn gyfrifol am gefnogi Adrannau'r Cyngor drwy ddarparu eiddo addas ar gyfer cyflwyno gwasanaethau a sicrhau fod portffolio eiddo'r Cyngor yn cael ei reoli'n effeithlon ac effeithiol.
- 3.12 Gwelwn fod data mesur perfformiad ar yr **Amser (mewn dyddiau) a gymer i gyflawni cais am waith cynnal a chadw (Eiddo1)** wedi gwella'n raddol dros y deuddeg mis diwethaf o 8.4 diwrnod i 6.9 diwrnod. Gwelir yma effaith gadarnhaol system TG newydd sydd wedi hwyluso prosesau gwaith, ac un o grefftwyr cyflogedig y Cyngor yn dychwelyd i'w waith ar ôl salwch.
- 3.13 Adroddodd y Gwasanaeth fod perfformiad mesur **Canran bodlonwydd cwsmeriaid yr uned cynnal a chadw (Eiddo2)** wedi dirywio yn ddiweddar, yn disgyn o 10 allan o 10 yn Chwefror 2019, i 8 allan o 10 yn Ebrill a Mai. Yn ôl y gwasanaeth mae hyn yn dilyn cwmni Falconer Electricals yn mynd i'r wal. Y cwmni yma oedd un o brif contractwyr y Cyngor ym Meirionnydd a bu cryn drafferth cynnig gwasanaeth yn yr ardal ar fyr rybudd.
- 3.14 Mae perfformiad mesur **Canran adeiladau gyda systemau diogelwch cyflawn mewn lle (Eiddo4)** wedi dirywio yn sylweddol yn ddiweddar, o 91% ym Mehefin 2018 i 63% ym mis Rhagfyr 2018. Yn ei adroddiad i'r Cabinet bu i'm rhagflaenydd nodi fod y Gwasanaeth wedi comisiynu cwmni allanol i gyflawni'r gwaith oherwydd bod aelod staff yn sâl. Bellach mae'r sefyllfa wedi gwella, gyda 76% o'r adeiladau bellach gyda systemau diogelwch mewn lle. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi penodi swyddog newydd i ymgymryd â'r gwaith a hyderaf bydd y perfformiad yn dychwelyd i'w uchelfannau hanesyddol.
- 3.15 Rhaid nodi na fyddai'r gwasanaeth yn gadael unrhyw un o adeiladau'r cyngor i beidio â bod yn ddiogel i staff a'r cyhoedd. Mae unrhyw archwiliadau angenrheidiol wedi eu cwblhau, ac unrhyw risgiau wedi eu rheoli gyda mesurau dros dro yn cael eu cyflwyno os na ellir datrys y mater yn barhaol yn syth. Gall geiriad y mesur hwn fod yn gamarweiniol gan ei fod yn awgrymu fod gennym adeiladau mewn defnydd sydd ddim yn ddiogel. Gan nad yw hyn yn gywir byddwn yn edrych i wella'r geiriad yn y dyfodol i adlewyrchu'r gwir sefyllfa.
- 3.16 Mae'r **Gwasanaeth Trafnidiaeth Integredig** yn ei gyfanrwydd yn hwyluso gallu pobl i deithio o un lle i'r llall ar draws rhwydwaith sy'n ddiogel gan hefyd godi eu hymwybyddiaeth a'u haddysgu am ddiogelwch.
- 3.17 Mesurau pwysig ar gyfer y Gwasanaeth yw'r **Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan contract i'r Cyngor (Cludiant02) a Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus masnachol eu natur (Cludiant03)**. Bellach mae'r gwasanaeth wedi newid i fesur y nifer o ddigwyddiadau a achosodd gwynion yn hytrach na'r nifer o gwynion a dderbyniwyd. Mae hyn wedi deillio o sylweddoli bod pob digwyddiad yn achosi nifer o gwynion, ac felly ei fod yn fwy ystyrlon felly i gofnodi digwyddiadau. Cofnodwyd 6 digwyddiad (2 i Cludiant02, a 4 i Cludiant 03) yn ddiweddar. Nodwyd bod cwmni Arriva wedi cael trafferthion gyda salwch staff a cherbydau yn torri i lawr ar wasanaeth 3b, yn ogystal â thynnu'n ôl o ddarparu gwasanaethau

yn ddiweddar. Ers i gwmni arall ddechrau darparu'r gwasanaethau mae'r nifer o gwynion wedi gostwng.

- 3.18 Mae'r **Uned Traffig, Prosiectau a Gwaith Stryd** yn gyfrifol am brosesu gorchmynion traffig. Bellach mae'r amser mae'n ei gymryd i brosesu gorchmynion traffig wedi gostwng i 174 diwrnod. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gwneud llawer o waith i ddeall y broses yn well, yn enwedig y prosesau cyfreithiol. Rwy'n hyderus bydd y ddealltwriaeth ddyfnach yma o holl gydrannau'r broses yn arwain at wella'r perfformiad ymhellach.
- 3.19 Mae gwaith **Cynllun Rheoli Carbon y Cyngor** wedi arwain ar leihau allyriadau carbon y Cyngor o 9.9% yn y flwyddyn rhwng Ebrill 2018 ac Ebrill 2019. Bu i'r tywydd achosi i'r allyriadau gynyddu ychydig yn yr un cyfnod yn 2018, ond yma gwelwn effaith y cynllun ar leihau allyriadau, heb weld tywydd gwael yn effeithio arno.
- 3.20 Mae'r dasg o ganfod mesurau sy'n adlewyrchu gwaith y **Gwasanaeth Cefn Gwlad** yn parhau. Mae'n debyg bydd y mesurau yn deillio o waith Ffordd Gwynedd y Gwasanaeth a byddaf yn adrodd arno i'r dyfodol.
- 3.21 Mae yna 3 adolygiad Ffordd Gwynedd mewn llaw ar hyn o bryd. Yn y maes Cynllunio (sy'n cael ei redeg yr un pryd ag adolygiad Rheolaeth Adeiladu) mae llawer o waith dadansoddi wedi ei wneud, ac mae eu canfyddiadau wedi amlygu meysydd i'w gwella. Mae'r Uned Cefn Gwlad wedi dechrau ar adolygiad, gan fynd ati'n frwd i gasglu data a dadansoddi eu prosesau. Mae'r Uned Stadau a Chyfleusterau eto i ddechrau, gan nodi y byddant yn barod i ddechrau'r adolygiad ymhen 6 mis.

## 4 SEFYLLFA ARIANNOL/ ARBEDION

### 4.1 Gwireddu Cynlluniau Arbedion Cyfredol

- 4.2 Mae holl gynlluniau arbedion yr Adran Amgylchedd hyd at ddiwedd y flwyddyn 2018/19 wedi eu gwireddu.
- 4.3 Mae 13 o gynlluniau arbedion 2019/20 yr adran wedi eu cwblhau, neu ar y ffordd i gael eu cwblhau yn amserol. Mae un cynllun, cynllun arbedion Teithio Staff yn aros cymeradwyaeth gan y Cabinet.
- 4.4 Nodwyd bod risgiau ynghlwm a rhai o gynlluniau'r adran: O ran cynllun Cynyddu incwm drwy gynyddu'r nifer meysydd parcio sy'n rhai talu ac arddangos a chynyddu ffioedd parcio gan ystyried yr un pryd a oes modd cadw cost parcio i drigolion yr un fath neu ei leihau hyd yn oed, mae angen gwneud mwy o waith datblygu, gan gynnwys y Pwyllgor Craffu Cymunedau er mwyn cywain syniadau arloesol. O ran cynllun Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio mae eto angen gwneud mwy o waith ymchwil er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth gorau. O ran cynllun Lleihau'r adnodd o fewn y Gwasanaeth polisi Cynllunio, mae angen gweithredu'n ofalus er mwyn cyflawni'r arbediad wrth barhau i gynnig y gwasanaeth.

---

## Barn y Swyddogion Statudol:

### i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynghyd â phriodoldeb

## **ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa'r Adran Amgylchedd o ran gwireddu'r cynlluniau arbedion, gyda 13 o gynlluniau arbedion 2019/20 eisioes wedi eu gwireddu neu ar drac i wireddu'n amserol, gyda'r risg sydd ynghlwm â'r tri cynllun arbedion arall wedi eu nodi yn rhan 4 o'r adroddiad. Bydd Swyddogion Cyllid yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet cyfrifol i fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau yma, a byddwn mewn lle i adrodd ymhellach ar y cynnydd yn dilyn yr adolygiad cyllidol nesaf.

---


## **Atodiadau**

### **Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad**



C1 Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasana...

● Anfodlon/Dissatisfied ● Bodlon/Satisfied



Nifer o Gwsmeriaid:  
Bodlon

10

Nifer o Gwsmeriaid:  
Anfodlon

3

Nifer o Gwsmeriaid:  
Dim Ymateb

9

Nifer o Gwsmeriaid:  
Targedwyd

22

Data Fesul Penderfyniad y Cais

■ Anfodlon/Dissatisfied ■ Bodlon/Satisfied

Tud. 145

Caniatawyd gydag Amodau/Approved with Condit...

9

Gwrthodwyd/Refused

3

1


0 1 2 3 4 5 6 7 8 9

NIFER O GWSMERIAID

**Sylwadau**

Yr holiadur yn seiliedig ar sampl o gwsmeriaid sydd wedi derbyn penderfyniad ar gais cynllunio yn ystod y cyfnod. Mae'r canlyniadau yn dangos mai'r rhesymau dros anfodlonrwydd canran fychan o'r cwsmeriaid yw anfodlonrwydd gyda trefniadau cysylltu gyda'r Gwasanaeth ac nad oes cyfle i drafod cyn cael gwrthodiad. Mae'r sylwadau o fodlonrwydd yn gyson yn cynnwys sylwadau cadarnhaol iawn am y gwasanaeth a'r cyngor a roddir gan swyddogion (er gwaethaf cais wedi ei wrthod mewn rhai achosion). Er hynny rhaid nodi fod nifer o'r cwsmeriaid bodlon wedi ychwanegu sylwadau yn ymwneud â'r drefn anodd o gael gafael ar swyddog cynllunio / trefniadau cysylltu ac fod y drefn o gael cyngor cyn cyflwyno cais a'r cyfle i wneud diwygiadau yn cael ei groesawu. Mae'r canran o gwsmeriaid sydd yn fodlon yn parhau i fod yn weddol gyson.


## C2 Pa mor sydyn mae'r holl geisiadau Cynllunio ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu



### Sylwadau

Mae'r nifer o ddyddiau mae ceisiadau ar gyfartaledd wedi cymryd i'w penderfynu ers Ebrill 2017 wedi bod yn eithaf cyson o gwmpas y 60 diwrnod. Mae'r perfformiad erbyn hyn wedi ei rannu i ddangos cyfartaledd y cyfnod, cyfartaledd ceisiadau dirprwyedig a chyfartaledd ceisiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Ers y cyfnod o fabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo newydd (1/5/18) mae'r cyfartaledd ar gyfer ymdrin gyda cheisiadau dirprwyedig (lliw melyn) wedi bod yn weddol gyson gyda'r cyfnod statudol ar gyfer ymdrin gyda cheisiadau. Mae mabwysiadu'r Cynllun Dirprwyo newydd yn gyffredinol wedi golygu llai o geisiadau gerbron y Pwyllgor ac felly mae canran uwch o geisiadau yn cael penderfyniad o dan y drefn dirprwyedig. Mae cyfartaledd amser ceisiadau sydd gerbron y Pwyllgor yn tueddu bod yn llawer uwch a hynny oherwydd fod natur y cais fel arfer yn fwy cymhleth neu gynhennus lle o bosib fod negodi neu ddisgwyl gwybodaeth wedi digwydd er mwyn gallu gwneud argymhelliad clir ac hefyd mae hyn hefyd yn gallu cael ei ddylanwadu gan y nifer o geisiadau sydd yn dod gerbron Pwyllgor ac unrhyw benderfyniad i ohirio. Noder fod cyfartaledd swyddogion yn ystod Mai 2019 yn uwch na'r arfer – er hyn bu i 76% (78 o 102 cais) o'r ceisiadau gael eu penderfynu o fewn yr amser statudol ac felly mewn gwirionedd nifer isel o geisiadau sydd wedi dylanwadu ar y cyfartaledd uchel sy'n cael ei adrodd ar gyfer y mis yma.

### C3 Canran y ceisiadau cynllunio wedi eu pennu a gafodd eu cymeradwyo



#### Sylwadau

Mae'r canran o geisiadau sydd yn cael eu caniatáu yn weddol gyson ac yn parhau i fod yn dystiolaeth bendant o gysondeb a gwasanaeth cynllunio cadarnhaol. Noder y gostyngiad bychan sydd yn dilyn y cyfnod o fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd diwedd Gorffennaf 2017 sydd wedi golygu fod rhai agweddau polisi wedi newid yn sylweddol a'i bod yn debygol nad oedd rhai ymgeiswyr / asiantwyr yn ymwybodol o'r oblygiadau e.e. datblygiad oedd yn cwrdd ag anghenion y Cynllun Datblygu Unedol yn flaenorol ond yn groes i bolisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Bydd parhau i annog defnydd o'r gwasanaeth cyn-cyflwyno cais hefyd o gymorth i sicrhau nifer uchel o geisiadau yn cael eu cymeradwyo.

### Nifer o Achosion Gorfodaeth angen sylw yn 2019-20

Risg/Risk	Agored/ Pending	Archwiliwyd/ Investigated	Total
1. Uchel/High	15		15
2. Canolig/Medium	60	8	68
3. Isel/Low	25	4	29
<b>Total</b>	<b>100</b>	<b>12</b>	<b>112</b>

### Canlynaid yr Archwiliad

Investigation Outcome	Count of Investigation Outcome
Angen Camau Cadarnhaol	5
Dim Angen Gweithred Pellach	7
<b>Total</b>	<b>12</b>

### Nifer o ddyddiau ar gyfartaledd i Harchwilio

29.08


### Nifer o Achosion i'w Harchwilio

100

### Canran o Achosion Gorfodaeth wedi'u Harchwilio


Statws ● Agored/Pending ● Archwiliwyd/Investigated

Tud. 148



### Dadansoddiad fesul Risg

Statws ● Agored/Pending ● Archwiliwyd/Investigated



### Nifer o Achosion Gorfodaeth angen Camau Cadarnhaol 2019-20

Risg/Risk	Concluded Positive Outcome	Pending Positive Outcome	Total
2. Canolig/Medium	2	3	5
<b>Total</b>	<b>2</b>	<b>3</b>	<b>5</b>

### Canlyniad y Camau Cadarnhaol

Resolution Reason	Count of Resolution Reason
1. Informal Negotiation	1
3. Planning Permission Granted or Enforcement Appeal	1
<b>Total</b>	<b>2</b>


### Nifer o dyddiau ar gyfartaledd i cwblhau Camau Cadarnhaol

8.50

### Canran o Achosion Camau Cadarnhaol wedi eu cwblhau


Statws ● Concluded Positive Outcome ● Pending Positive Outcome

Tud. 149



### Dadansoddiad fesul Risg

Statws ● Concluded Positive Outcome ● Pending Positive Outcome



### Sylwadau

Bwriad y dangosyddion yw mesur canran yr holl achosion y llwyddir i ymchwilio iddynt o fewn amserlen benodol. Nod hynny yw annog y Gwasanaeth i ddelio â phob achos ar sail lefel blaenoriaeth ac mor gyflym a phosibl. Gall y cyhoedd wedyn weld canlyniad ymchwiliadau a'r camau sydd wedi eu cymryd i ddatrys y sefyllfa (ble mae angen datrasiad). Mae'r dangosydd yma yn y broses o gael ei ddatblygu a'i fireinio er mwyn adnabod y nifer o achosion sydd yn parhau yn agored ac er adnabod llwyth gwaith swyddogion a pherfformiad yr Uned Gorfodaeth yn ei gyfanrwydd at bwrpas rheolaeth effeithiol. Y nod yw gallu archwilio mwy o achosion, gan roi blaenoriaeth i'r rhai risg uchel a chanolig yn y lle cyntaf a chael canran uwch o achosion ble mae camau cadarnhaol wedi eu cwblhau. Gan ddweud hyn mae'n rhaid derbyn nad yw cymryd camau gorfodaeth ffurfiol yn broses sydyn ei natur oherwydd gofnyon ymchwilio, gofnyon statudol y broses a'r broses gyfreithiol o'i gwmpas. Mae'n wir dweud fod canlyniad ymchwiliad yn aml yn gallu bod yn bwysicach na'r cyfnod o gymerwyd i ddelio gyda'r achos. Yn ddiweddar mae blaenoriaeth yr Uned wedi bod ar apeladau yn deillio o achosion gorfodaeth ac hefyd ar gyflwyno rhybuddion gorfodaeth ar yr achosion mwyaf difrifol.

## Y mesurydd polisi ers Awst 2017:

C5 - Mabwysiadu Canllawiau Cynllunio Atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn cynnwys mabwysiadu 4 CCA erbyn Chwarter 3 o 2017-18 (Dyma nodwyd yn y fframwaith fonitro i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd)

## Sylwadau – Canllawiau Cynllunio Atodol


Mae'r CCA yn rhoi cig ar asgwrn polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn rhoi arweiniad ar weithrediad cyson y polisiau i swyddogion ac i ddarpar ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio.

Nodwyd mewn adroddiadau monitro perfformiad blaenorol cafodd yr amserlen a nodir uchod ei gytuno pan oedd y Gwasanaeth yn disgwyl mabwysiadu'r Cynllun yn gynharach yn ystod 2017. Fe lithrodd yr amserlen yn wreiddiol oherwydd ni chafodd y Cynllun ei fabwysiadu tan ddechrau Chwarter 2 (2017-18) ac felly nid oedd yn ymarferol i roi adnoddau o'r neilltu i ddechrau'r gwaith. Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun, gwelwyd cynnydd yn y galw am arweiniad polisi cynllunio gan yr Uned oddi wrth swyddogion cynllunio yn gysylltiedig â chymhwyso rhai o'r polisiau newydd a bu swyddogion yn yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd adref yn sâl am gyfnodau gymharol hir. Gyda'i gilydd nid oedd adnoddau digonol nac amser rhesymol i allu gwneud cynnydd arwyddocaol i baratoi'r gyfres gyntaf o CCA ac mae'n debyg mai'r risg sydd yn gysylltiedig a hyn yw y bydd cyfnod hirach lle nad oes arweiniad manwl ar rai o bolisiau cynllunio'r CDLI. Cafodd trefniant cyfnewithio rhwng yr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd a'r 2 Wasanaeth Cynllunio ei gytuno ym mis Mai 2018 er mwyn sicrhau bod yr Uned yn gallu rhoi ffocws ar roi arweiniad ar geisiadau sy'n codi materion polisi o sylwedd a rhoi ffocws i waith paratoi'r CCA.


Mae'r tabl nesaf yn rhoi'r wybodaeth diweddaraf am y cynnydd i baratoi'r gyfres gyntaf o'r CCA.

Enw'r Canllaw Cynllunio Atodol	Statws (Tachwedd 2018)
Cymysgedd Tai	Mabwysiadwyd Hydref 2018
Datblygiad twristiaeth – atyniadau a llety	Wedi bod i ymgynghoriad cyhoeddus ond angen ystyried addasiadau yn sgil penderfyniad apêl fydd o bosib angen ymgynghoriad cyhoeddus arall
Tai marchnad leol	Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi mabwysiadu 22 Mawrth 2019
Llecynnau agored o fewn datblygiad preswyl newydd	Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi mabwysiadu 22 Mawrth 2019
Tai fforddiadwy	Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd wedi mabwysiadu 15 Ebrill 2019.
Cynnal a chreu cymunedau cynaliadwy	Ymgynghoriad cyhoeddus Rhagfyr 2018 – Ionawr 2019 , Pwyllgor Craffu 4 Ebrill 2019 ac anelu i 14 Mehefin 2019.
Ymrwymadau cynllunio	Ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal ac yn adrodd i'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd ar 17 Gorffennaf 2019 i fabwysiadu
Trosi adeiladau ac ail-adeiladu tai yng nghefn gwlad	Ymgynghoriad cyhoeddus wedi ei gynnal ac yn adrodd i'r Pwyllgor Polisi ar y Cyd ar 17 Gorffennaf 2019 i fabwysiadu

### C6 - Canran o Dai Fforddiadwy Ganiatawyd yn 2019-20



### C6 - Nifer Cronnus o Dai wedi eu cymeradwyo yn 2019-20




Tud. 15  
Sylwadau

Mae'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy yn golygu fod yr ACLI yn darparu lefel uwch o dai fforddiadwy na'r targed uchaf o fewn y CDLI sydd yn 30%. Mae hyn yn adlewyrchu'r patrwm blaenorol a chadarnhaol ar gyfer nifer o dai fforddiadwy sy'n cael eu caniatu.

G1: Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth (01/04/2019 - 31/05/2019)

Canran o gwsmeriaid a ymatebodd i arolwg ddywedodd eu bod yn fodlon â'r lefel gwasanaeth.

● Anfodlon ● Bodlon



Nifer o Gwsmeriaid Bodlon


23

Cyfanswm Nifer o Gwsmeriaid a Dargedwyd

24

Data fesul Uned

● Anfodlon ● Bodlon



**Sylwadau**

Y gwasanaeth wedi llunio trefn cwestiynu newydd ar gyfer y dyfodol a disgwylir y bydd rhain yn cael eu treialu yn y cyfnod nesaf.


Yn y cyfamser, y tîm Cefnogol eisoes wedi gwneud yr holiaduron ar gyfer Ebrill a Mai yn unol a'r hen drefn er mwyn casglu rywfaint o ddata.

Roedd un cwsmer wedi datgan ei anfodlonrwydd oherwydd nad oedd gan y swyddog na'r gwasanaeth bwerau statudol digonol i ddatrys problem benodol.




G2: Canran y busnesau uchel eu risg sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen (01/04/2019 - 31/03/2020)

● Arolygwyd ● Hwyr ● I'w Wneud



Nifer o fusnesau uchel eu risg wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen

● Arolygwyd ● Y Rhaglen



Nifer o sefydliadau wedi cael arolygiad

3

Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn Hwyr

10

Nifer o sefydliadau angen arolygiad

39

Tud. 153

### Sylwadau


Mae'r mesurydd yma wedi ei addasu i adrodd ar berfformiad cynnal arolygiadau hylendid bwyd, safonau bwyd ac iechyd anifeiliaid eiddo categori risg A yn unig ( y categori risg uchaf).

3 archwiliad Iechyd Anifeiliaid wedi eu cwblhau. 10 yn ymddangos yn hwyr yn ôl y siart - yn hanesyddol roedd y rhaglen yn cael ei chwblhau dros gyfnod o 12 mis gyda rhan helaeth o archwiliadau yn cael eu cynnal yn Chw 3 a 4. Rydym yn y broses o addasu 'due date' yr archwiliadau a chreu 'scheduled actions' yn APP er mwyn dod a'r rhaglen ymlaen, gan gychwyn gyda'r 10 archwiliad sy'n ymddangos yn hwyr.

G3: Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn (01/04/2019 - 31/03/2020)

Canran y busnesau Prosesau Llygredd Awyr sydd wedi cael arolygiad

● I'w Wneud



Nifer o fusnesau wedi cael arolygiad

0

Nifer o fusnesau lle mae'r arolygiad yn hwyr


0

Nifer o fusnesau angen arolygiad

0

Nifer o fusnesau Prosesau Llygredd Awyr sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn

● Arolygwyd ● Rhaglen



Tud. 154

**Sylwadau**

Dim busnesau angen arolygiad tan mis Gorffennaf 2019.

## G4: Canran y sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen (01/04/2019 - 31/05/2019)

Canran y sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rha...

● I'w wneud



Nifer o sefydliadau wedi cael arolygiad

0

Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn hwyr


0

Cyfanswm nifer o sefydliadau angen arolygiad

0

Nifer o sefydliadau bwyd anifeiliaid sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen

● Arolygwyd ● Y Rhaglen



Tud. 155

### Sylwadau

Trefn unigryw gan yr ASB o ran gorfodaeth 'feed' - ar gychwyn bob blwyddyn ariannol mae'r ASB yn gofyn i bob rhanbarth adrodd ar y niferoedd o eiddo sy'n 'due' ymweliad 'feed' ar eu bas data (Prif Swyddog o Wrecsam sy'n arwain ar ran rhanbarth Gogledd Cymru). Y Prif Swyddog wedyn yn dyrannu'r ymweliadau sy'n 'due' rhwng y 6 Awdurdod yn seiliedig ar risg a math o eiddo e.e. Gwneuthurwyr A01, Mixer R10, Cynhyrchwyr Bwydydd Anifeiliaid Anwes R6, Ffermydd (livestock) R13 ayb gyda'r awdurdod perthnasol yn cael taliad penodedig am bob archwiliad (yn ddibynnol ar faint o arian oedd gan yr ASB ar gyfer cyflawni gorfodaeth 'feed' yng Nghymru).

**Nid yw'r ASB (FSA) wedi cadarnhau'r niferoedd o archwiliadau sy'n ddisgwyliedig fel rhan o'r rhaglen flwyddyn yma eto. Er hynny, mae 4 eiddo wedi derbyn archwiliad hyd yma wrth gynnal archwiliadau iechyd anifeiliaid.**

Nodir hefyd bod yr ASB wedi dewis y Gwasanaeth Bwyd Anifeiliaid Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru ar gyfer derbyn archwiliad (audit) yn ystod 2019-20.

Y cynllun yw eu bod yn ymweld â'r Prif Swyddog yn Wrecsam am 1 diwrnod ac wedyn yn ymweld â 1 Awdurdod arall yn y Rhanbarth ar yr ail ddiwrnod (fel gall fod yng Ngwynedd) Mi fydd y Gwasanaeth yn cael 2 fis o rybudd o ddyddiad yr archwiliad.

## G5 Canran o Droseddau a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd (01/04/2019 - 31/05/2019)

Canran o Droseddau a gafodd eu datrys drwy ymyrraeth gan Warchod y Cyhoedd

● Pending ● Sig Breach Rectified



Nifer wedi eu datrys


68

Nifer wedi eu darganfod/angen datrys

108

Data Fesul Uned

● Pending ● Sig Breach Rectified



Tud. 156

### Sylwadau


O ran Rheolaeth Llygredd a thrwyddedu – mae gwelliant sylweddol wedi bod yn y nifer o droseddau a gofnodir ar gyfer maes trwyddedu. Mae 4 cofnod o droseddau trwyddedu yn disgwyl diweddariad ; ond mae'r troseddau wedi eu datrys. Mae tri achos o dorcyfraith materion rheoli llygredd a ddaeth i'n sylw yn ddiweddar yn parhau i ddisgwyl datrysiad gan fod ymchwiliad yn parhau. Mae 2 achos o gofnodi anghyflawn, sydd angen eu diweddarau.

O ran Safonau Masnach (Industry) & (Consumer) – 1 achos wedi ei ddatrys ers yr adroddiad ('gwlaui bync' rwan yn cydymffurfio). Gweddill yr achosion yn cynnwys achosion ar y cyd a'r Heddlu (sy'n disgwyl dyddiad llys) achosion Safonau Masnach mwy cymhleth sy'n cynnwys hel ac asesu tystiolaeth ac wrth gwrs ambell i achos a allai ddiweddu fyny yn y llys yn y dyfodol

O'r chwe thramgwydd sylweddol a nodir ar gyfer yr Uned Bwyd, mae 5 wedi eu datrys ond nid yw'r cofnodion wedi ei diweddarau. Mae un o'r tri throedd sydd yn parhau dan ystyriaeth gan y tîm iechyd a diogelwch hefyd wedi ei ddatrys ond fo'r cofnod heb ei ddiweddarau.


## G6 Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau Hylendid Bwyd (01/04/2018 - 31/05/2019)

Tud. 157




### Sylwadau

Mae nifer y sefydliadau bwyd sydd yn cyrraedd safon hylendid bwyd boddhaol neu uwch yn uchel gyda dim ond 0.85% yn methu, sef 18 busnes. Mae'r busnesau sydd ddim yn cwrdd â safon foddhaol eisoes wedi derbyn sylw pellach i sicrhau nad ydynt yn parhau i weithredu mewn modd sydd yn peri risg i iechyd cwsmeriaid.



### Sylwadau

Gweler y sylwadau isod ynglyn a cheisiadau gyrrwyr tacsîs.




## Sylwadau

Mae'r mesuryddion a ddatblygwyd fel rhan o adolygiad Ffordd Gwynedd yn canolbwyntio ar brofiad y cwsmer o'r cyswllt cyntaf. Felly, mae cyfartaledd y dyddiau a gymerir i benderfynu ceisiadau tasci yn cael eu cyfri o'r achlysur cyntaf y daw cwsmer atom i wneud cais. Nid yw cais yn gallu cael ei brosesu a'i benderfynu tan mae yn gyflawn. O ran ceisiadau am drwyddedau gyrwyr sydd yn cael ei nodi uchod, dau ffactor sydd yn effeithio yn sylweddol ar yr amser - sef yr amser mae'r Gwasanaeth DBS cenedlaethol yn ei gymryd i brosesu tystysgrif DBS a'r amser mae'n cymryd i drefnu Is Bwyllgor Trwyddedu i gael gwrandawriad ar y cais. Golyga hyn fod cais o'r newydd llawer fwy tebygol o gymryd mwy o amser i'w brosesu. Er bod gostyngiad cyffredinol yn yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau o'r newydd mae peth cynnydd wedi bod ers diwedd mis Mawrth yn yr amser a gymerir i brosesu ceisiadau adnewyddu yn ogystal â cheisiadau o'r newydd. Mae hyn oherwydd bod cyfartaledd uwch na'r arfer o geisiadau newydd ac adnewyddu wedi gorfod cael eu cyfeirio at Bwyllgor am benderfyniad.

G8: Canran sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen Hylendid Bwyd (01/04/2019 - 31/03/2020)

● Arolygwyd ● Hwyr ● I'w Wneud



Nifer o sefydliadau bwyd wedi cael arolygiad

96

Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn Hwyr


90

Nifer o sefydliadau angen arolygiad

867

Nifer o sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn

● Arolygwyd ● Y Rhaglen



## Sylwadau

Mae'r graff yn arddangos yr holl arolygiadau hylendid bwyd sydd wedi eu rhaglennu ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys unrhyw ôl groniad o archwiliadau a ddylid fod wedi eu cwblhau cyn diwedd Mawrth 2019.


Ddiwedd Mai roedd 59 archwiliad rhaglenedig heb eu cyflawni. Yn draddodiadol mae swyddogion yn treulio ddechrau mis Ebrill yn mewnbynnu gwybodaeth ymdrech chwarter olaf y flwyddyn flaenorol i'r system gofnodi. Golyga hyn nad yw'r rhaglen archwiliadau'r flwyddyn newydd yn dechrau hyd ddiwedd Ebrill / dechrau Mai. Mae'r Gwasanaeth yn ymdrechu i atal y patrwm gwaith yma drwy raglennu mwyafrif o'r archwiliadau i'w cwblhau yn chwarteri 1-3.

Disgwylir bydd yn ymdrech yn cynyddu yn sylweddol dros y misoedd nesaf wrth inni gynnal archwiliadau mewn busnesau tymhorol.




G9: Canran y sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiad yn unol a'r rhaglen Safonau Bwyd (01/04/2019 - 31/03/2020)

● Arolygwyd ● Hwyr ● I'w Wneud



Nifer o sefydliadau bwyd sydd wedi cael arolygiad yn ystod y flwyddyn

● Arolygwyd ● Y Rhaglen



Nifer o sefydliadau bwyd wedi cael arolygiad

38

Nifer o sefydliadau lle mae'r arolygiad yn Hwyr

162

Nifer o sefydliadau angen arolygiad

247

Tud. 161

## Sylwadau


Mae'r graff yn arddangos yr holl arolygiadau safonau bwyd sydd wedi ei rhaglennu ar gyfer y flwyddyn gan gynnwys ôl groniad o archwiliadau a ddylid fod wedi eu cwblhau cyn diwedd Mawrth 2019.

Roedd 147 o archwiliadau safonau dal yn ofynnol ddiwedd Mawrth 2019 ac wedi eu trosglwyddo i raglen eleni. Ddiwedd Mai roedd 147 o archwiliad rhaglenedig heb eu cyflawni gyda 38 wedi eu cyflawni.

Bydd yr ymdrech i leihau'r ôl groniad yma yn parhau dros y misoedd nesaf.


Gweler hefyd yr hyn nodir dan sylwadau dangosydd G8 ran addasu patrwm gwaith blynyddol swyddogion.

**EIDDO 1 -  
Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i gyflawni cais am waith cynnal a chadw**




Mae'r perfformiad wedi gwella yn ddiweddar oherwydd:


1. System TG newydd wedi hwyluso'r prosesau gwaith gan olygu fod cofnodi galwadau, anfon archebion a diweddarau cwsmeriaid yn cymryd llai o ymdrech. Mae hefyd wedi ein galluogi i ddarganfod gwendidau cofnodi yn haws.
2. Effaith defnyddio ein gweithwyr llaw cyflogedig - tebyg y byddem wedi gweld yr effaith yma ynghynt oni bai am absenoldeb salwch un o'r gweithlu newydd.
3. Wedi sefydlu trefniadau talu anfonebau newydd - hyd yn ddiweddar roedd pob aelod staff yn treulio cyfran o'u hamser yn talu anfonebau. Yn ddiweddar mae'r gwaith yma'n cael ei gyflawni'n bennaf gan un aelod staff sy'n rhyddhau amser y gweddill i fod yn canolbwyntio ar alwadau .
4. System TG newydd hefyd wedi hwyluso'n gallu i adnabod camgymeriadau cofnodi data.




**EIDDO 3 -  
Yr amser (mewn dyddiau) a gymer i gyflawni cais am waith Teleofal**



Cyn i'r gwaith yma drosglwyddo at uyr Uned Cynnal a Chadwroedd y cyfartaledd amser ar gyfer delio gyda galwadau oddeutu 53 diwrnod - mae'r drefn bellach wedi ei thrawsnewid a'r prosesau gwaith yn debyg i'r rhai cynnal a chadw. Mae'r amser cyfartalog a gymer i gyflawni cais am waith Teleofal wedi lleihau hanner o 5 i 4.2 diwrnod dros y flwyddyn diwethaf wrth i'r staff newydd ddod yn fwy cyfarwydd â'r gwaith yn y maes yma.




Mae'r perfformiad yn y maes yma wedi parhau'n sefydlog am bron i ddwy flynedd yn dilyn cyflwyno trefniadau gweithio newydd yn sgil ymarferiad Ffordd Gwynedd. Arweiniodd yr Ymarferiad at sefydlu lefel adnodd staff oedd yn hafal i'r llwyth gwaith. Adroddwyd cyn y Nadolig fod aelod staff wedi bod yn absenol oherwydd salwch ac nid oedd adnodd sbar o fewn yr uned i allu ymdopi â'i lwyth gwaith arbenigol. Penderfynwyd na ellid oedi hyd nes y byddai'r swyddog yn ôl yn ei waith oherwydd y risgiau ynghlwm â'r maes yma ac felly comisiynnwyd cwmni allanol i'n cynorthwyo. Yn dilyn hynny rydym wedi gallu adfer y sefyllfa a gweld cryn dipyn o gynnydd dros y tri mis diwethaf. Er hynny, mae'r gost o ddefnyddio cwmni allanol yn uwch na chyflawni'r gwaith yn fewnol. Rydym bellach mewn sefyllfa i symud ymlaen i benodi swyddog newydd i wneud y gwaith ac yn hyderus y gwelwn welliant pellach unwaith y bydd y swyddog wedi cychwyn.




Mae'r Uned Difa Pla yn wasanaeth "masnachol" i'r cyhoedd ac felly mae'n hanfodol fod ein cwsmeriaid o'r farn eu bod yn cael gwasanaeth ardderchog am yr hyn mae'n nhw'n ei dalu. Rydym yn falch felly fod hwn yn faes lle rydym yn gyson yn cael adborth ardderchog gan ein cwsmeriaid . Allan o'r ddau adborth negyddol gafwyd dros y tri mis diwethaf, roedd un yn cyfeirio at oedi cyn derbyn anfonneb - rydym yn ymwybodol fod angen gwella ein trefniadau anfonebu ac mae gwaith ar y gweill i adolygu'r prosesau gwaith hyn.

**EIDDO 6**  
**Nifer o apeliadau i'r beirniad anibynnol sy'n cael eu caniatáu**




O gymharu gyda'r sefyllfa rhyw ddwy flynedd yn ôl mae'r nifer apeliadau i'r Beirniad Anibynnol wedi lleihau yn sylweddol yn dilyn delio gyda lleoliadau problemus megis y MAes yng Nghaernarfon. Bu un apel yn Ebrill gan unigolyn oedd yn honi nad oedd arwyddion digonol yn y maes parcio i'w rybuddio o'r angen i dalu ac arddangos. Yn y gwrandawriad bu modd profi fod y gyrrwr wedi pasio dau arwydd ar y ffordd i mewn i'r maes parcio a dau arall ar y ffordd allan.





**EIDDO 8 -  
Canran gostyngiad mewn allyriadau carbon o adeiladau hyd yma yn ystod y flwyddyn**



Hyd yma elenni mae'r cyfanswm allyriadau 9.9% yn is na'r un adeg y llynedd. Ond, rhaid cadw mewn cof fod 3 mis cyntaf y llynedd wedi bod 25% yn oerach na'r flwyddyn flaenorol oherwydd y "beast from the East". Felly y llynedd cawsom ein cosbi oherwydd y tywydd ac elenni mae tebygolrwydd dy byddwn yn elwa o dywydd brafiach. Mae'n gynnar yn y flwyddyn wrth gwrs ond ar hyn o bryd mae ein defnydd nwy yn sylweddol is na'r llynedd ac mae ein defnydd trydan wedi gostwng hefyd.


**Adroddiad Perfformiad Cludiant a Diogelwch y Ffyrdd**  
**Cyfnod 4 - 2018/19**

Tud. 170


MANYLION AM Y GWASANAETH		MANYLION MESURAU				Cyfnod 4: Ionawr 2018 - Mawrth 2019	
Uned	Haen	Cyfeirnod	Mesur	Uned Mesurydd	Amllder Adrodd	2018-2019	Sylwadau
Cludiant Integredig	1	Cludiant 01	Canran o siwrnai cludiant cyhoeddus (bysiau) sydd wedi eu monitro sydd o fewn y terfynau dibynadwyedd (amseroldeb bysus) <b>Canran o siwrneiau cludiant cyhoeddus sydd yn brydlon</b>	100%	Pob 3 mis	76%	Mae gennym 36 gwasanaeth a bu i ni fonitro 19 ohonynt (ar wahanol amseroedd) yn ystod y cyfnod yma.
Cludiant Integredig	1	Cludiant 02	Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus dan gontract i'r Cyngor (nifer yn hytrach na canran)	Nifer	Pob 3 mis	2 ddigwyddiad	Wedi derbyn nifer helaeth o gwynion parthed y gwasanaeth 3B (Arriva) - bws yn hwyr neu dim yn troi fyny. Y cyhoedd ddim yn hapus gyda'r gwasanaeth. Wedi derbyn ymateb gan Arriva yn datgan bod cerbydau wedi torri lawr a bod gyrrwyr i ffwrdd yn sal. Cwynion fod Arriva wedi rhoi'r gwasanaeth 67S i fyny ar fyr rybudd.
Cludiant Integredig	1	Cludiant 03	Nifer o gwynion a dderbyniwyd am wasanaethau cludiant cyhoeddus masnachol eu natur (nifer yn hytrach na canran)	Nifer	Pob 3 mis	4 digwyddiad	Wedi derbyn nifer o gwynion parthed y gwasanaeth 83/85/88 (Arriva) - bws yn hwyr / dim yn troi i fyny ayyb. Cyhoedd ddim yn hapus gyda'r gwasanaeth. Nifer o ymholiadau a chwynion gan y cyhoedd gan fod Arriva wedi rhoi'r gwasanaethau yma i fyny ar fyr rybudd. Gwynfor Coaches wedi cymryd y gwasanaethau yma drosodd yn fasnachol o 1/4/2019 ymlaen. Cwynion am bws 1N yn dilyn y llwybr anghywir drwy Talysarn.
Diogelwch y Ffyrdd	1	DFF 01	Canran o fynychwyr sydd wedi dysgu bod yn fwy diogel ar y ffyrdd o ganlyniad i'r wers / hyfforddiant		Pob 3 mis	-	Yn ystod y cyfnod, holwyd 559 o gwsmeriaid a gymerodd rhan yn wahanol sesiynau Diogelwch Ffyrdd. Mae crynodeb o'u hymatebion fel a ganlyn: Q1 Beth oeddech yn feddwl o'r sesiwn = <b>99.82%</b> Q3 Beth oedd eich barn am yr hyfforddwr = <b>100%</b> Q4 Ydych yn credu fod y cynnwys yn ogystal â'r negeseuon allweddol o fewn y sesiwn o unrhyw fudd i'r bobl ifanc = <b>100%</b>  Mae'r Uned wedi cwblhau ei sesiynau gyda disgyblion blwyddyn 12 a 13 ar yr ymgyrch "Too Young to Die", sef ymgyrch i godi eu hymwybyddiaeth am y risgiau maent yn eu hwynebu ar y ffyrdd - fel teithwyr ac fel gyrrwyr. Bu i'r Uned dderbyn adborth calonogol iawn yn dilyn y sesiynau ac fe gafodd hyn effaith gadarnhaol ar nifer mynychwyr ein sesiynau Pass Plus Cymru.  Roedd yr Uned yn brysur iawn yn cynnal gwahanol weithgareddau diogelwch ffyrdd efo ysgolion ar draws Gwynedd yn ystod y cyfnod e.e. sesiynau gwn radar, Kerbcraft, seiclo, cwis ayyb. Hefyd, cynhaliwyd sesiynau Sach Stori ym meithrinffeydd, cylchoedd meithrin a llyfrgelloedd, yn ogystal â sesiynau setiau babis yn y clinigau. Er mwyn ceisio gael y plant i gael gwell dealltwriaeth o beth yw diogelwch ffyrdd, mae'r Uned wedi dechrau dod a'r elfen o chwarae wrth ddysgu i mewn i'r sesiynau.

**Cludiant 01**  
**Siart i ddangos prydlondeb bysiau**  
**Ebrill 2018 i Mawrth 2019**

Tud. 171



# Cludiant 02 a 03 - Siart Bodlonrwydd Cwsmer (cwynion am wasanaethau cludiant cyhoeddus) 2018 - 19



## Cludiant cyhoeddus masnachol

Nifer o gwynion am wasanaethau Arriva wedi codi'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bysiau yn torri i lawr ar hap a gwasanaethau ddim yn gweithredu. Bus Users Cymru wedi bod yn monitro ac wedi cael cyfarfod gydag Arriva. Mae ganddynt gynllun ar y gweill i wella eu rhaglen cynnal a chadw dros y misoedd nesaf. Yn anffodus, does dim "quick fix"!


Gwasanaethau 83/85/88/67S wedi cael eu cymryd drosodd gan Gwynfor Coaches / Dilwyn's Coaches o 1/4/19 ymlaen. Mae'r gwasanaethau wedi gwella ers hynny.

## Cludiant cyhoeddus o dan contract

- Bysiau ddim yn troi fyny (Arriva)
- Gwasanaeth i'r coleg yn rhedeg yn hwyr oherwydd traffig (Nefyn Coaches)
- Diffyg gwasanaethau bus yn Ardal Dyffryn Nantlle
- Cwyn fod bus wedi mynd ar dân - Lloyds wedi egluro fod y brêcs wedi dod ymlaen a chydiad oherwydd nad oedd y ramp anabl wedi cau ar y sensor yn iawn.
- Cwynion fod y bysiau yn llawn drwy Penygroes/C'fon/Bangor yn y bore. Wedi trefnu i rhoi bus mwy ar y siwrna 5A.

Tud. 172

T 01 - Siart i ddangos hyd cyfnod prosesu Gorchymyon Traffig a gweithredu'r gweithiau ar y safle - 01/04/2019 - 06/06/2019



**Sylwadau**

(i) Disgwyl cwblhau'r gwaith o godi arwyddion ar un o'r safleoedd

(ii) Y gorchymyn wedi dod yn ôl i'r Uned Traffig yn dilyn gwrthwynebiadau. Trafodaethau yn parhau gyda'r gwrthwynebwyr i geisio dod i gytundeb.

(iii) Derbyniwyd gwrthwynebiadau yn yr ymgynghoriad cychwynol. Felly, penderfynwyd peidio a bwrw ymlaen i'r cam nesaf.

(iv) Derbyniwyd gwrthwynebiadau yn yr ymgynghoriad cychwynol. Felly, penderfynwyd peidio bwrw ymlaen i'r cam nesaf.

Cyfartaledd, 174

GORCHYMYN

# Eitem 13

## CABINET CYNGOR GWYNEDD

### Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad:</b>	Gorffennaf 16 2019
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd
<b>Pwrpas:</b>	Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cynghorydd Catrin Wager
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Dilwyn Williams, Prif Weithredwr

#### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r Timau Rheoli oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol.
- 1.3. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PERFFORMIAD

### Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

- 4.1 Mae cynnal amgylchedd lleol o safon uchel ac edrychiad strydoedd a mannau cyhoeddus yn bwysig i drigolion Gwynedd. Gwaith yr uned **Gwasanaethau Stryd** yw cadw ein strydoedd yn lan a thaclus a cheir nifer o fesurau sy'n edrych ar ba mor dda y maent yn gwneud hyn. Mae perfformiad y **Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd (Mesur STS/005a)** hyd yma eleni yn 79% gan ddangos gwelliant ar berfformiad diwedd blwyddyn 2018/19 (74.1%). Mae'r mesurydd PAM/010 yn mesur y canran o strydoedd sydd â safon B, B+ ac A allan o'r un sampl. Fel y gwelir mae ein sgôr yn 95.1% hyd yma eleni sydd yn ostyngiad ar y ffigur o 98.5% a adroddwyd ar gyfer 2018/19. Gan fod y ddau fesur hyn mor debyg, nid yw'n gwneud synnwyr adrodd ar y ddau a gan fod mesur PAM/010 yn mesur faint o'r strydoedd sy'n lân, dyma'r un y bydd yr Adran yn adrodd arni yn y dyfodol.
- 4.2 PAM/011 canran tipio anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod. Yn flaenorol roeddem yn mesur ein perfformiad ar sail os oeddem wedi cwblhau'r gwaith o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y cais. Erbyn hyn mae'r mesur wedi newid a be sydd yn ofynnol adrodd arno bellach ydyw'r cyfartaledd amser sydd wedi ei gymerwyd i **glirio'r eitemau o dderbyn gwybodaeth amdano**. Yn unol adroddir hyn yn erbyn y diffiniad newydd cyfeirnod (**PAM/035**) ac mae ein perfformiad yn dod allan ar gyfer y cyfnod cyfredol yma yn 1.76 diwrnod sef yr un nifer o ddyddiau a 2018/19.
- 4.3 Mae'r **Gwasanaeth Gwastraff ac Ailgylchu** yn gyfrifol am ymdrin â gwastraff mewn modd cynaliadwy. Rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mwyafrif o'r mesurau ar gyfer y gwasanaeth hwn ond byddwn yn tynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol.
- 4.4 Nodir bod y lefelau **Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildefnyddio, ailgylchu neu gompostio (Mesur WMT/009)** wedi aros yn sefydlog o 63.3% yn 2018/19 i 63% yn y cyfnod o Ebrill i Fai 2019/20. Mae'r perfformiad presennol yn cynrychioli cynnydd sylweddol a'i gymharu â 55.25% yn 2014/15, 58.70% yn 2015/16 a 62.34% yn 2016/17 a 60.01% yn 2017/18. Ar hyn o bryd mae rhaid i gynghorau Cymru ailgylchu neu gompostio 58% o'r holl wastraff sy'n cael ei gasglu o'n cartrefi. Bydd targed nesaf yn 64% erbyn Mawrth 2020. Bellach mae rhaid i Gyngor Gwynedd annog llawer mwy ohonom i ailgylchu a chompostio ein gwastraff neu fel arall, gallai Cyngor Gwynedd gychwyn derbyn dirwyon ariannol sylweddol iawn.
- 4.5 Mae perfformiad y mesur **Canran y gwastraff trefol a anfonir i dirlenwi (WMT 004)** yn is eleni yn y cyfnod o Ebrill i Mai, sef 19% o'i gymharu â 38% ar gyfer flwyddyn 2018/19. Gellir priodoli'r gwelliant hwn i'r ffaith fod mwy o wastraff bwrdeistrefol wedi ei drin drwy drefn llosgi ac o ganlyniad ddim wedi'i anfon i dirlenwi.

**4.6** Nodwyd fod perfformiad Mesur THS/009 sef y **nifer o ddyddiau a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn i atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd** yn 2.6 diwrnod hyd yma ar gyfer 2019/20 sy'n welliant o'i gymharu â 2.77 diwrnod ar gyfer blwyddyn 2017/18 ond ychydig yn is na pherfformiad 2018/19 o 2.5 diwrnod. Noder mai perfformiad yr Uned yn unig yw hwn ac nid y gwir ffigwr ar gyfer bobl Gwynedd gan nad yw'r lampau lle mae Cyngor Gwynedd yn gofyn i Scottish Power eu hatgyweirio wedi'u cynnwys yn hyn. Rwyf wedi gofyn i'r Adran adolygu hyn ac adrodd ar y gwir ffigwr a byddaf yn ei gynnwys yn fy adroddiad perfformiad nesaf.

## **5. DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU**

- 5.1** Nodir yn yr adroddiad diwethaf bod rhaglen sylweddol ar waith ar gyfer **newid ein goleuadau stryd ac arwyddion i dechnoleg LED**. Yn ystod 2015/16 newidiwyd 1,709 o unedau golau stryd ac arwyddion i LED gyda 3,418 ychwanegol yn cael ei newid yn 2016/17, 3,472 yn 2017/18 a 1,680 yn 2018/19. Nodwyd bod y rhaglen newydd 3 blynedd i newid gweddill y 7,778 o oleuadau yn weithredol. Yn sgil y newidiadau yma rhagwelir y byddwn yn lleihau costau ynni, lleihau allyriadau carbon ac atal llygredd goleuo. Noder bod 700 o lampau eisoes wedi newid yn ystod dau fis cyntaf 2019/20.
- 5.2** Nodwyd bod cynllun ar waith i gyflwyno **newidiadau i'r drefn o gasglu gwastraff** er mwyn sicrhau gwelliannau ac arbedion. Nodir bod y cyfnod o ymgynghori â'r gweithlu wedi gorffen ac mae'r gwaith o ymgysylltu â'r preswylwyr yr effeithir arnynt yn digwydd ar hyn o bryd, gyda phecynnau gwybodaeth yn cael eu hanfon i breswylwyr wythnos 17 Mehefin 2019 a llythyrau i fasnachwyr wythnos 21 Gorffennaf 2019. Nodwyd y byddai'r newid yn weithredol yn ardal Dwyfor ar Orffennaf 1af.
- 5.3** Nodwyd bod Cynllun i **Adolygu Rheolaeth Fflyd y Cyngor** i bwrpas sicrhau Arbedion ar waith ar hyn o bryd. Fel rhan o'r Cynllun, mae'r Adran wedi bod yn ymchwilio os oes budd i gael cerbydau trydan ac rwyf wedi gofyn i'r Adran bod yn fwy uchelgeisiol wrth arbrofi gyda cherbydau trydan. Byddaf yn adrodd ar gynnydd y cynllun hwn yn fy adroddiad perfformiad nesaf.
- 5.4** Mae Cynllun ar waith i foderneiddio'r **Gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng** y Sir o system analog i system ddigidol. Mae'r Cynllun yma ar drac i fod yn weithredol ym mis Hydref. Nodwyd bod trafodaethau yn parhau gyda'r Cyngor Dinas a Thref er sefydlu cytundebau gweithredol newydd.
- 5.5** Nodwyd bod yr Adran ar hyn o bryd yn gweithredu ar argymhellion yn deillio o Ymchwiliad gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau i ddisgwyliadau, gofynion, adnoddau a pherfformiad y **Gwasanaeth Gorfodaeth Stryd**. Rwyf wedi gofyn i'r Adran cwrdd gyda mi a'r Uwch Swyddogion er mwyn gosod cyfeiriad a bod yn fwy eglur o ran ble rydym yn mynd gyda'r cynllun hwn a hefyd i drafod dyheadau cymunedol ehangach ym maes glanweithdra strydoedd a'r amgylchedd lleol.



## 6. Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd

- 6.1** Ar gyfer yr Adran yma mae un prif fesur wedi ei adnabod sef **Elw yn erbyn targed**. Nodir fod y sefyllfa yn gymharol gadarnhaol ar hyn o bryd gyda'r tafluniad y sefyllfa NET ddiweddaraf ar gyfer Ebrill i Fehefin 2019/20 yn dangos diffyg elw o **£28,710**. Wrth edrych yn ôl ar batrymau hanesyddol, oherwydd natur gwaith cleient, mae'r ffigwr hwn yn aml yn is yn y Chwarter cyntaf, felly ar hyn o bryd dydw i ddim yn pryderu am hyn.
- 6.2** Mae'r **Uned Rheolaeth Adeiladu** yn gyfrifol am sicrhau bod gwaith adeiladu yn cwrdd â'r safonau adeiladu. Mae'r Uned wedi datblygu cyfres o fesurau sy'n mesur eu perfformiad (gweler tabl ynghlwm). Dengys y wybodaeth ar gyfer **bodlonrwydd y cwsmer** (Mesur BC-02) ar gyfer Chwarter 1 2019/20 yn sgôr bodlonrwydd o 9.75 allan o 10, sy'n gyson hefo perfformiad 2018/19 o 9.6 allan o 10. Mae gwaith yn mynd ymlaen i sefydlu'r rheswm am unrhyw anfodlonrwydd.
- 6.3** Nodir bod yr amser o **dderbyn hysbysiad o strwythur peryglus i fod wedi ei diogelu** yn 1 diwrnod. Mae hyn yn gyson gyda pherfformiad 2017/18 a 2018/19.

## 7. **DIWEDDARIAD AR BROSIECTAU**

- 7.1** Nodwyd bod y prosiect i **arolygu a chofnodi cyflwr asedau'r Sir** yn parhau. Yn 2018/19 nodwyd bod blaenoriaeth ar gofnodi cyflwr asedau arfordirol. Nodwyd bod y rhaglen waith ar gyfer 2019/20 yn canolbwyntio ar sgorio ein hasedau draenio tir. Nodwyd bod yr asedau draenio tir yn cael eu harchwilio yn rheolaidd ond bydd newid i'r system sgorio eleni er mwyn cydymffurfio a'r drefn genedlaethol. Noder y bydd hyn yn rhoi darlun cynhwysfawr i ni o gyflwr ein hasedau a pha mor fregus neu beidio ydynt.
- 7.2** Nodwyd bod y **Gwasanaeth Dwr ac Amgylchedd** yn denu arian grant er mwyn ymgymryd ag astudiaethau neu waith dylunio i ostwng y risg sy'n bodoli yn ardaloedd Gwynedd. Mae'r rhain i gyd yn gymunedau sydd un ai wedi dioddef yn hanesyddol neu lle mae tystiolaeth gref fod newid hinsawdd yn debygol o gynyddu risg yn y dyfodol. Nodwyd bod gwaith yn mynd ymlaen ar 6 Cynllun ar hyd o bryd ond bod materion cyllidol yn achosi pryder gyda Prom Gogleddol Abermaw a phryderon am gynllun Bae Hirael. Nodwyd bod cynllun sylweddol ar waith yng nghanol pentref Llanberis i ostwng risg llifogydd. Braf yw cael adrodd bod y Gwasanaeth wedi llwyddo i ddenu grantiau ar gyfer cynlluniau yn Nalgylch Ogwen a Phwllheli. Byddaf yn adrodd cynnydd ar y cynlluniau hyn yn fy adroddiad nesaf.

## 8. **SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION**

### 8.1 Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol

#### 8.1.1 Cynlluniau Blynyddoedd Blaenorol

Mae'r cynlluniau arbedion effeithlonrwydd hyd at ac yn cynnwys 2018/19 wedi eu gwireddu yn llawn heblaw am £33,000 o gynllun **Cau 50 allan o 73 o doiledau cyhoeddus y Sir** sydd yn llithro, gyda'r Gwasanaeth yn edrych ar gynllun amgen i

wireddu gweddill yr arbedion drwy ail-strwythuro a hefyd arbedion uwch yn deillio o'r cynllun Teledu Cylch Cyfyng i'w ddefnyddio i gyfarch y gwahaniaeth.

### 8.1.2 Cynlluniau Arbedion 2019/20

Mae 8 o'r cynlluniau arbedion 2019/20 un ai wedi eu gwireddu neu ar drac i'w gwireddu'n amserol cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Nodwyd bod pryder ynghylch y **cynllun i gynyddu incwm gorfodaeth stryd drwy ddirwyo mwy o unigolion sy'n gollwng sbwriel** ac fel rwyf eisoes wedi nodi, bydd yr Adran yn rhoi sylw i'r cynllun yma fel mater o flaenoriaeth.

### 8.1.3 Cynlluniau Arbedion 2020/21 ymlaen

Mae'r Adran wedi amlygu 3 cynllun sydd â risg o gyflawni. Gyda'r Cynllun **Trosglwyddo Meysydd Chwarae i eraill**, nodwyd bod rhai risgiau i gyflawni, gyda'r Cynllun yn llithro neu'n fethu. **Gyda'r Cynllun i Rhesymoli Gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir**, nodwyd bod risgiau sylweddol i gyflawni'n llawn neu'n rhannol. Byddaf yn adrodd cynnydd ar y cynlluniau hyn yn fy adroddiad nesaf.

## 8.2 Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd

### 8.2.1 Cynlluniau Blynyddoedd Blaenorol

Mae Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd wedi gwireddu'r oll gynlluniau effeithlonrwydd a thoriadau hyd at ac yn cynnwys 2018/19.

### 8.2.2 Cynlluniau Arbedion 2019/20

Mae dau gynllun arbedion 2019/20 eisoes wedi eu gwireddu ac mae gweddill ar drac i gyflawni'n amserol cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## 9. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

9.1 Dim i'w nodi.

## 10. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWDYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 10.1 Barn y Swyddogion Statudol:

#### i. Y Swyddog Monitro:

Dim sylwdadau i'w hychwaengu ynglyn a phriodoldeb

#### ii. Y Swyddog Cyllid Statudol:

Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa'r Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol o ran gwireddu'r cynlluniau arbedion, gydag wyth o'r cynlluniau ar gyfer 2019/20 eisoes wedi'u gwireddu neu ar drac i wireddu'n amserol, tra mae risg ynghlwm â'r cynlluniau eraill wedi'i nodi yn rhan 8 o'r adroddiad.

Mae'n galonogol gweld yn rhan 8.2 bod Ymgynghoriaeth Gwynedd unai wedi gwireddu neu ar drac i wireddu'r cynlluniau arbedion ar gyfer 2019-20.

Bydd Swyddogion Cyllid yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet cyfrifol i fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau yma, a byddwn mewn lle i adrodd ymhellach ar y cynnydd yn dilyn yr adolygiad cyllidol nesaf.

Nodaf fod perfformiad Ailgylchu'r Sir yn sefydlog sydd yn rhan 4.4 or adroddiad, ond fod angen sicrhau bod y Cyngor yn cyrraedd y nod o 64% erbyn 2020 er mwyn osgoi unrhyw gosb ariannol allasai fod yn sylweddol.

## **10.2 Barn yr Aelod Lleol:**

10.2.1 Ddim yn fater lleol.

## **10.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

10.3.1 Dim i'w nodi.

---

## **Atodiadau**

**Atodiad 1 – Mesurau Perfformiad Priffyrdd & Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd**

Perfformiad Ebrill - Mai 2019-20  
**Priffyrdd a Bwrdeistrefol**

Gwasanaeth	Pennawd	Perfformiad Blynyddol 2013-14	Perfformiad Blynyddol 2014-15	Perfformiad Blynyddol 2015-16	Perfformiad Blynyddol 2016-17	Perfformiad Blynyddol 2017-18	Perfformiad Blynyddol 2018-19	Perfformiad Blynyddol 2019-20
Priffyrdd	THS/01 Ia Canran prif ffyrdd (dosbarth A) sydd mewn cyflwr gwael	4.40	3.50	3.1	3.5	3.2	3.3	
Priffyrdd	THS/01 Ib Canran ffyrdd (dosbarth B) sydd mewn cyflwr gwael	4.70	3.70	3.4	3.9	3.8	3.8	
Priffyrdd	THS/01 Ic Canran ffyrdd (dosbarth C) sydd mewn cyflwr gwael	14.70	14.2	15.8	15.2	14.1	14.5	
Priffyrdd	THS/009 Nifer o ddyddiau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd yn ystod y flwyddyn I atgyweirio holl ddiffygion ar lampau stryd	2.70	3.50	2.76	2.52	2.77	2.5	2.6
Priffyrdd	PB8 Canran o ddiwyddiadau o ddifrod peryglus i ffyrdd a phafinau atgyweirwyd neu wneuthpwyd yn ddiogel o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd.	97.20	97.00	97.8	98	98	97	97
Priffyrdd	PB9 Canran o'r archwiliadau diogelwch wedi eu cwblhau o fewn y cyfnod penodedig.	98.30	98.00	99	99	99	99	99

Gwasanaeth	Pennawd	Gwir 2014-15	Gwir 2015-16	Gwir 2016-17	Gwir 2017-18	Ebrill - Gorfennaf 2018-19	Ebrill - Hydref 2018-19	Ebrill - Mawrth 2018-19	Ebrill-Mai 2019-20
Gwasanaethau Stryd	STS/005a Mesur o Lendid ac Edrychiad Strydoedd	70.65	76.26	75.7	71.95	74.5	74.1	74.1	79
Gwasanaethau Stryd	PAM/010 Canran y strydoedd sy'n lân	94.3	96.7	96.55	94.10	98.04	98.5	98.5	95.1
Gwasanaethau Stryd	PAM/035 Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon	96.5	96.50	97.90	97.00	1.76	1.76	1.76	1.76
Gwasanaethau Stryd	PB15 Canran o'r graffiti/posteri sy'n ymguddio arwyddion traffig ac yn achosi peryglon, glanhawyd/cliriwyd o fewn 24 awr i'r amser hysbyswyd.	100	100.00	100	100	100	100	100	100
Gwasanaethau Stryd	PB16 Canran o'r graffiti/posteri hiliol/tramgwyddol ar eiddo'r Cyngor, glanhawyd/cliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith i'r amser hysbyswyd.	100	100.00	100	100	100	100	100	100
Gwastraff ac Ailgylchu	WMT/004 Canran y gwastraff trefol yrrwyd l'w dirlenwi	43.33	34.34	30.62	24.33	57	46	38	1900%
Gwastraff ac Ailgylchu	WMT/009 Canran y gwastraff trefol a gesglir gan yr Awdurdod Lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei aildddefnyddio, ailgylchu neu ei gompostio	55.25	58.7	62.34	60.01	74.5	63.19	63.3	6300%
Gwastraff ac Ailgylchu	PB51 Canran lefelau ailgylchu/compostio masnachol	35.45	41.44	40.5	44.34	4400%	43 48	4800%	4700%
Gwastraff ac Ailgylchu	PB60 Uchafswm tunelledd gwastraff pydradwy a dirlenwir (Lwfans tirlenwi)	18603	8147	16989	8103	448.41	3697	4200%	5000%

Perfformiad Ebrill - Mai 2019-20  
**Ymgynghoriaeth Gwynedd**

Pennawd	Perfformiad Blynnyddol 2014-15	Perfformiad Blynnyddol 2015-16	Perfformiad Blynnyddol 2016-17	Perfformiad Blynnyddol 2017-18	Perfformiad Blynnyddol 2018-19	Perfformiad Chwarter I 2019-20
Elw yn erbyn y targed	£21,256	-£34,118	£95,619	£81,695	£58,744	-£28,710

Pennawd	Performance 2016-17	Performance 2017-18	Performance 2018-19	Performance Quarter I 2019-20
BC-01 Amser o dderbyn cais Rheolaeth Adeiladu hyd at gymeradwyo	Mesur Newydd 2019-20			70.78 diwrnod
BC-02 Amser o dderbyn cais Cwsmeriaid, y sgôr cyfartalog a roddwyd gan glieientiaid ar gyfer eu gwasanaeth rheolaeth adeiladu (Ffigur wedi'i roi allan yn ymgyngor)	9.3	9.6	9.6	9.7
BC-03 Amser o dderbyn hysbysiad o strwythur peryglus i fod wedi ei ddiogelu	1 diwrnod	1 diwrnod	1 diwrnod	1 diwrnod
BC-04 Amser o gyflwyno cais "enwi a rhifo tai neu stryd" i cadarnhad ei fod wedi ei gofrestru	Mesur Newydd 2019-20			8.8 diwrnod
BC-05 Canran o benderfyniadau wnaethwyd i'r amserlen statudol (5 wythnos)	Mesur Newydd 2019-20			67.35%
BC-05 Canran o benderfyniadau wnaethwyd i'r amserlen statudol (8 wythnos)	Mesur Newydd 2019-20			89.55%

# Eitem 14 CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

<b>Dyddiad:</b>	Gorffennaf 16 2019
<b>Teitl yr Eitem:</b>	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant
<b>Pwrpas:</b>	Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad
<b>Aelod Cabinet:</b>	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
<b>Swyddog Cyswllt:</b>	Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol

### 1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw diweddarau fy nghyd aelodau ar yr hyn sydd wedi digwydd yn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt fel yr Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys adrodd ar Flaenoriaethau Gwella'r adran, amlinellu'r lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynlluniau arbedion a thoriadau.
- 1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfod herio perfformiad oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Craffu perthnasol.
- 1.3. Ar y cyfan, rwy'n fodlon gyda pherfformiad y mesurau yr wyf yn gyfrifol amdanynt.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. BLAENORIAETHAU'R ADRAN

4.1 Cyflwynir isod adroddiadau cynnydd cryno ar raglenni gwella'r Adran fel sydd wedi eu nodi yng Nghynllun Y Cyngor 2018 - 2023. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu paratoi gan yr Adran ar gyfer y 3 blaenoriaeth, a cherrig milltir ar gyfer y cyfnod wedi eu gosod.

4.2 Mae'n bwysig i mi dynnu sylw aelodau at y **gydblethiad** sydd rhwng y prosiectau isod a'r trawsffurfio ehangach sy'n deillio o raglen **Cymru Iachach**. Fel bydd aelodau yn ymwybodol, mae Rhanbarth Gogledd Cymru wedi llwyddo i ddenu adnoddau ychwanegol unwaith ac am byth gan Lywodraeth Cymru. Y rhai mwyaf perthnasol o ran y maes gwaith hwn ydi, Trawsffurfio Cymunedol, Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl. Rydym yn cydweithio ar y rhaglenni yma gyda'r Bwrdd Iechyd (Ardal Gorllewin) a Chyngor Ynys Môn. Mae'r Grŵp Integredig sydd yn arwain y Rhaglen yma yn adrodd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Môn a Gwynedd. Ein bwriad felly yw ceisio dod a'r ffrydiau gwaith isod a'r rhaglen drawsffurfio yma gyda'i gilydd lle'n addas.

4.3 Felly gyda'r cyd-destun hynny, dyma grynodedeb o'r cynnydd ar gyfer y Prosiectau o fewn Cynllun y Cyngor.

4.3.1 Pwrpas y Prosiect **Ail Ddylunio Gwasanaethau Gofal** yw sicrhau ein bod yn gweithio mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd a gofal drwy dreialu a datblygu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio.

4.3.2 Byddwch yn ymwybodol bod y 5 Tîm Ardal wedi eu sefydlu ac erbyn hyn mae'r Adran yn adrodd bod y Timau yn profi sefydlogrwydd ac wedi cychwyn adnabod blaenoriaethau penodol o fewn pob ardal. Ar gyfer y mesur **OED23 Canran o bobl hŷn a phobl gydag anableddau corfforol lle gweler cynnydd mewn cyflawni'r hyn sydd yn bwysig**, mae 85 asesiad wedi ei gwblhau hyd yma eleni. O'r 85 asesiad, mae 82.4% (sef 70) o gleientiaid Gwynedd yn nodi ein bod wedi gwneud be sy'n bwysig iddynt. Mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau fod y data sydd yn cael ei gasglu yn gyflawn, a'i fod hefyd yn adlewyrchu'n llawn y rhwystrau sy'n bodoli. Er mwyn edrych ar hyn, mae grŵp tasg wedi ei sefydlu i wneud y gwaith o sicrhau bod y data yn fwy cyflawn ac ein bod yn adrodd yn gywir, byddaf yn adolygu'r mesurydd gyda'r adran yn gyson. Wrth gwrs y wybodaeth tu cefn i'r mesurydd sydd bwysicaf ac mae'r Adran yn mynd ati i gasglu'r storïau lle nad ydym wedi bod yn llwyddiannus wrth gyflawni 'beth sydd yn bwysig'. Mae rhaglen gefnogaeth nawr wedi ei lunio i gefnogi staff ac arweinwyr y 5 Ardal er mwyn eu cefnogi ymhellach gyda'r siwrnai o ran ymarfer dda a newid diwylliant. Rwyf yn gweld brwdfrydedd amlwg o fewn timau a gan reolwyr i ddileu'r rhwystrau sy'n ein hatal rhag cyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl. Drwy wneud hyn rydym yn edrych ar berfformiad drwy lygaid pobl.



- 4.3.3** Nodir bod yr elfen ieithyddol wedi ei godi gan nifer o'r timau gyda'r pryder ei fod yn anodd iawn cadw cydbwysedd ieithyddol o fewn tîm Integredig. Nodir fod tueddiad i drafodaethau, sydd yn cynnwys cyd-weithwyr di Gymraeg, cael eu cynnal yn uniaith Saesneg. Nodir fod hyn yn bryder ac y bydd yr adran yn edrych ar y mater fel blaenoriaeth dros y flwyddyn i ddod. Mae'r Cyfarwyddwr yn dilyn y mater i fyny drwy ei chysylltiadau gyda'r Bwrdd Iechyd a'r Fforwm Mwy Na Geiriau Gogledd Cymru. Awgrymaf i'r aelodau ystyried os ydynt yn credu y byddai hwn yn fater gall is grŵp Iaith Gymraeg o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ei ystyried fel prosiect penodol.
- 4.3.4** Nodir mai un o brif bryderon yr Adran yw bod diffyg gwelyau asesu ar gyfer unigolion â dementia yn Ysbyty Cefni, Llangefni. Yn ogystal mae diffyg nyrsys CPN ar draws Gwynedd. Mae'r diffyg hwn yn dal nifer o ddatblygiadau yn ôl, gan fod hi'n gynyddol anodd i gynnal unigolion gydag anghenion dwys yn ein cymunedau heb y gefnogaeth arbenigol hon. Mae diffyg meddygon sydd yn gallu gwneud asesiadau "Section 12" hefyd yn creu problemau o ran y maes Iechyd Meddwl. Mae'r Cyfarwyddwr wedi ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd i godi'r materion unwaith eto a noder bod cyfarfod wedi'i drefnu rhwng Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd er mwyn trafod hyn fel mater o frys.
- 4.3.5** Yn ogystal â'r problemau uchod, bu i'r gwasanaeth amlygu bod rhai rhwystrau wrth geisio canfod llety addas ar gyfer oedolion ifanc gydag anableddau corfforol yn anodd a'u bod yn edrych ar gyfleoedd gyda'r Adran Tai yn ogystal ag edrych ar ddatblygiadau sydd ar y gweill neu newydd eu hagor i weld os oes modd ystyried defnydd mwy hyblyg ohonynt. Yn amlwg, byddaf yn gofyn am ddiweddariadau rheolaidd gan y Gwasanaeth ar y mater ac yn sicrhau bod y materion yma yn derbyn sylw o fewn ein Strategaeth Cartrefi i Bobl Gwynedd.
- 4.3.6** Bu i'r Adran amlygu yn ogystal rhai materion Diogelu. Byddwch yn ymwybodol o'r broblem 'Llinellau Cyffuriau' sydd yn her ar draws Gogledd Cymru. Bu i'r Adran amlygu eu bod yn dechrau gweld enghreifftiau o 'Llinellau Cyffuriau' a 'Cuckooing' o fewn y maes pobl hyn. Yn amlwg mae hyn yn sefyllfa bryderus ac mae'r Adran yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i adnabod sut i gefnogi'r gweithlu gyda'r math yma o achosion. Byddaf yn ogystal yn uchafu'r mater gyda Phanel Strategol Diogelu'r Cyngor.
- 4.3.7** Mae peth llithriad yn erbyn mesurau perfformiad y maes diogelu gyda'r mesurydd **'Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle mae'r risg wedi ei reoli' yn 69%**. Mae gwaith o graffu'r wybodaeth gefndirol wedi digwydd a deallaf fod y dirywiad yma yn ymwneud a 6 unigolyn oedd yn gwrthod ymyrraeth. Wrth eithrio'r unigolion yma o'r mesurydd mae'r perfformiad yn 84% sydd yn parhau yn gadarnhaol er y llithriad. Bu i'r Adran amlygu bod peth rhwystredigaeth mewn perthynas â threfniadau cyfeirio materion Diogelu, er enghraifft dogfennaeth faith a'r pwyslais ar lenwir ffurflenni. Mae'r Adran am fynd ati felly i gynnal ymyrraeth 'Ffordd Gwynedd' i adnabod y broblem a sicrhau bod ein trefniadau yn effeithiol ac yn canolbwyntio ein hymdrechion ar yr unigolyn. Edrychaf ymlaen at gael eich diweddarau. Mae hyn eto yn adlewyrchu'r newid diwylliant sydd ar waith o fewn yr Adran.

Mae'r rhaglen o fuddsoddi yng nghartrefi gofal y Cyngor yn parhau gyda'r bwriad o sicrhau gofal addas yn lleol. Mae'r unedau dementia arbenigol yma yn rhan o

ymdrechion ar y cyd rhwng Y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod pobl hyn yn cael mynediad i ofal arbenigol a gwasanaethau iechyd y maent eu hangen o fewn eu cymunedau.

#### 4.3.8

**4.3.9** Mae'r **Gwasanaeth Anableddau Dysgu** yn parhau i fesur '**Beth sy'n bwysig gyda pherfformiad y flwyddyn hyd yma yn 63.6%**'. Mae'r gwasanaeth wedi bod yn gweithio ar addasu'r mesurydd yma er mwyn sicrhau ein bod yn adrodd yn gyflawn a bellach mae categori "rhannol" yn cael ei nodi. Mae hyn wedi arwain at fesurydd sydd yn cyfleu perfformiad mwy realistig, serch hyn, mae'r gwasanaeth yn parhau i adolygu'r deilliannau yn well ac yn canolbwyntio ar adnabod y stori tu ôl i'r hyn sydd yn bwysig i unigolion. Y prif themâu o ran y rhwystrau sydd wedi eu hadnabod yw:- problemau gyda threfniadau Gofal Iechyd Parhaus, materion llety i rai unigolion ac yr angen i wella cyfleoedd gwaith addas. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar adnabod datrysiadau i'r rhwystrau uchod a byddaf yn monitro'r sefyllfa yn rheolaidd.

**4.3.10** Mae llawer yn digwydd o fewn y maes anableddau dysgu gydag amryw o gynlluniau ar waith, gan gynnwys datblygu hybiau cymunedol. Hyderaf y bydd y gwasanaeth yn sicrhau y bydd y datblygiadau hyn yn cael eu datblygu mewn ffordd sydd yn cydblethu gyda meysydd gwaith arall e.e. hybiau iechyd a gofal. Mae sawl ffordd gwaith trawsffurfio yn gysylltiedig â 'Cymru Iachach' ar y gweill ac mae'n hanfodol ein bod yn uchafu pob cyfle i gyd-weithio a gweithio yn integredig er mwyn osgoi dyblygu, osgoi gweithio mewn 'silo's' ac i greu system iechyd a gofal sydd yn syml a chysylltiedig i bobl Gwynedd. I'r perwyl hyn rwyf wedi rhoi her i'r Gwasanaeth i sicrhau eu bod yn cynnal y trafodaethau yma gyda'n partneriaid ar draws y sector. Nodir fod prosiect ar waith yn Tan y Marian, Pwllheli i drawsnewid y ddarpariaeth gefnogaeth ysbaid. Byddaf yn adrodd ar gynnydd y gwaith yma yn fy adroddiad nesaf.

**4.3.11** Pwrpas y prosiect **Gwydnwch Cymunedol** yw adeiladu ar y cryfderau sydd o fewn ein cymunedau a cheisio cyd-gynhyrchu ystod lawn o gefnogaeth ataliol er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl barhau i fyw yn annibynnol yn eu cymunedau.

**4.3.12** Nodwyd bod y **Gwasanaeth IAA (Information, Advice and Assistance)** wedi ei ymgorffori o fewn y 5 Tîm Adnodd Cymunedol ac wedi dathlu ei ben-blwydd cyntaf. Mae ffocws yn ystod y flwyddyn a fu wedi bod ar sefydlu'r trefniadau newydd ac mi fyddwn dros y misoedd nesaf yn rhoi sylw i ddatblygu'r gwasanaethau ymhellach.

**4.3.13** Erbyn hyn, mae Tîm Llŷn wedi sefydlu grŵp tasg i edrych ar wella'r ddarpariaeth IAA ac i symud oddi wrth dderbyn cyfeiriadau yn unig ac i geisio cael datrysiad ar y pryd os yn bosib i'r trigolyn. Rwy'n falch o adrodd bod y tîm wedi cymryd perchnogaeth dros y newid yma ac mae'r drefn newydd yn weithredol ers ychydig wythnosau, gyda'r dystiolaeth gynnar yn dangos bod ansawdd y cyfeiriadau wedi gwella, a bod unigolion yn derbyn cyngor a gwybodaeth yn amserol heb oediad.

**4.3.14** Bydd aelodau yn ymwybodol bod Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru wedi ei fabwysiadu bellach sydd yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth gyda gofalwyr o bob oedran. Mae'r strategaeth wedi arwain at ddatblygu a chyd gynhyrchu 'cynnig' i ofalwyr, sy'n cynnwys safonau gwasanaeth mae partneriaid yn ymrwymo i'w cyflawni. Adroddodd yr adran sut yr oeddynt yn mynd ati dros y misoedd nesaf gyda'r cynllun gweithredu i sicrhau ein bod yn ymrwymo yn llawn i'r safonau, gan adnabod y rhwystrau a sut y byddai bosib eu datrys. O ran yr Holiadur

Blynyddol sydd yn mynd allan i Ofalwyr fel rhan o ofyn Llywodraeth Cymru, gwelwyd bod 53.8% o Ofalwyr Gwynedd wedi adrodd eu bod yn “gallu gwneud y pethau sy’n bwysig i mi”, gyda 38.3% yn adrodd bod hyn yn digwydd weithiau, a’r gweddill yn dweud nad oeddynt yn gallu gwneud y pethau oedd yn bwysig iddynt. Mae hwn yn rhoi syniad i ni o farn gofalwyr a bydd hwn a’r wybodaeth fwy manwl gan unigolion yn ffordd i ni fesur llwyddiant ein datblygiadau yn y maes. Yn ogystal i hyn bydd yr Adran yn mynd ati i ddatblygu mesurau pellach o fewn y maes gofalwyr erbyn y cylch nesaf o adrodd.

**4.3.15** Cynllun arall sydd yn ymwneud a gwydnwch cymunedol yw **‘Pontio’r Cenedlaethau’** ac mae hwn yn edrych ar wella sut mae cenedlaethau gwahanol yn cysylltu. Allbwn o hyn fydd ceisio atal unigrwydd drwy ddod pawb at ei gilydd i wneud gweithgareddau hwyliog a diddorol. Dros y misoedd diwethaf, mae’r Uned Llesiant wedi bod yn gweithio gyda Phennaeth Safle Dolgellau, Grŵp Llandrillo Menai ar raglen beilot rhwng eu myfyrwyr a phobl hŷn. Cynhaliwyd peilot llwyddiannus lle daeth unigolion oedd yn byw yn y gymuned i’r coleg a hefyd yng nghartref preswyl Cefn Rodyn i weithio gyda’r myfyrwyr ar wahanol weithgareddau. I’r dyfodol, bydd hyn yn cael ei weu i fod yn rhan o gwricwlwm rhai cyrsiau a hefyd bydd y peilot yma yn cael ei lledaenu i safleoedd eraill y Coleg. Rwyf yn bwriadu cynnal trafodaeth gyda rhai o’r cyd-aelodau ar y maes hwn i weld os oes cyfle i uchafu ymwybyddiaeth adrannau eraill o’r cyngor gyda’r agenda yma.

**4.3.16** Braf yw cael adrodd bod y prosiect **‘Dementia Go’** yn mynd o nerth i nerth ac yn cael dylanwad pell gyrhaeddol i newid y stigma sydd ynghlwm â dementia. Byddwn yn adeiladu ar y gwaith da yma yn 2019/20 gyda gweithgareddau ychwanegol megis prosiect garddio gyda chartrefi a phêl droed cerdded.

**4.3.17** Pwrpas y prosiect **Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal** yw sicrhau ein bod yn wir ddeall y broblem recriwtio i’r maes gofal yng Ngwynedd a’n bod yn gwneud popeth sydd o fewn ein gallu i ymateb.

**4.3.18** Mae diffyg darpariaeth gofal cartref yn parhau yn broblem ym mhob rhan o’r Sir ac mae staff gofal cartref yn gwbl hanfodol ar gyfer cadw pobl hŷn gartref cyn hired â phosib. Byddwch yn ymwybodol bod y Cynllun Gofal Cartref wedi bod yn arbrofi ffyrdd newydd o gomisiynu gofal cartref. Rhagwelwn y bydd y gwaith trawsnewid Gofal Cartref heb os yn arwain at wella statws a delwedd swyddi gofalwyr cartref i’r dyfodol. Mae’r newid yn golygu ymddiried mewn staff rheng flaen, gofalwyr cartref yn dod yn rhan o dîm ehangach a thrwy amlygu’r llwybr gyrfa sy’n bosib yn y maes.

**4.3.19** Rydym yn barhaus yn ceisio adnabod bylchau sy’n bodoli o ran sgiliau arbenigol. Un ffordd o wneud hyn yw dadansoddi patrymau sy’n amlygu eu hunain fel rhan o’r broses recriwtio. Un enghraifft benodol o hyn yw rôl y Therapydd Galwedigaethol. Mewn ymateb i hyn, mae enghreifftiau da yn bodoli o ran cydweithio gyda Cholegau megis Prifysgol Glyndŵr sydd wedi arwain at ddatblygu cwrs Therapydd Galwedigaethol rhan amser.

**4.3.20** Mae themâu amlwg wedi eu hadnabod drwy'r gwaith manwl o ddeall y broblem recriwtio yng Ngwynedd ac mae'r themâu yma wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal. Mae'r Adran wedi llunio rhaglen waith manwl wedi hyn a byddant yn adrodd ar gynnydd y flaenoriaeth yn y cyfarfodydd herio perfformiad. Drwy wella telerau gwaith gweithwyr yn y maes hwn a marchnata hyn, y gobaith fydd codi statws a delwedd y maes fel llwybr gyrfaal a denu mwy o ddiddordeb yn y maes. Edrychaf ymlaen at gael eich diweddarau.

## **5. MESURAU PERFFORMIAD**

- 5.1** Gweli'r bod mesurau perfformiad wedi eu hymgorffori o fewn yr adroddiad lle'n berthnasol ond hoffwn wneud fy nghyd aelodau yn ymwybodol o ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Fesurau Cenedlaethol o fewn y maes lechyd a Gofal. Nid yw'r mesurau sydd wedi eu cyflwyno i ni yn yr ymgynghoriad yn mesur gwerth i'r unigolyn. Mae'r mesurau yn parhau i arwain ni i fesur data rheolaethol helaeth ac yn ein harwain i fesur y pethau anghywir. Mae cryn bryder gennym ynglŷn â chyfeiriad Llywodraeth Cymru gyda'r mesurau cenedlaethol yma ac mae'r farn yr un fath ar draws Cymru. Byddaf ar ran y Cyngor yn anfon llythyr cadarn i Lywodraeth Cymru i leisio ein barn ac amlygu'r cyfeiriad yr ydym yn ei gymryd yng Ngwynedd.
- 5.2** Ni chafwyd y cyfle i herio y maes Darparu na lechyd Meddwl yn ystod y cyfarfod perfformiad. Rwy'n edrych ymlaen i dderbyn gwybodaeth am y gwasanaethau yma yn y cyfarfod nesaf ac yn awyddus iawn i ddeall y mesurau sydd yn gysylltiedig a'r gwasanaethu yma.

## **6. SEFYLLFA ARIANNOL / ARBEDION**

### **6.1 Cynlluniau Blynyddoedd Blaenorol**

**6.1.1** Mae'r holl arbedion a thoriadau 2016/17 wedi eu gwireddu.

**6.1.2** Gyda Chynlluniau 2017/18, mae'r Adran yn rhagweld risgiau o gyflawni arbedion un cynllun sef Gwella effeithlonrwydd gweithwyr maes. Oes angen dweud sut mae'r adran yn bwriadu delio efo'r risg?

**6.1.3** Gyda Chynlluniau 2018/19, mae'r Adran yn rhagweld risg o gyflawni gweddill yr arbedion effeithlonrwydd gwerth £64k ar y cynllun Awtomeiddio prosesau cyllidol yr Adran. Er mwyn cwrdd â'r diffyg mae'r Adran am ystyried os oes modd cyflawni'r arbedion trwy ddulliau amgen.

**6.1.4** Rhagwelir risgiau sylweddol o wireddu'r arbedion ar y cynllun Comisiynu'n ddoeth Gwasanaeth lechyd Meddwl sef cyfanswm o £100k. Mae bwriad i adolygu'r sefyllfa yn llawn dros y misoedd nesaf pryd fydd yr Adran yn ystyried ail-broffilio neu'n cyflwyno dulliau amgen o gyflawni.

**6.1.5** Mae'r Adran yn rhagweld rhai risgiau o gyflawni'r arbedion o'r cynllun Integreiddio a thrawsnewid Gwasanaethau Pobl Hyn, balans o £510k. Mae'r Adran wedi rhoi adnodd ychwanegol mewn 3 ardal ac yn gobeithio penodi ymhellach trwy ddefnyddio adnodd y Bwrdd lechyd a Chronfa Gofal Integredig (CGI) (Integrated Care Fund – ICF) i gefnogi a chryfhau'r gwaith yma.

## **6.1.6 Cynlluniau Arbedion 2019/20**

Mae cynlluniau arbedion o'r gyfundrefn newydd 2019/20 i gyd heblaw am un, un ai wedi eu gwireddu, ar drac i gyflawni'n amserol neu yn symud yn eu blaen. Yr un sydd hefo risgiau o gyflawni'r arbedion yw'r cynllun Ymestyn Egwyddorion Cynllun Peilot Alltwen ar draws y gwasanaeth, gwerth £133,500 yn 2019/20.

**6.1.7** Mae sawl her arall posib yn gwynebu'r Adran ond yn fy marn, mae cynlluniau ICF (Llywodraeth Cymru) a'r bidiau trawsffurfio yn mynd i fod yn gymorth i wireddu'r arbedion.

**6.1.8** O edrych ar y rhagamcanion ariannol presennol, mae'r Adran yn nodi risg o orwariant sylweddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yma os na fydd y cynlluniau arbedion yn cael eu gwireddu. Mae'r gorwariant yn bennaf o fewn y Gwasanaeth Darparu. Mae'r Adran o'r farn bod rhan helaeth y gorwariant yma yn ymwneud a threfniadau o fewn y maes gofal cartref. Mewn ymateb, byddwch yn ymwybodol bod gwaith helaeth yn digwydd i geisio darparu'r gwasanaeth yma mewn ffordd fwy effeithlon drwy ein Cynllun Gofal Cartref. Yn ogystal i hyn, mae yna angen i waith dadansoddi manwl ddigwydd i ddeall y gyllideb yn iawn a deall yn benodol beth sydd yn arwain at y gorwariant. Bu i'r Adran Gyllid ac yr Adran Oedolion, lechyd a Llesiant amlygu'r angen am adnodd ychwanegol i wneud y gwaith yma ac rwy'n awyddus iawn i'r gwaith yma symud yn ei flaen ac adnabod yr adnodd sydd ei angen.

**6.1.9** Un o brif heriau gorwariant yr Adran yw Gofal lechyd Parhaus (CHC) ac yn fater sydd angen sylw a datrysiad buan. Mae hi'n her gynyddol i geisio cytundeb lechyd ar gyfraniadau CHC. Mae anghytundeb cyson ac oedi ar benderfyniadau pecynnau a chyfraniadau yn arwain at gostau adnoddau staffio ayyb yn ogystal ar y gwasanaeth a'r gofal mae pobl Gwynedd yn ei dderbyn. Rwyf yn ymwybodol bod y Bwrdd lechyd yn gwneud darn o waith ar CHC a bydd y Cyfarwyddwr yn cyfrannu i'r maes gwaith yma ac yn rhannu tystiolaeth sydd gennym o'r rhwystrau o fewn y system bresennol. Mae tystiolaeth o'r gwaith sydd yn digwydd yn Nhywyn o ran paratoi'r ffordd ar gyfer cyfuno cyllidebau hefyd yn cynnig dysgu a gwersi er mwyn symud y mater i ddatrysiad buan.

## **7 CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

**7.1** Dim i'w nodi.

## **8 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD**

**8.1 Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w nodi o safbwynt priodoldeb.

**ii. Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae'r adroddiad yn nodi sefyllfa'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant o ran gwireddu'r cynlluniau arbedion sydd mewn lle, ac yn nodi'r risg sydd ynghlwm a rhai o'r cynlluniau. Bydd swyddogion Cyllid yn cynorthwyo'r Aelod Cabinet cyfrifol i fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau yma, a byddwn mewn lle i adrodd ymhellach ar y cynnydd yn dilyn yr adolygiad cyllidol nesaf. Yn y cyfamser, fel mae paragraff 6.1.8 o'r adroddiad yn nodi, mae risg o orwariant sylweddol os na fydd cynlluniau arbedion yr Adran Oedolion yn cael eu gwireddu.

## **8.2 Barn yr Aelod Lleol:**

**8.2.8** Ddim yn fater lleol.

## **8.3 Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

**8.3.8** Dim i'w nodi.

---

## **Atodiadau**

**Atodiad 1** – Mesurau Perfformiad Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant.

# Mesurau Perfformiad Cenedlaethol


31/01/2015 30/09/2019

Crynodeb o'r mesurau cendlaethol gyda tueddiadau dros amser.

Noder Gwerth am y MIS diweddaraf yn hytrach na cronnus am y flwyddyn

Tud. 191

Dyddiad	Mesurydd	Gwerth	Statws	Llynedd	Cymru	Yn Erbyn Cymru	Tueddiadau
30/06/2019	Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli	94.1	▲ -3.57 %	97.6			
30/06/2019	Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli - Eithrio sawl wedi gwrthod	94.1	▲ -1.96 %	96.0			
30/06/2019	Canran ymholiadau amddiffyn oedolion cwblheuwyd o fewn yr amserlen statudol	83.3	▲ -10.72 %	93.3			
30/06/2019	Canran yr oedolion sydd wedi cael cymorth gan y gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth ac nad ydynt wedi cysylltu â'r gwasanaeth eto yn ystod y flwyddyn.	58.8					
31/05/2019	Cyfradd oedoiad mewn gofal am rhesymau gofal cymdeithasol mesul 1000 o'r poblogaeth 75 a drodsodd.	1.9	● -63.67 %	5.2	5.34	-64.49 %	
30/06/2019	Faint o amser ar gyfartaledd y mae pobl hŷn (65 oed neu drosodd) yn cael cymorth mewn cartrefi gofal.	865.5					
30/06/2019	Oedran cyfartalog oedolion sy'n mynd i mewn i gartrefi gofal preswyl.	86.2					
30/06/2019	Y Canran o oedolion sydd wedi cwblhau pecyn o alluogi - ac nad oes ganddynt unrhyw becyn gofal a chymorth chwe mis yn ddiweddarach.	59.1					
30/06/2019	Y Canran o oedolion sydd wedi cwblhau pecyn o alluogi - ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach.	34.1					



# Eitem 15

## BLAENRAGLEN WAITH

### CABINET CYNGOR GWYNEDD

Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet	Eitemau i'w trafod	Aelod Cabinet
<b>Chwarter 2 2019/20 – 1 Gorffennaf – 30 Medi</b>		
<b>23 Gorffennaf</b>	Adroddiad Blynyddol ar Wella Gwasanaeth	Cyng. Nia Jeffreys
	Cynllun Ffordd Gwynedd	Cyng. Nia Jeffreys
	Adroddiad Blynyddol Cyflogaeth	Cyng. Nia Jeffreys
	Polisi Caffael Cynaliadwy	Cyng. Nia Jeffreys
	Ail Gomisiynu Darpariaeth Gofal Cartref	Cyng. Dafydd Meurig
	Cynllun Ariannol 2020/21	Cyng. Ioan Thomas
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol	Cyng. Nia Jeffreys
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Plant a Chefnogi Teuluoedd	Cyng. Dilwyn Morgan
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Addysg	Cyng. Cemlyn Rees Williams
	Adroddiad Perfformiad yr Aelod Cabinet dros Dai	Cyng. Craig ab Iago
<b>17 Medi</b>	Cynllun Cyflwyno Permit (Defnydd o faniau wrth ymweld a chanolfannau ailgylchu)	Cyng. Gareth Griffith



<b>Dyddiad trafodaeth yn y Cabinet</b>	<b>Eitemau i'w trafod</b>	<b>Aelod Cabinet</b>
	Ysgol Abersoch	Cyng. Cemlyn Williams
<b>Chwarter 2 2019/20 – 1 Gorffennaf – 30 Medi Dyddiad heb ei bennu</b>		
	Cynllun Llanbedr	Cyng. Gareth Griffith
<b>Chwarter 3 2019/20 – 1 Hydref – 31 Rhagfyr</b>		
15 Hydref	Cyllideb Refeniw 2019/20 – Adolygiad diwedd Awst	Cyng. Ioan Thomas
	Rhaglen Cyfalaf 2019/20 – Adolygiad diwedd Awst	Cyng. Ioan Thomas
	Trosolwg Arbedion 2019/20: Adroddiad Cynnydd ar Wireddu Cynlluniau Arbedion	Cyng. Ioan Thomas
	Blaen Raglen y Cabinet	Cyng. Dyfrig Siencyn